



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Iau 23 Medi 1999
(Cyfarfod y bore)

Thursday, 23 September 1999
(Morning session)

Cynnwys Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary
- 11 Cwestiwn Brys i'r Prif Ysgrifennydd: Y Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn
Urgent Question to the First Secretary: The Ban on Beef on the Bone
- 17 Datganiad ar Ddyddiad y Mileniwm
Statement on the Millennium Date
- 24 Y Cyngor Partneriaeth
The Partnership Council
- 59 Dadl Fer: Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgol
Short Debate: The Maintenance of School Buildings

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 9 a.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Incwm i Ffermwyr Income for Farmers

Q1 Nick Bourne: What action is the First Secretary taking to help provide an income for hard-pressed Welsh farmers and to promote the interests of rural Wales? (OAQ868VB)

The First Secretary: In recent weeks, Christine Gwyther and I have demonstrated the value of the Assembly by giving a strong voice for Wales—working closely with colleagues in London and Brussels but taking a robust and different line when that is in the interests of Wales. Our priority is to secure the long-term viability of the farming industry in Wales. That requires the full engagement of the industry. We must channel energy into the three food strategies, responses to 'Farming for the Future' and promoting the all-Wales livestock co-operative. However, I am sure that this week's announcement has given great encouragement to the farming industry in Wales.

Nick Bourne: When speaking to your Westminster colleagues, will you seek to convince them that the cost of right to roam legislation will be massive for farmers throughout Wales? Will you also convince them that the proposed abolition of country sports will lead to job losses throughout Wales, that the break-up of Milk Marque, which the Secretary for Agriculture and Rural Development argued so robustly against but which is now going ahead, is bad for Wales and that petrol price rises greater than the rate of inflation bear disproportionately on rural Wales and are extremely undesirable for people living in the countryside?

C1 Nick Bourne: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i helpu i ddarparu incwm i ffermwyr Cymru yn eu cyfyngder ac i hybu buddiannau cefn gwlad Cymru? (OAQ868VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Christine Gwyther a minnau wedi dangos gwerth y Cynulliad drwy godi llais yn gryf dros Gymru—gweithio'n glòs gyda chydweithwyr yn Llundain ac ym Mrwsel ond gan gymryd safbwynt cadarn a gwahanol pan fydd hynny er budd Cymru. Y flaenoriaeth sydd gennym yw sicrhau hyfywedd tymor hir y diwydiant amaeth yng Nghymru. I gyflawni hynny rhaid cael ymrwymiad llwyr gan y diwydiant. Rhaid inni gyfeirio egni i'r tair strategaeth fwyd, ymatebion i 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' a hyrwyddo'r corff da byw cydweithredol i Gymru gyfan. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr bod y cyhoeddiad yr wythnos hon wedi calonogi'r diwydiant amaeth yng Nghymru yn fawr.

Nick Bourne: Pan fyddwch yn siarad â'ch cydweithwyr yn San Steffan, a fyddwch yn ceisio eu darbwylllo y bydd cost y ddeddfwriaeth ar yr hawl i grwydro yn anferth i ffermwyr drwy Gymru? A fyddwch hefyd yn eu darbwylllo y bydd y gwaharddiad arfaethedig ar hela anifeiliaid yng nghefn gwlad yn arwain at golledion swyddi ym mhob rhan o Gymru, y bydd datgymalu Milk Marque, y dadleuodd yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig mor gadarn yn ei erbyn ond sydd bellach yn mynd ymlaen, yn ddrwg i Gymru a bod codiadau ym mhris petrol sydd yn uwch na chyfradd chwyddiant yn pwyso i raddau mwy ar y Gymru wledig a'u bod yn annymunol iawn i bobl sydd yn byw yng nghefn gwlad?

The First Secretary: Considering the priorities in the farming industry, the problems it faces and the debates that we have had in the last week, I am surprised that Nick should be tangential and political in asking his supplementary question. We will work closely with our colleagues at Westminster, but matters such as the proposed right to roam legislation are well balanced, providing protection for farmers and landowners and freedom for those who wish to use the countryside.

Rhodri Glyn Thomas: Alun, sylwais eich bod yn defnyddio'r geiriau 'tymor hir' wrth sôn am y cynlluniau ar gyfer amaethyddiaeth. Wrth gwrs, yr ydym yn croesawu datganiad Nick Brown ddechrau'r wythnos ar y pecyn a gynigir i ffermwyr. Mae amheuaeth ynghylch faint o arian newydd a geir yn hwnnw, ond fe fyddai'n grintachlyd i gwyno. Yr ydym yn croesawu'r pecyn a'r gwaith a wnaethpwyd i'w sicrhau. Fodd bynnag, a fydddech yn cytuno bod gennym broblem yn y tymor canolig? Bydd rhaid i'r diwydiant symud o'r sefyllfa bresennol—gan dderbyn bod y pecyn a chamau'r Cynulliad wedi ateb y broblem ariannol rywfaint yn y tymor byr—i sefyllfa lle y gall fanteisio ar y math o gynlluniau tymor hir sydd gennym ar ei gyfer.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hwnnw'n bwynt pwysig. Mae'r arian sydd yn cael ei ddefnyddio a datganiad yr wythnos hon yn helpu ffermwyr Cymru. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi dweud eisoes, mae'n bwysig i ffermwyr gytuno a chydweithio gyda ni er mwyn ceisio symud o'r sefyllfa bresennol i ddyfodol llawer mwy llwyddiannus. Mae'r strategaeth gydweithio ar anifeiliaid a'r ddogfen a gynhyrchwyd gan Christine Gwyther a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn bwysig. Mae'n siom fod llawer o ffermwyr wedi cymryd cyhyd i ddeall pwysigrwydd cydweithio. Deallodd yr undebau hynny ac maent wedi cydweithio ar y strategaeth. Fodd bynnag, mae'n holl bwysig fod ffermwyr yn deall bod yn rhaid iddynt gydweithio gyda ni, yr undebau a phawb arall sydd yn barod i symud pethau yn eu blaenau. Mae angen gwneud hynny ar frys.

Y Prif Ysgrifennydd: O ystyried y blaenoriaethau yn y diwydiant amaeth, y problemau y mae'n eu hwynebu a'r dadleuon a gawsom yr wythnos diwethaf, yr wyf yn synnu bod Nick yn amherthnasol a gwleidyddol wrth ofyn ei gwestiwn atodol. Byddwn yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr yn San Steffan, ond mae materion fel y ddeddfwriaeth arfaethedig ar yr hawl i grwydro yn gytbwys, gan roi amddiffyniad i ffermwyr a thirfeddianwyr a rhyddid i'r rhai sydd yn dymuno defnyddio cefn gwlad.

Rhodri Glyn Thomas: Alun, I noticed that you used the words 'long term' in talking about the plans for agriculture. Of course, we welcome Nick Brown's announcement at the beginning of this week about the package being offered to farmers. There is doubt about how much new money is included in that, but it would be miserly to complain. We welcome the package and the work that was done to secure it. However, would you agree that we have a problem in the mid term? The industry will have to move from the current situation—accepting that the package and the Assembly's steps have gone some of the way to answering the financial problem in the short term—to a situation where it can take advantage of the kind of long-term schemes that we have in mind.

The First Secretary: That is an important point. The money that is being used and this week's announcement are helping Wales's farmers. However, as we have already said, it is important that farmers agree and co-operate with us to try to move from the current situation to a much more successful future. The co-operation strategy on animals and the document produced by Christine Gwyther and the Agriculture and Rural Development Committee are important. It is disappointing that many farmers have taken so long to understand the importance of co-operation. The unions understood that and they have co-operated on the strategy. However, it is crucial that the farmers understand that they must co-operate with us, the unions and everybody else who is willing to move matters forward. That must be done urgently.

Kirsty Williams: Alun, given that there is no mention about the possibility of a calf processing aid scheme and ewe disposal scheme in Nick Brown's very welcome package, will you follow the example of the Scottish Parliament? It intends to pursue a ewe disposal scheme and believes that it is possible to do so.

The First Secretary: It sounds as if you are supporting Dafydd Wigley's suggestion that where Scotland goes, Wales must surely follow. We believe in doing what is right for Wales and what is good for Wales and showing the way for other parts of the United Kingdom. Nick Brown's announcement this week was not about the cull ewe scheme or the calf processing aid scheme on which discussions are under way. We have already demonstrated how to give Wales a strong voice in the discussions in the UK and Europe. We have not lost sight of the importance of those points.

Brian Gibbons: After a vicious summer during which Christine Gwyther was subject to personal abuse and attacks, would you like to take this opportunity to congratulate her on the success that she achieved in obtaining the latest deal for farming in Wales?

The First Secretary: I certainly would. I am proud of the way Christine Gwyther has undertaken her duties. My appointing somebody with an understanding and experience of rural development has been entirely justified by the way that Christine has worked creatively on behalf of the whole community in Welsh rural areas as well as farmers. Bob Parry, the President of the Farmers Union of Wales, acknowledged this week that the way things have been done proves that both the Assembly and the Government in Westminster have been listening to farmers' plea for help. We have said all along that it takes time to achieve a result.

Kirsty Williams: Alun, o dderbyn nad oes sôn am y posibilïad o gynllun cymorth prosesu lloi a chynllun difa mamogiaid yn y pecyn derbyniol iawn oddi wrth Nick Brown, a fyddwch yn dilyn esiampl Senedd yr Alban? Mae'n bwriadu bwrw ymlaen â chynllun difa mamogiaid ac yn credu bod modd gwneud hynny.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n swnio i mi fel pe baech yn cefnogi awgrym Dafydd Wigley bod yn rhaid i Gymru ddilyn yn ôl troed yr Alban. Credwn mewn gwneud yr hyn sydd yn iawn i Gymru a'r hyn sydd yn dda i Gymru a dangos y ffordd i rannau eraill y Deyrnas Unedig. Nid oedd cyhoeddiad Nick Brown yr wythnos hon yn ymwneud â'r cynllun difa mamogiaid na'r cynllun cymorth prosesu lloi sydd yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Yr ydym eisoes wedi dangos sut i roi llais cryf i Gymru yn y trafodaethau yn y DU ac Ewrop. Nid ydym wedi colli golwg ar bwysigrwydd y pwyntiau hynny.

Brian Gibbons: Ar ôl haf mileinig pryd yr oedd Christine Gwyther yn cael ei dilorni ac yn destun ymosodiadau personol, a hoffech fanteisio ar y cyfle hwn i'w llongyfarch ar y llwyddiant a gafodd wrth sicrhau'r fargen ddiweddaraf i amaethyddiaeth yng Nghymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Hoffwn, yn sicr. Yr wyf yn falch iawn o'r modd yr ymgwymerodd Christine Gwyther â'i dyletswyddau. Mae'r ffaith fy mod wedi penodi rhywun sydd â dealltwriaeth a phrofiad o ddatblygu gwledig wedi ei chyfiawnhau'n llwyr drwy'r modd y gweithiodd Christine yn greadigol ar ran y gymuned gyfan yn ardaloedd gwledig Cymru yn ogystal â'r ffermwyr. Fe gydnabu Bob Parry, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, yr wythnos hon fod y modd y gwnaethpwyd pethau yn profi bod y Cynulliad a'r Llywodraeth yn San Steffan wedi gwrando ar apêl y ffermwyr am gymorth. Yr ydym wedi dweud erioed fod angen amser i sicrhau canlyniad.

Cynlluniau Trafnidiaeth Integredig Integrated Transport Proposals

Q2 Janet Davies: What plans does the First Secretary have to encourage local authorities to forward integrated transport proposals for Objective 1 funding, by informing them that such schemes will take priority when considering transport proposals for European funding? (OAQ867VB)

The First Secretary: The current draft of the single programming document places a clear emphasis on support for integrated transport schemes at a local level. Guidelines on the development of integrated transport schemes will be issued before the beginning of the Objective 1 programme.

Janet Davies: Given that the Assembly does not have the valuable powers of a transport authority, will you use the Objective 1 match funds to provide an increased percentage of funding for public transport as I believe it is less than 20 per cent at the moment? Will you persuade local authorities to introduce this through ticketing and telemetry systems?

The First Secretary: The progress made during the last year to increase the bus subsidy to encourage the use and sustainability of buses in rural and urban areas is a major step forward. However, it is not appropriate at this stage to start pushing particular aspects of development in terms of Objective 1 when the Assembly will be looking at the recommendations of the European taskforce and while we are still collating the responses to it. As I have indicated, we recognise the importance of integrated transport and that it should be a part of the whole approach to be considered as part of Objective 1.

Alun Cairns: I welcome plans to involve organisations in the Objective 1 programme be they local authorities or otherwise. However, will you agree that there has been a significant lack of involvement from the private sector in all Objective 1 programmes to date? Only two organisations from the taskforce were purely from the private sector. In Swansea there are only four organisations

C2 Janet Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i annog awdurdodau lleol i greu cynlluniau trafndiaeth integredig ar gyfer arian Amcan 1, drwy eu hysbysu y bydd cynlluniau o'r fath yn cael blaenoriaeth wrth ystyried cynigion trafndiaeth am ariannu Ewropeaidd? (OAQ867VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae drafft cyfredol y ddogfen raglennu sengl yn rhoi pwyslais eglur ar gefnogi cynlluniau trafndiaeth integredig ar lefel leol. Cyhoeddir canllawiau ar ddatblygu cynlluniau trafndiaeth integredig cyn dechrau'r rhaglen Amcan 1.

Janet Davies: O dderbyn nad yw'r Cynulliad yn meddu ar y pwerau gwerthfawr sydd gan awdurdod trafndiaeth, a fyddwch yn defnyddio arian cyfatebol Amcan 1 i ddarparu canran uwch o ariannu i drafndiaeth gyhoeddus gan fy mod yn credu ei fod yn llai na 20 y cant ar hyn o bryd? A wnewch ddwyn perswâd ar awdurdodau lleol i gyflwyno hyn drwy systemau tocynnau a thelemetreg?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cynyddu'r cymhorthdal i fysiau i hybu defnydd a chynladwyedd bysiau mewn ardaloedd gwledig a threfol yn gam mawr ymlaen. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n briodol dechrau gwthio agweddau penodol ar ddatblygu o ran Amcan 1 pan fydd y Cynulliad yn ystyried argymhellion y tasglu Ewropeaidd a thra'r ydym yn dal i gasglu'r ymatebion iddo. Fel y nodais, yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd trafndiaeth integredig ac yn derbyn y dylai fod yn rhan o'r dull gweithredu cyfan sydd i'w ystyried fel rhan o Amcan 1.

Alun Cairns: Yr wyf yn croesawu'r bwriad i gynnwys cyrff yn y rhaglen Amcan 1 boed y rheini'n awdurdodau lleol neu fel arall. Fodd bynnag, a gytunwch fod diffyg ymwneud sylweddol o du'r sector preifat yn yr holl raglenni Amcan 1 hyd yn hyn? Dim ond dau gorff o'r tasglu oedd yn gyfan gwbl o'r sector preifat. Yn Abertawe nid oes ond pedwar corff o'r sector preifat o blith 21 ac

from the private sector out of 21 and in Caerphilly only three out of 14. Do you agree that there has been a significant lack of involvement from the private sector?

The First Secretary: With respect, you have got it wrong again, Alun. The private sector has been closely involved with the work of the taskforce in the consultations in a variety of meetings. I was particularly pleased at the positive response from the private sector in the meeting in Swansea last week where the Chamber of Commerce commented favourably on the chance of being involved and would welcome more involvement. That reflects a shift of many in the private sector who are coming to understand the importance of Objective 1 to business. There have been ill-placed comments, particularly some made on behalf of the Confederation of British Industry which has been closely involved from the beginning. They rather surprised me.

9:09 a.m.

Alun Pugh: Would you agree that the privatisation and deregulation of transport has been a disaster for the people of Wales? We have again recently seen a big increase in walk-on prices for Virgin tickets. Will you ensure that Objective 1 money for integrated transport schemes ends up in transport infrastructure and not in the back pockets of Railtrack shareholders?

The First Secretary: Any money that the Assembly puts into transport should be used to good effect in a way that benefits the public rather than assisting the profits of those who run the industry. With regard to rail, I entirely support the robust approach that the Prime Minister and particularly the Deputy Prime Minister have taken in highlighting the poor service in many parts of England and Wales. That has an effect on our people and I applaud the priority of getting it right. Our part in promoting transport should be to support the public transport element and complement that robust approach.

yng Nghaerffili nid oes ond tri o blith 14. A ydych yn cytuno bod diffyg ymwneud sylweddol o du'r sector preifat hyd yma?

Y Prif Ysgrifennydd: Gyda pharch, yr ydych yn camgymryd eto, Alun. Bu gan y sector preifat gysylltiad agos â gwaith y tasglu yn yr ymgynghoriadau mewn amryw o gyfarfodydd. Yr oeddwn yn arbennig o falch o'r ymateb cadarnhaol gan y sector preifat mewn cyfarfod yn Abertawe yr wythnos diwethaf lle y cafwyd sylwadau ffafriol gan y Siambr Fasnach ar y cyfle i gymryd rhan gan ddweud y byddai'n falch o gael mwy o ymwneud. Mae hynny'n adlewyrchu'r newid meddwl ymysg llawer yn y sector preifat sydd yn dechrau deall pwysigrwydd Amcan 1 i fusnes. Fe gafwyd sylwadau anaddas, yn enwedig rhai a wnaethpwyd ar ran Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a fu â chysylltiad agos ers y dechrau. Yr oeddent yn fy synnu braidd.

Alun Pugh: A fyddech yn cytuno bod preifateiddio a dadreoleiddio trafndiaeth wedi bod yn drychineb i bobl Cymru? Gwelsom gynnydd mawr eto yn ddiweddar ym mhrisiau tocynnau Virgin a brynir ar y trêrn. A oes modd ichi sicrhau y bydd arian Amcan 1 i gynlluniau trafndiaeth integredig yn cyrraedd yr isadeiledd trafndiaeth yn hytrach na phocedi cyfranddalwyr Railtrack?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae unrhyw arian a roddir gan y Cynulliad i drafndiaeth i'w ddefnyddio'n effeithiol mewn modd sydd o fudd i'r cyhoedd yn hytrach nag er mwyn ychwanegu at elw'r rhai sydd yn rhedeg y diwydiant. Gyda golwg ar y rheilffyrdd, yr wyf yn llwyr gefnogi dull gweithredu cadarn y Prif Weinidog ac yn enwedig y Dirprwy Brif Weinidog wrth dynnu sylw at y gwasanaeth gwael mewn sawl rhan o Gymru a Lloegr. Mae hyn yn effeithio ar ein pobl ac yr wyf yn cymeradwyo'r flaenoriaeth o'i gael yn iawn. Y rhan y dylem ni ei chymryd wrth hyrwyddo trafndiaeth yw cefnogi'r elfen trafndiaeth gyhoeddus ac ategu'r dull gweithredu cadarn hwnnw.

Gwerth Gorau Best Value

Q3 Peter Black: What plans does the First Secretary have to apply the principles of Best Value to the Assembly's own services and functions? (OAQ861VB)

The First Secretary: The principles of Best Value will be applied fully to every aspect of the Assembly's work.

Peter Black: Does that also apply to the Assembly sponsored public bodies, and if so will the Committees be expecting progress reports?

The First Secretary: The principles of Best Value have to apply throughout the public service in Wales. The principles apply to local government, from whom we have had a great deal of enthusiasm and co-operation. They also have to apply to the bodies sponsored by this Assembly. It is important that the Assembly Committees see it as part of their responsibility to look at how Best Value is applied. The stone should not be turned over every couple of minutes. We must be reasonable in the way that scrutiny is applied, but I agree that it is part of the responsibility of the Assembly Secretaries and Committees.

David Melding: The private finance initiative is often used for schools and hospitals as the Best Value option. Why is it not being considered and used for the new Assembly building?

The First Secretary: Best Value has meant changing the nature of the private finance initiative from the rather slack system operated by the previous Government. The PFI must be used in a way that will benefit the public purse in the long term. That will be examined in relation to any individual project.

C3 Peter Black: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i roi egwyddorion Gwerth Gorau ar waith mewn perthynas â gwasanaethau a gwaith y Cynulliad? (OAAQ861VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Fe roddir egwyddorion Gwerth Gorau ar waith yn llawn ym mhob agwedd ar waith y Cynulliad.

Peter Black: A yw hynny'n wir hefyd am gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ac os felly a fydd y Pwyllgorau'n disgwyl derbyn adroddiadau gwaith?

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid i egwyddorion Gwerth Gorau gael eu rhoi ar waith drwy'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion i'w rhoi ar waith mewn llywodraeth leol, a chawsom lawer iawn o frwdfrydedd a chydweithrediad ganddynt. Rhaid eu rhoi ar waith hefyd yn y cyrff sydd dan nawdd y Cynulliad hwn. Mae'n bwysig i Bwyllgorau'r Cynulliad ei weld yn rhan o'u cyfrifoldeb i ystyried y modd y rhoddir Gwerth Gorau ar waith. Ni ddylid troi'r garreg drosodd bob ychydig o funudau. Rhaid inni fod yn rhesymol yn y modd o archwilio, ond cytunaf ei fod yn rhan o gyfrifoldeb Ysgrifennyddion a Phwyllgorau'r Cynulliad.

David Melding: Fe ddefnyddir y fenter cyllid preifat yn aml ar gyfer ysgolion ac ysbytai fel y dewis Gwerth Gorau. Pam na chaiff ei ystyried a'i ddefnyddio ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Gwerth Gorau wedi golygu newid yn natur y fenter cyllid preifat oddi wrth y system lac braidd a weithredwyd gan y Llywodraeth flaenorol. Rhaid defnyddio'r fenter cyllid preifat mewn modd a fydd o fudd i'r pwrs cyhoeddus yn y tymor hir. Fe edrychir ar hynny mewn perthynas ag unrhyw brosiect unigol.

Cig Eidion ar yr Asgwrn Beef on the Bone

Q4 Glyn Davies: Will the First Secretary confirm that the beef on the bone ban can be lifted in Wales if a majority of Assembly Members agree? (OAQ914VB)

The First Secretary: I am sure that Glyn Davies is aware of the powers of the Assembly, and the fact that those powers can be exercised by a majority of Assembly Members. The necessary procedures in relation to secondary legislation would have to be followed. I believe that the issue of beef on the bone has been handled well by the Assembly. The Agriculture and Rural Development Committee and members of the Health and Social Services Committee have been looking at the evidence and asking what the Assembly should do in the interests of the people of Wales. I am sure that Glyn would agree with me.

Glyn Davies: Will the First Secretary ask the Chief Medical Officer for Wales to discuss her opinion on this issue with Professor Liam Donaldson—the Chief Medical Officer for England—who has described the risk arising from eating beef on the bone as ‘tiny and unquantifiable in any meaningful way’? I suggest that this discussion is held before the Agriculture and Rural Development Committee meets to decide the way forward.

The First Secretary: I am rather surprised that Glyn does not seem to be aware of the fact that discussions have taken place between the four Chief Medical Officers who have looked at the evidence available to them. I have complete confidence in our Chief Medical Officer, Dr Ruth Hall. The Assembly needs to take careful note of her professional judgment and integrity, especially when her view and assessment of the evidence are endorsed independently and separately in terms of the judgment by the Chief Medical Officers for Scotland and for Northern Ireland.

C4 Glyn Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon cadarnhau bod modd codi'r gwaharddiad yng Nghymru ar gig eidion ar yr asgwrn os bydd mwyafrif Aelodau'r Cynulliad yn cytuno? (OAQ914VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn sicr bod Glyn Davies yn ymwybodol o bwerau'r Cynulliad, a'r ffaith bod modd i'r pwerau gael eu gweithredu gan fwyafrif o Aelodau'r Cynulliad. Byddai'n rhaid dilyn y gweithdrefnau angenrheidiol mewn perthynas â deddfwriaeth eilaidd. Credaf fod mater cig eidion ar yr asgwrn wedi ei drin yn dda gan y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn ystyried y dystiolaeth ac yn gofyn beth y dylai'r Cynulliad ei wneud er budd pobl Cymru. Yr wyf yn sicr y bydd Glyn yn cytuno â mi.

Glyn Davies: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon gofyn i Brif Swyddog Meddygol Cymru drafod ei barn ar y mater hwn gyda'r Athro Liam Donaldson—Prif Swyddog Meddygol Lloegr—a ddywedodd fod y perygl oddi wrth fwyta cig eidion ar yr asgwrn yn ‘fach iawn ac yn amhosibl ei fesur mewn unrhyw fodd ystyrion’? Awgrymaf y dylid cynnal y drafodaeth hon cyn i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gyfarfod i benderfynu'r ffordd ymlaen.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn synnu braidd nad yw Glyn i'w weld yn ymwybodol o'r ffaith bod trafodaethau wedi digwydd rhwng y pedwar Prif Swyddog Meddygol sydd wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae gennyf bob ffydd yn ein Prif Swyddog Meddygol, Dr Ruth Hall. Mae angen i'r Cynulliad roi sylw gofalus i'w barn a'i huniondeb proffesiynol, yn enwedig pan gadarnheir ei barn a'i hasesiad o'r dystiolaeth yn annibynnol ac ar wahân o ran barn y Prif Swyddogion Meddygol yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyllid Ychwanegol oddi wrth y Trysorlys Additional Finances from the Treasury

C5 Dafydd Wigley: Pa ddarpariaeth sydd yn bod i alluogi'r Cynulliad i gael cyllid ychwanegol oddi wrth y Trysorlys os cyfyd argyfwng na ragwelwyd mohono? (OAQ905JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Cyhoeddwyd y Datganiad ar Bolisi Ariannu gan y Trysorlys ar 31 Mawrth 1999. Mae'r ddogfen yn pennu'r rheolau ar gyfer ariannu'r Cynulliad. Yn Adran 9.2 dywedir y gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar ran y Cynulliad, gyflwyno achos i Weinidogion y Trysorlys am arian ychwanegol o'r gronfa wariant cyhoeddus wrth gefn pan geir,

'exceptional and unforeseen domestic costs which cannot reasonably be absorbed within existing budgets without a major dislocation of existing services.'

Dafydd Wigley: A yw Alun Michael yn derbyn ein bod wedi gweld nifer o sefyllfaoedd argyfyngus yng Nghymru eleni, nid lleiaf yr argyfwng yng nghefn gwlad? Yr ydym wedi gweld argyfwng yr wythnos hon gyda chau ffatri Laura Ashley, ac mae cymaint o swyddi eraill wedi eu colli. Yn wyneb hyn, ac wrth ystyried yr angen i'r Cynulliad weithredu a chael ei weld yn gweithredu, pa gais y mae Alun Michael wedi ei wneud, drwy'r Ysgrifennydd Gwladol, i gael rhan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer y dibenion hyn?

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid gwneud cais yn ôl y rheolau. Yr wyf yn siŵr y byddai Dafydd Wigley yn cefnogi'r modd yr ydym wedi llwyddo, gyda datganiad Nick Brown, i ddod ag arian i mewn i gefnogi ffermwyr yng Nghymru. Mae hynny'n bwysig iawn i bawb yng nghefn gwlad, nid ffermwyr yn unig.

Mae'n siom fawr pan fydd unrhyw ffatri yn cau ond yr ydym hefyd wedi llwyddo i ddenu ffatrioedd newydd i Gymru. Yr ydym wedi buddsoddi arian mewn datblygiadau fel Calsonic International Limited yn Llanelli yn ystod y pythefnos diwethaf. Yr ydym yn cydweithio gydag adrannau megis yr Adran Diwydiant a Masnach ynglŷn â chwmnïau megis cwmni moduron Ford a British Airways. Gobeithio na fydd Dafydd yn

Q5 Dafydd Wigley: What provisions exist to enable the Assembly to receive additional finances from the Treasury in an unforeseeable crisis? (OAQ905JS)

The First Secretary: The Statement of Funding Policy was published by the Treasury on 31 March 1999. The document sets out the rules for the funding of the Assembly. Section 9.2 states that the Secretary of State for Wales, on behalf of the Assembly, may put forward a case to Treasury Ministers for additional funding to be made available from the public expenditure reserve when there are,

Dafydd Wigley: Does Alun Michael accept that we have seen a number of crises in Wales this year, not least the crisis in the rural areas? We have seen a crisis this week with the closure of the Laura Ashley factory, and so many other jobs have been lost. In view of this, and considering the need for this Assembly to act and to be seen to act, what bid has Alun Michael made, through the Secretary of State, to receive part of the contingency reserve for these purposes?

The First Secretary: A bid has to be made under the rules. I am sure that Dafydd Wigley would support the way in which we have succeeded, with Nick Brown's statement, to bring in money to support farmers in Wales. That is very important for everybody in the rural areas, not only farmers.

It is a great disappointment when any factory closes but we have also succeeded in attracting new factories to Wales. We have invested money in developments such as Calsonic International Limited in Llanelli during the past fortnight. We are collaborating with departments such as the Department of Trade and Industry on companies such as the Ford Motor Company and British Airways. I hope that Dafydd will

dibrisio'r gwaith sydd ar y gweill i helpu pobl yng Nghymru: gwaith ynglyn â'r economi yn ogystal â darganfod a chadw swyddi.

not devalue the work that is under way to help people in Wales: work on the economy as well as finding and retaining jobs.

Cwestiwn Brys i'r Prif Ysgrifennydd Urgent Question to the First Secretary

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 6.31, I have had a request from Nick Bourne to ask the First Secretary a question of urgent public importance.

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 6.31, yr wyf wedi derbyn cais gan Nick Bourne i ofyn cwestiwn o fater brys cyhoeddus i'r Prif Ysgrifennydd.

Y Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn The Ban on Beef on the Bone

Nick Bourne: Will the First Secretary make a statement on the Government of Wales's intention in relation to the lifting of the ban on beef on the bone in Wales? Will he seek to ensure that slowness to lift the ban in Wales does not hold back the lifting of the ban elsewhere in the United Kingdom? (EOAQ1226VB)

Nick Bourne: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon gwneud datganiad ar fwriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn yng Nghymru? A yw'n fodlon ceisio sicrhau na fydd yr arafwech wrth godi'r gwaharddiad yng Nghymru yn rhwystro codi'r gwaharddiad mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig? (EOAQ1226VB)

The First Secretary: I am sure that Nick will be the first to applaud us in taking decisions that are right for the people of Wales. He knows that I am an enthusiast for Welsh beef and that I am one of the keenest to see the beef on the bone ban lifted.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn sicr mai Nick fydd y cyntaf i'n canmol am wneud penderfyniadau sydd yn iawn i bobl Cymru. Fe wyr fy mod yn frwdfrydig dros gig eidion Cymru a'm bod ymysg y rhai sydd yn fwyaf awyddus i weld codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn.

The ban has to be lifted when it is safe to do so. Even if the chance or percentage likelihood of contracting disease from eating beef on the bone is low, the effect of that infection is dire. Universally, it is death. It is not an illness to play around with. That is why we must listen carefully to the Chief Medical Officer's advice.

Rhaid codi'r gwaharddiad pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Hyd yn oed os yw'r siawns neu'r ganran tebygoliaeth o ddal clefyd drwy fwyta cig eidion ar yr asgwrn yn isel, bydd effaith yr heintiad hwnnw yn ofnadwy, sef marwolaeth ym mhob achos. Nid yw'n salwch y dylid ei drin yn ysgafn. Dyna pam y mae'n rhaid inni wrando'n ofalus ar gyngor y Prif Swyddog Meddygol.

9.19 a.m.

Nick Bourne: While I recognise the horrific effects of this disease and your efforts, along with His Royal Highness, to promote Welsh beef, there is a danger that England will take a different step from us in Wales, based on the same advice. English counterparts were

Nick Bourne: Er fy mod yn cydnabod effeithiau echrydus y clefyd hwn a'ch ymdrechion chi, ynghyd â'i Fawrhydi Brenhinol, i hybu cig eidion Cymru, mae perygl y bydd Lloegr yn cymryd cam gwahanol i ni yng Nghymru, ar sail yr un

given what was purported to be new evidence, and if there is new evidence it should have come to the Agriculture and Rural Development Committee this week. That evidence was dated July and was not discovered until after this week's Agriculture and Rural Development Committee. This raises questions as to where that July evidence was and why it was not presented to our Committee during the intervening two months.

Is there not a danger that we are going to be carried along in the slip stream of England or, alternatively, that you and the Government of Wales will achieve a unique treble—unlike Manchester United's historic one—that you will have damaged the credibility of the National Assembly for Wales and will have hit Welsh and English farming?

The First Secretary: I am grateful that you acknowledged my efforts. However, the later parts of your question were rather contrived because we have managed, across the parties, to tackle in a mature way a difficult and emotive issue with very technical evidence. We have shown the way to the rest of the United Kingdom by dealing with the evidence so seriously. Dr Ruth Hall's assessment of the evidence has come to the Assembly honestly and openly. The fact that the opinion on the available evidence, which has not changed, was given in July demonstrates the consistency with which it has been given.

The evidence is rock solid and must be taken seriously. I have read the English Chief Medical Officer's report, which has been oversimplified in the press and the media. It suggests that only a partial lifting of the ban would be tenable. For many of us, and the public, a partial lifting of the ban would be confusing. We all want to reach the stage where the Oxford group's evidence, which we are expecting in November, encourages us to feel safe in lifting the ban and we can do so confidently throughout the UK, wholly rather than partially. That would be

dystiolaeth. Fe roddwyd i gymheiriaid yn Lloegr yr hyn yr honnir ei fod yn dystiolaeth newydd, ac os oes tystiolaeth newydd fe ddylasai fod wedi cyrraedd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yr wythnos hon. Gorffennaf oedd y dyddiad ar y dystiolaeth honno ac ni ddarganfuwyd hi tan ar ôl Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yr wythnos hon. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch lle'r oedd y dystiolaeth honno a gafwyd yng Ngorffennaf a pham na chafodd ei chyflwyno i'n Pwyllgor ni yn ystod y ddau fis a aeth heibio yn y cyfamser.

Onid oes perygl y byddwn yn cael ein tynnu yn sgîl Lloegr neu, fel arall, y byddwch chi a Llywodraeth Cymru yn cyflawni camp driphlyg unigryw—yn wahanol i'r un hanesyddol a gyflawnodd Manchester United—gan niweidio hygredd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a tharo amaethyddiaeth Cymru a Lloegr?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi cydnabod f'ymdrechion. Fodd bynnag, mae rhannau olaf eich cwestiwn braidd yn ffuantus oherwydd yr ydym wedi llwyddo, ar draws y pleidiau, i ymdrin yn aeddfed â mater anodd ac emosiynol sydd â thystiolaeth dechnegol iawn. Yr ydym wedi dangos y ffordd i weddill y Deyrnas Unedig drwy ymdrin â'r dystiolaeth o ddifrif. Fe ddaeth asesiad Dr Ruth Hall o'r dystiolaeth yn onest ac yn agored i'r Cynulliad. Mae'r ffaith mai yng Ngorffennaf y rhoddwyd y farn ar y dystiolaeth oedd ar gael, nad yw wedi newid, yn dangos y cysondeb yn y modd y'i rhoddwyd.

Mae'r dystiolaeth yn gadarn fel y graig a rhaid ei chymryd o ddifrif. Darllenais adroddiad Prif Swyddog Meddygol Lloegr, sydd wedi ei orsymleiddio yn y wasg ac ar y cyfryngau. Mae'n awgrymu mai dim ond codi'r gwaharddiad yn rhannol a fyddai'n ddichonol. I lawer ohonom, ac i'r cyhoedd, byddai codi'r gwaharddiad yn rhannol yn peri dryswch. Yr ydym oll am gyrraedd y sefyllfa lle y bydd tystiolaeth grwp Rhydychen, a ddisgwylir yn Nhachwedd, yn ein hybu i deimlo'n ddiogel wrth godi'r gwaharddiad gan wneud hynny'n hyderus

preferable and clearer. For the sake of a few weeks, and bearing in mind the dangers of undermining confidence in British beef, particularly Welsh beef, by taking inappropriate or precipitate action, or action that is perceived to be jumping ahead of the evidence, we should proceed with care.

Ieuan Wyn Jones: Croesawn ddatganiad Nick Brown ar gymorth i ffermwyr. Deallwn fod cyfanswm o £20 miliwn yn cael ei neilltuo ar gyfer ffermwyr yng Nghymru yn ystod y flwyddyn hon. A allwch chi gadarnhau y bydd y Cynulliad yn parhau â'r cynllun cymorth prosesu lloï yng Nghymru ac y bydd yn cael ei ariannu o gyllid y Cynulliad? Mae'n bwysig cadarnhau na fydd penderfyniad Nick Brown yn effeithio ar y cynnig a dderbyniwyd yma yn unfrydol yr wythnos diwethaf.

Nid yw'r modd y gwnaeth Nick Brown ei ddatganiad ar gig ar yr asgwrn yn llawer o help i'r Cynulliad. Byddai'n llawer gwell pe byddai'r pedwar Prif Swyddog Meddygol wedi gwneud datganiad ar y cyd. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi cytuno i ailedrych fis nesaf ar y mater hwn ac ar y dystiolaeth newydd?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydym yn barod i symud ymlaen yn uniongyrchol os oes rhaid, yn y modd a drafodwyd yn y Cynulliad. Byddai'n well gennyf pe gellid gwneud hynny â phawb yn symud yn yr un cyfeiriad. Byddai hynny'n cael gwared â'r problemau ar draws y ffin. Rhaid inni barhau i drafod y materion hyn â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac ag Ewrop, gan fod pethau y mae angen inni eu gwneud i sicrhau y gallwn symud ymlaen yn y modd y dymunwn. Ni allwn ddweud yn syml mai fel hyn yr ydym ni am ei wneud. Nid datganoli fyddai hynny, ond nid wyf am ddechrau ar y ddadl honno yn awr.

drwy'r DU, yn llwyr yn hytrach nag yn y rhannol. Byddai hynny'n well ac yn eglurach. A wnelo ychydig wythnosau, ac o gofio'r peryglon o danseilio hyder yng nghig eidion Prydain, ac yn enwedig cig eidion Cymru, drwy weithredu'n amhriodol neu'n anystyriol, neu mewn modd y gwelir ei fod yn achub y blaen ar y dystiolaeth, fe ddylem droedio'n ofalus.

Ieuan Wyn Jones: We welcome Nick Brown's statement on assistance to farmers. We understand that a total of £20 million is being set aside for Welsh farmers during this year. Can you confirm that the Assembly will continue with the calf processing aid scheme in Wales and that it will be financed from the Assembly's budget? It is important to confirm that Nick Brown's decision will not affect the proposal that was accepted unanimously here last week.

The way in which Nick Brown made his statement on beef on the bone is not much help to the Assembly. It would have been much better if the four Chief Medical Officers had made a joint statement. Does the First Secretary welcome the fact that the Agriculture and Rural Development Committee has agreed to look again next month at this matter and at the new evidence?

The First Secretary: We are willing to move on directly if we must, in the way that we discussed in the Assembly. I would prefer it if that could be done with everyone moving in the same direction. That would get rid of the problems across the border. We must continue to debate these issues with the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food and with Europe, as there are things we have to do to ensure that we can move forward in the way we wish. We cannot simply say that this is the way we will do it. That would not be devolution, but I will not enter into that debate now.

Croesawaf y ffaith fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn bwriadu ailystyried y mater. Mae'r Pwyllgor wedi dangos esiampl i'r Cynulliad ynglyn â'r modd i weithio. Yr wyf yn sicr y bydd yn edrych yn annibynnol ac agored ar y wybodaeth a dderbyniwyd gan Dr Ruth Hall ac o ffynhonnellau eraill.

Mick Bates: I have comments on both issues. On examination, the package from Nick Brown is hugely disappointing. Most of the charges that he suggested will be given back to the industry, have already been paid. The specific risk material charge is one example. The important fact for the Assembly to note is that the bureaucracy imposed and the charges levied through the Meat Hygiene Service are crippling the industry. On closer examination, Nick Brown's package will prove to be hugely disappointing to the farming industry and the Agriculture and Rural Development Committee would be well advised to implement the calf processing aid scheme as quickly as possible, as stated last week. They should also take action to implement a disposal scheme for the old hill ewes. The arguments that previously existed for that scheme have not changed. The same is true of the situation in Scotland, and they are moving forward with their scheme. The only additional information worth considering is that it may be worthwhile to implement a scheme involving only hill ewes.

A similar situation has arisen with the ban on beef on the bone, where the devolution process is being flouted by Westminster. We had our interim report on this, examined all the detailed evidence and found ourselves presented with out-of-date information at the last Committee meeting. That is unacceptable. I asked in that Committee for an urgent recall as soon as new information was available. There is information from the Spongiform Encephalopathy Advisory Committee on many websites. I do not know why it was not presented to us. I call on the First Secretary to ensure that the Secretary for Agriculture and Rural Development implements the schemes and looks at the package in the real world where farmers are

I welcome the fact that the Agriculture and Rural Development Committee intends to reconsider the matter. The Committee has shown the Assembly an exemplary way in which to work. I am sure that it will look independently and openly at the information received from Dr Ruth Hall and from other sources.

Mick Bates: Mae gennyf sylwadau ar y ddau fater. Wedi edrych arno, mae'r pecyn oddi wrth Nick Brown yn hynod siomedig. Mae'r rhan fwyaf o'r taliadau y mae'n awgrymu y byddir yn eu rhoi'n ôl i'r diwydiant, wedi eu talu eisoes. Mae'r tâl am ddeunydd risg penodol yn un enghraifft. Y ffaith bwysig i'w nodi gan y Cynulliad yw bod y fiwrocratiaeth a orfodir a'r taliadau a godir drwy'r Gwasanaeth Glanweithdra Cig yn andwyo'r diwydiant. O edrych arno'n fanylach, fe fydd pecyn Nick Brown yn siom enfawr i'r diwydiant amaethyddol a byddai'n ddoeth i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig weithredu'r cynllun cymorth prosesu lloi cyn gynted ag y bo modd, fel y dywedwyd yr wythnos diwethaf. Dylent gymryd camau hefyd i weithredu cynllun difa hen famogiaid mynydd. Yr un yw'r dadleuon dros y cynllun hwnnw â chynt. Mae'r un peth yn wir am y sefyllfa yn yr Alban, ac maent yn symud ymlaen gyda'u cynllun hwy. Yr unig wybodaeth ychwanegol y mae'n werth ei hystyried yw y gallai fod yn fuddiol gweithredu cynllun yn cynnwys mamogiaid mynydd yn unig.

Mae sefyllfa debyg wedi codi yn achos y gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn, lle y mae'r broses datganoli yn cael ei diystyru gan San Steffan. Cawsom ein hadroddiad dros dro ar hynny, bu inni archwilio'r cwbl o'r dystiolaeth fanwl a chael ein bod wedi derbyn gwybodaeth ddyddiedig yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Mae hynny'n annerbyniol. Fe ofynnais yn y Pwyllgor hwnnw am inni gael ein galw'n ôl cyn gynted ag y byddai gwybodaeth newydd ar gael. Ceir gwybodaeth gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Enseffalopathi Sbwngffurf ar lawer o wefannau. Ni wn pam na chafodd ei chyflwyno i ni. Galwaf ar y Prif Ysgrifennydd i sicrhau y bydd yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu

still going out of business. There will be some relief but the sense of urgency must not be lost.

Gwledig yn gweithredu'r cynlluniau ac yn edrych ar y pecyn yn y byd go iawn lle y mae ffermwyr yn dal i fynd yn fethdalwyr. Bydd rhywfaint o ryddhad ond ni ddylid colli'r ymdeimlad o frys.

The First Secretary: There are a number of threats tangled together in that question. I wish to refute one thing. You may have been referring to Dr Ruth Hall's report, which was presented to the Agriculture and Rural Development Committee this week. It is not out of date information. It is her assessment of the situation on the basis of all the available evidence, which has not changed. The views of the Chief Medical Officer to the Department of Health have been oversimplified and it makes a better story to indicate a chasm between the emphasis and views of different professionals. This is not helpful either to farmers or to the public interest. We have not received the conclusions of the Oxford group. As soon as they are available, I want our Chief Medical Officer to look at them quickly and give us the benefit of her advice. I hope that will result in combined advice which will be endorsed by all four Chief Medical Officers. The only way this can be brought about is if the advice is right and the evidence is clear.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae nifer o fygythion ynghlwm â'i gilydd yn y cwestiwn hwnnw. Dymunaf wrthbrofi un peth. Mae'n bosibl eich bod wedi cyfeirio at adroddiad Dr Ruth Hall, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yr wythnos hon. Nid yw'n wybodaeth sydd wedi dyddio. Ei hasesiad hi o'r sefyllfa ydyw ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, nad yw wedi newid. Mae barn Prif Swyddog Meddygol yr Adran Iechyd wedi ei gorsymleiddio ac mae'n gwneud gwell stori i ddweud bod agendor rhwng pwyslais a safbwyntiau gwahanol weithwyr proffesiynol. Nid yw hyn o gymorth i'r ffermwyr nac o fudd i'r cyhoedd. Nid ydym wedi derbyn casgliadau grwp Rhydychen. Cyn gynted ag y byddant ar gael, yr wyf am i'n Prif Swyddog Meddygol edrych arnynt yn gyflym a rhoi inni'r fantais o gael ei chyngor. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at gyngor ar y cyd a gaiff ei gadarnhau gan bob un o'r Prif Swyddogion Meddygol. Yr unig fodd i gyflawni hyn yw os ydyw'r cyngor yn gywir a'r dystiolaeth yn eglur.

9:29 a.m.

I am not entirely surprised that Mick seeks to pour cold water over the good news given to farming in Wales this week. However, he should acknowledge that, for example, the charges for specific risk material inspection costs, which he mentioned, amount to some £2.5 million in Wales. It is therefore a significant degree of assistance. He should also acknowledge that the President of the Farmers Union of Wales, which is not noted for leaping to praise this administration, said on 8 September,

Nid wyf yn synnu'n llwyr fod Mick yn ceisio taflu dwr oer am ben y newyddion da a roddwyd i amaethyddiaeth yng Nghymru yr wythnos hon. Fodd bynnag, fe ddylai gydnabod, er enghraifft, fod y taliadau am gostau archwilio deunydd risg penodol, a grybwyllwyd ganddo, yn gymaint â £2.5 miliwn yng Nghymru. Mae felly'n gymorth sylweddol. Fe ddylai hefyd gydnabod bod Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, nad yw'n enwog am frysio i ganmol yr weinyddiaeth hon, wedi dweud ar 8 Medi,

'the First Minister has shown that he understands the problems we face and has expressed a willingness to take action to help the industry in Wales'.

'mae'r Prif Ysgrifennydd wedi dangos ei fod yn deall y problemau a wynebwn ac wedi mynegi parodrwydd i weithredu i helpu'r diwydiant yng Nghymru'.

We have done that. We have shown our willingness to work with farming interests and rural communities and we will continue to do so.

David Melding: The press has termed this issue the first real test of devolution. My advice to the Labour Party is that it had better not form a synchronised swimming team, because it would be chaos.

On beef on the bone, do you agree with the UK Minister for Agriculture—or should I now call him the Federal Minister for Agriculture—that the ban could be lifted on retail items such as T-bone steaks and beef ribs but not on processed foods? Do you agree that there is a distinction and that it would at least boost farmers' morale if they could get T-bone steaks back on our plates?

The First Secretary: I congratulate the Conservative Party in the Assembly on forming their synchronised sinking team. [GROANS FROM ASSEMBLY MEMBERS.] Well, if we can have jokes in the questions, we can have them in the answers.

Dafydd Wigley: It was not a very good joke.

The First Secretary: The joke in the question was not very good either, Dafydd. If you can improve on it, please try.

Dafydd Wigley: Your joke was better than David's.

The First Secretary: Thank you for that.

I am uneasy about the distinction between cooked meat and meat used in processed foods. I am not sure the public, or those outside the UK, will understand that distinction. When the Agriculture and Rural Development Committee held its evidence taking sessions, it was clear that while farmers wanted to see the beef on the bone ban lifted nearly as quickly as I did, they did

Fe wnaethom hynny. Yr ydym wedi amlygu ein parodrwydd i weithio gyda charfanau'r ffermwyr a'r cymunedau gwledig ac fe barhawn i wneud hynny.

David Melding: Mae'r wasg wedi galw'r mater hwn yn brawf gwirioneddol cyntaf ar ddatganoli. Fy nghyngor i'r Blaid Lafur yw mai gwell fyddai iddi beidio â ffurfio tîm nofio ar y cyd, oherwydd fe fyddai'n anhrefn llwyr.

Ynghylch cig eidion ar yr asgwrn, a ydych yn cytuno â Gweinidog Amaeth y DU—neu a ddylwn ei alw bellach yn Weinidog Amaeth Ffederal—y gellid codi'r gwaharddiad ar eitemau adwerthu fel stêcs ar yr asgwrn ac asennau cig eidion ond nid ar fwydydd a broseswyd? A ydych yn cytuno bod gwahaniaeth ac y byddai o leiaf yn codi ysbryd y ffermwyr pe gallent gael stêcs ar yr asgwrn yn ôl ar ein platiau?

Y Prif Ysgrifennydd: Llongyfarchaf y Blaid Geidwadol yn y Cynulliad ar ffurfio eu tîm suddo ar y cyd. [OCHNEIDIAU GAN AELODAU O'R CYNULLIAD.] Wel, os gallwn gael jôcs yn y cwestiynau, gallwn eu cael yn yr atebion hefyd.

Dafydd Wigley: Nid oedd honno'n jôc dda iawn.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid oedd y jôc yn y cwestiwn yn un dda iawn ychwaith, Dafydd. Os gallwch wneud yn well, rhowch gynnig arni, da chi.

Dafydd Wigley: Yr oedd eich jôc chi'n well nag un David.

Y Prif Ysgrifennydd: Diolch ichi am hynny.

Yr wyf yn bryderus ynghylch y gwahaniaeth rhwng cig wedi ei goginio a chig a ddefnyddir mewn bwydydd a broseswyd. Nid wyf yn sicr y bydd y cyhoedd, neu rai y tu allan i'r DU, yn deall y gwahaniaeth hwnnw. Pan gynhaliodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ei sesiynau derbyn tystiolaeth, yr oedd yn amlwg, er bod ffermwyr am weld codi'r gwaharddiad ar gig

not want any action taken which could be interpreted, or misinterpreted, as our not taking health risks seriously. That could endanger confidence in exports. Everyone knows how delicate the export situation is and how important it is to the medium and long-term future of Welsh farming. We need to approach this with great care and responsibility.

eidion ar yr asgwrn bron mor gyflym ag yr oeddwn i, nad oeddent am weld cymryd unrhyw gamau y gellid eu dehongli, neu eu camddehongli, fel methiant ar ein rhan i gymryd peryglon i iechyd o ddifrif. Gallai hynny beryglu hyder mewn allforion. Fe wyr pawb mor sensitif yw'r sefyllfa allforio ac mor bwysig ydyw i ddyfodol amaethyddiaeth Cymru yn y tymor canolig a hir. Rhaid inni drin hyn gyda gofal a chyfrifoldeb mawr.

Datganiad ar Ddyddiad y Mileniwm Statement on the Millennium Date

The Finance Secretary (Edwina Hart): This is my first statement to the National Assembly for Wales on the millennium date change and the work being undertaken in Wales to ensure a smooth transition through the festivities and into the millennium. I will brief and update you regularly during the coming months.

First, I will deal with the so-called millennium bug and the dangers of microchip failure. A considerable amount of work has been undertaken to overcome this. As Assembly Members, you will be aware of the work that has taken place in this building. However, there is no room for complacency. Organisations must ensure that they have comprehensive business continuity plans tested and in place to deal with any problems that may still arise. As you know from the national publicity campaign, particular emphasis is being placed on these plans at present.

Secondly, it is important to manage the pressures of the extended holidays to celebrate the millennium. We must recognise the pressure this will place on public services. We all have a role to play in communicating the importance of citizens' personal responsibility to help minimise the pressure on public services. Many public sector employees will work over the holiday so that others can enjoy it. Again, the emphasis is on ensuring adequate contingency plans are in place.

Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart): Hwn yw'r datganiad cyntaf gennyf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar newid dyddiad y mileniwm a'r gwaith yr ymgymeryd ag ef yng Nghymru i sicrhau trawsnewid esmwyth drwy'r dathliadau ac i'r mileniwm. Byddaf yn eich briffio ac yn eich hysbysu am y datblygiadau diweddaraf yn rheolaidd yn ystod y misoedd a ddaw.

Yn gyntaf, fe drafodaf yr hyn a elwir yn ddiffyg y mileniwm a'r peryglon oddi wrth fethiant microsglodion. Cyflawnwyd cryn waith i oresgyn hyn. Fel Aelodau o'r Cynulliad, byddwch yn ymwybodol o'r gwaith a wnaethpwyd yn yr adeilad hwn. Fodd bynnag, nid oes lle i ddfaterwch. Rhaid i gyrff sicrhau bod ganddynt gynlluniau parhad busnes cynhwysfawr, a brofwyd ac a sefydlwyd, i ymdrin ag unrhyw broblemau a allai godi o hyd. Fel y gwyddoch o'r ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol, mae pwyslais arbennig ar y cynlluniau hyn ar hyn o bryd.

Yn ail, mae'n bwysig rheoli'r pwysau oddi wrth y gwyliau estynedig i ddathlu'r mileniwm. Rhaid inni sylweddoli maint y pwysau y bydd hynny'n ei roi ar wasanaethau cyhoeddus. Mae gennym oll rôl i'w chwarae wrth gyfleu pwysigrwydd cyfrifoldeb personol ar ran dinasyddion i helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd llawer o weithwyr y sector cyhoeddus yn gweithio dros y gwyliau fel y gall eraill eu mwynhau. Unwaith eto, mae'r pwyslais ar sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol yn eu lle.

The Assembly is fully engaged with central Government initiatives to deal with potential millennium problems. One of my main concerns is to ensure that these initiatives are applied across Wales in a co-ordinated way to suit our circumstances. To further this co-ordination under the Assembly's leadership, I have recently taken over the chair of the all-Wales high level group on millennium date change issues, formerly chaired by Welsh Office Ministers. Members include representatives from all key areas in Welsh life including local authorities; the health service; fire, police and ambulance services; utilities; trade unions; media and industry. The group will continue to meet regularly up to the millennium. Under special constitutional arrangements approved by the Prime Minister, the First Secretary represents Wales on the Cabinet's Civil Contingencies Committee chaired by the Home Secretary and I am a member of an ad hoc ministerial group on the millennium date change chaired by the Lord President of the Council, Margaret Beckett. These bodies will meet regularly in the coming months to oversee final plans and preparations.

A public update on the state of preparedness of UK-national infrastructure takes place regularly through a number of channels, in particular, Action 2000's national infrastructure forum, which will report on 21 October. I have arranged that if there are significant issues affecting Wales at that time, they will be reported on separately. It is important for everyone, particularly our friends in the media, to recognise that information is being updated constantly. Reporting and commenting on out-of-date information can cause unnecessary alarm. Action 2000 uses a colour coding system against which bodies are independently assessed and audited. Status blue is the target for all organisations with no risks identified. Amber means that risks remain but contingency plans are in place. Red means a

Mae'r Cynulliad yn chwarae rhan lawn yng nghynlluniau'r Llywodraeth ganolog i ddelio â phroblemau a allai godi oherwydd y mileniwm. Un o'm prif ddyletswyddau yw sicrhau bod y cynlluniau hyn wedi eu gweithredu mewn modd cydlynol ar draws Cymru i weddu i'n hamgylchiadau. Er mwyn hybu'r cydlynad hwn o dan arweinyddiaeth y Cynulliad, deuthum yn ddiweddar yn gadeirydd ar y grwp lefel uchel i Gymru gyfan ar faterion sydd yn ymwneud â newid dyddiad y mileniwm, oedd gynt dan gadeiryddiaeth Gweinidogion y Swyddfa Gymreig. Ymhlith yr aelodau y mae cynrychiolwyr o'r holl feysydd allweddol ym mywyd Cymru gan gynnwys yr awdurdodau lleol; y gwasanaeth iechyd; y gwasanaethau tân, heddlu ac ambiwlans; y cyfleustodau; yr undebau llafur; y cyfryngau a diwydiant. Bydd y grwp yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd hyd at y mileniwm. O dan drefniadau cyfansoddiadol arbennig a gymeradwywyd gan y Prif Weinidog, y Prif Ysgrifennydd sydd yn cynrychioli Cymru ar Bwyllgor Cyfyngau Sifil y Cabinet sydd dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref ac yr wyf yn aelod o grwp gweinidogion *ad hoc* ar newid dyddiad y mileniwm dan gadeiryddiaeth Arglwydd Lywydd y Cyngor, Margaret Beckett. Bydd y cyrff hyn yn cyfarfod yn rheolaidd yn y misoedd a ddaw i oruchwyllo'r cynlluniau a'r paratodau terfynol.

Rhoddir newyddion yn rheolaidd i'r cyhoedd ar barodrydd isadeiledd cenedlaethol y DU drwy nifer o sianeli, yn benodol, fforwm isadeiledd cenedlaethol Action 2000, a fydd yn adrodd ar 21 Hydref. Yr wyf wedi trefnu y bydd adroddiad ar wahân bryd hynny, os bydd yna unrhyw faterion pwysig sydd yn effeithio ar Gymru. Mae'n bwysig i bawb, yn enwedig ein ffrindiau yn y cyfryngau, sylweddoli bod yr wybodaeth yn cael ei diweddarau'n gyson. Fe all adrodd a sylwebu ar hen wybodaeth beri braw diangen. Mae Action 2000 yn defnyddio system cod lliwiau ar gyfer asesu ac archwilio cyrff yn annibynnol. Y statws glas yw'r nod i'r holl gyrff, lle na ddynodir unrhyw risgiau. Mae oren yn golygu bod risgiau yn aros o hyd ond bod cynlluniau wrth gefn yn eu lle. Mae coch yn golygu risg amhariad sylweddol.

significant risk of disruption.

I am pleased to report that in all key areas in Wales the current status is blue or amber, reflecting the detailed planning and co-operation between organisations that has already taken place. All NHS organisations and the 22 local authorities were blue and amber at the last audit in July reflecting progress but that there is still work to be done. Assembly officials are working closely with their opposite numbers across Wales to ensure that attention is focused on maintaining organisations at blue status and improving amber status to blue by October. Organisations are being independently audited now and I will report to the Assembly in more detail when the audit results are available in October.

On our internal systems, the Assembly remains on course to be ready for the millennium in good time. All business critical systems are already millennium-compliant. A business continuity plan detailing our internal plans for our business is being prepared. The IT element of this will be tested later this month in a joint exercise with our supplier, Siemens Business Services. This plan will be supplemented by a specific millennium operating regime for the date change period itself, detailing the increased state of readiness required at that time. That will include an operations room which will act as an information conduit for the Assembly as well as linking Wales into a central monitoring arrangement established for the UK as a whole. The main emergency services will keep our operations room fully briefed in parallel to their main lines of reporting. These arrangements will be tested prior to the millennium and Members will be briefed later in the year on the final arrangements and particularly how they can best assist in the preparations for the event and over the period itself.

I would like to enlist the support of all Members in getting a few key and simple

Mae'n dda gennyf adrodd mai glas neu oren yw'r statws cyfredol yn yr holl feysydd allweddol yng Nghymru, sydd yn adlewyrchu'r cynllunio a'r cydweithredu manwl a gafwyd eisoes rhwng cyrff. Yr oedd holl gyrff yr NHS a'r 22 o awdurdodau lleol yn las neu'n oren yn yr archwiliad diwethaf yng Ngorffennaf sydd yn dangos cynnydd ond bod gwaith ar ôl i'w gyflawni. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r swyddogion sydd yn cyfateb iddynt ar hyd a lled Cymru i sicrhau y rhoddir y sylw pennaf ar gadw cyrff ar y statws glas ac ar wella'r statws oren i las erbyn mis Hydref. Mae cyrff yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar hyn o bryd a rhoddaf adroddiad manylach i'r Cynulliad pan fydd canlyniadau'r archwiliad ar gael ym mis Hydref.

Ynghylch ein systemau mewnol, mae'r Cynulliad yn dal i fod ar y llwybr iawn i fod yn barod mewn da bryd ar gyfer y mileniwm. Mae'r holl systemau busnes hanfodol yn cydymffurfio eisoes â gofynion y mileniwm. Mae cynllun parhad busnes sydd yn nodi cynlluniau mewnol ar gyfer ein busnes yn cael ei baratoi. Rhoddir prawf ar yr elfen TG ynddo yn ddiweddarach y mis hwn mewn ymarfer ar y cyd â'n cyflenwr, Siemens Business Services. Yn ychwanegol at y cynllun hwn bydd cyfundrefn weithredu benodol i'r mileniwm ar gyfer cyfnod y newid dyddiad, sydd yn nodi manylion y cyflwr cynyddol o barodrwydd a fydd yn angenrheidiol bryd hynny. Bydd hynny'n cynnwys ystafell reoli fydd yn gweithredu fel sianel wybodaeth i'r Cynulliad yn ogystal â chysylltu Cymru â'r trefniant monitro canolog a sefydlwyd i'r DU gyfan. Bydd y prif wasanaethau brys yn rhoi briff llawn yn gyson i'n hystafell reoli ochr yn ochr â'u prif linellau adrodd. Rhoddir prawf ar y trefniadau hyn cyn y mileniwm a rhoddir briff i'r Aelodau'n ddiweddarach eleni ar y trefniadau terfynol ac yn enwedig sut y gallant gynorthwyo orau yn y paratodau ar gyfer y digwyddiad a thros y cyfnod ei hun.

Hoffwn sicrhau cefnogaeth yr holl Aelodau wrth drosglwyddo ychydig o negeseuon syml

messages across to the citizens of Wales. It is highly probable that millennium bug scare stories will increase towards the end of the year. We have a duty to act responsibly. The Assembly's Communications Director is co-ordinating a media strategy for Wales with national UK publicity. The public has a right to know what preparations are being made to combat the twin challenges of the millennium bug and public order over the holiday period. I intend to provide briefings for Members to assist in this task. However, we also need the public to help us to help them by acting responsibly. For example, so far, the authorities have been notified of a relatively small number of celebration events. The earlier notification is given, the better plans can be in place to ensure that they run smoothly. All citizens should be encouraged to notify the police of planned events and this will be even more important as the turn of the year approaches.

This statement is the first in a regular series to keep the Assembly fully briefed on millennium preparations in Wales. I am also arranging for officials to give detailed briefings to all Members. Briefing times will be available on the intranet, and Members will have the opportunity to enquire about millennium bug issues in Wales.

9:39 a.m.

Janice Gregory: Thank you for your statement. I hope that the powers that be will not be informed of these events at the last minute, because there is great concern throughout Wales about the organisation of events in celebration of the millennium. Would you expand a little more on the use of public services and what can be done to maintain public order during these events? I am concerned about the arrangements currently in place to ensure that there is no breakdown in public order.

ac allweddol i ddinasyddion Cymru. Mae'n debygol iawn y bydd y storïau brawychus am ddiffyg y mileniwm yn cynyddu tua diwedd y flwyddyn. Mae dyletswydd arnom i weithredu'n gyfrifol. Mae Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r Cynulliad yn cyd-drefnu strategaeth gyfryngau i Gymru gyda chyhoeddusrwydd cenedlaethol y DU. Mae gan y cyhoedd hawl i wybod pa baratodau sydd mewn llaw i wrthweithio'r sialens ddeuol oddi wrth ddiffyg y mileniwm a threfn gyhoeddus dros gyfnod y gwyliau. Bwriadaf ddarparu cyfarwyddyd i'r Aelodau i'w helpu yn y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae arnom hefyd angen i'r cyhoedd ein helpu ni i'w helpu hwy drwy weithredu'n gyfrifol. Er enghraifft, hyd yn hyn, ni chafodd yr awdurdodau eu hysbysu ond am nifer gymharol fach o ddigwyddiadau dathlu. Gorau po gyntaf y rhoddir gwybod er mwyn sefydlu cynlluniau i sicrhau eu bod yn rhedeg yn esmwyth. Dylid annog pob dinesydd i hysbysu'r heddlu am ddigwyddiadau a drefnwyd a bydd hyn yn bwysicach fyth wrth i droad y flwyddyn nesáu.

Y datganiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres reolaidd er mwyn rhoi cyfarwyddyd llawn i'r Cynulliad ar y paratodau ar gyfer y mileniwm yng Nghymru. Yr wyf hefyd yn trefnu i swyddogion roi cyfarwyddyd manwl i'r holl Aelodau. Bydd yr amseroedd cyfarwyddo ar gael ar y fewnwyd, a bydd cyfle i'r Aelodau holi am faterion sydd yn ymwneud â diffyg y mileniwm yng Nghymru.

Janice Gregory: Diolch am eich datganiad. Gobeithio na fydd yr awdurdodau yn cael gwybod am y digwyddiadau hyn ar y funud olaf, oherwydd mae pryder mawr drwy Gymru ynghylch y trefnu ar ddigwyddiadau i dathlu'r mileniwm. A fyddechystal ag ymhelaethu ychydig ar y defnydd ar wasanaethau cyhoeddus a'r hyn y gellir ei wneud i gynnal trefn gyhoeddus yn ystod y digwyddiadau hyn? Yr wyf yn bryderus ynghylch y trefniadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd i sicrhau na fydd chwalfa yn y drefn gyhoeddus.

Edwina Hart: It also concerns me that authorities have been notified of a relatively small number of events. The authorities need to know about these events and not because this is a nanny state. If there is a street party of 500 people, the emergency services should be alerted. We must also know from a policing point of view. We are all aware of what can happen during New Year celebrations.

I urge Members to alert their constituents to the need to advise authorities of the extent of celebrations. Following notification and with the involvement of local authorities, emergency planning officers and emergency services can be made aware of these events. The police have control structures allowing them to monitor events across Wales and deploy resources accordingly. Therefore, when Member briefings take place, I hope you will be able to assist us generally by addressing these issues, as public servants yourselves, through dealing with your electorate.

Brian Hancock: Small and medium-sized enterprises should know that it will cost a minimum of £500 to sustain their businesses during the millennium period, but I know that a great deal of work is being done to promote that. However, I think that the biggest millennium bug is yet to come because £4 million is being put aside to market tickets to the Millennium Dome. In the Environment and Local Government Committee I learnt that we need £4 million for the Best Value programme. We must find that money by robbing Peter to pay Paul.

There is no better way to commemorate the millennium on 1 January than to celebrate Objective 1 funding. The Millennium Dome cost £750 million. That is a horrendous sum, and I cannot believe that it was well spent. It represents 63 per cent of Objective 1 funding over four years. That funding would do a great deal of good in Wales. It would allow

Edwina Hart: Mae hefyd yn peri pryder i mi mai dim ond nifer cymharol fach o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r awdurdodau. Mae angen i'r awdurdodau wybod am y digwyddiadau hyn ac nid am mai gwladwriaeth or-famol yw hon. Os oes parti stryd o 500 o bobl, fe ddylid rhybuddio'r gwasanaethau brys am hynny. Rhaid inni wybod hefyd o safbwynt cadw'r heddwch. Fe wyr pawb ohonom am yr hyn a all ddigwydd yn ystod dathliadau'r Flwyddyn Newydd.

Yr wyf yn annog yr Aelodau i rybuddio eu hetholwyr am yr angen i hysbysu'r awdurdodau am faint y dathliadau. Ar ôl eu hysbysu a chyda chyfraniad yr awdurdodau lleol, gellir rhoi gwybod i'r swyddogion cynllunio argyfwng a'r gwasanaethau brys am y digwyddiadau hyn. Mae strwythurau rheoli gan yr heddlu sydd yn caniatáu iddynt fonitro digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a threfnu adnoddau yn unol â hynny. Felly, pan roddir cyfarwyddyd i'r Aelodau, gobeithio y byddwch yn gallu ein cynorthwyo'n gyffredinol drwy roi sylw i'r materion hyn, fel gweision cyhoeddus eich hunain, drwy ymwneud â'ch etholwyr.

Brian Hancock: Fe ddylai mentrau bach a chanolig eu maint wybod y bydd yn costio o leiaf £500 i gynnal eu busnesau yn ystod cyfnod y mileniwm, ond gwn fod llawer o waith yn digwydd i hyrwyddo hynny. Fodd bynnag, credaf fod y diffyg mileniwm mwyaf heb ddigwydd eto oherwydd mae £4 miliwn yn cael ei neilltuo i farchnata tocynnau i Ddôm y Mileniwm. Yn y Pwyllgor Amgylchedd a Llywodraeth Leol cefais wybod y bydd arnom angen £4 miliwn i'r rhaglen Gwerth Gorau. Rhaid inni ganfod yr arian hwnnw drwy ddwyn oddi wrth yr hen i dalu'r newydd.

Nid oes yr un ffordd well i ddathlu'r mileniwm ar 1 Ionawr na drwy ddathlu arian Amcan 1. Mae Dôm y Mileniwm wedi costio £750 miliwn. Mae hynny'n swm arswydus, ac ni allaf gredu iddo gael ei wario'n ddoeth. Mae'n gymaint â 63 y cant o'r cyllid Amcan 1 dros bedair blynedd. Fe wnâi'r arian hwnnw lawer o les yng Nghymru. Byddai'n

us to look to the millennium more positively than would a dome.

We could improve our schools and hospitals. You mentioned the NHS, which has not yet agreed to pay its staff extra money for working during the millennium period. We heard about Laura Ashley and the effects of closure. A great deal of the funding being pumped into the millennium could be put to better use by promoting the well being of Wales.

Edwina Hart: I am here to respond to the issue of contingency arrangements in respect of the millennium bug. The payment of NHS staff is an ongoing matter of collective bargaining between the health service and the trade unions. I am meeting the Secretary for Health and Social Services today to be updated on developments because it is essential that the emergency services can run during that period.

There is a great deal of work being done to help small to medium-sized enterprises to cope with the millennium bug. Hyder has been running courses to assist them. The Environment Agency has also undertaken work with possible polluters, advising them on how to deal with such matters over the period. However, I will address specifics rather than indulge in discussions on Objective 1, which I am sure will take place this afternoon during questions to myself and Rhodri Morgan.

Kirsty Williams: I accept your answer to Brian's statement regarding the NHS. However, I would be grateful if you could give me more information about what steps you are taking and what progress has been made, if any, to compensate medical staff who are working over the millennium holiday. We must ensure that they are no worse off than their colleagues elsewhere in the UK. Could you also tell me how much money has been allocated to a promotional budget to ensure that information about your work and your group's work is spread throughout Wales, particularly through the medium of Welsh?

caniatáu inni edrych ymlaen i'r mileniwm yn fwy cadarnhaol nag y byddai dôm.

Gallem wella ein hysgolion a'n hysbytai. Bu ichi sôn am yr NHS, nad yw eto wedi cytuno i dalu arian ychwanegol i'w staff am weithio yn ystod cyfnod y mileniwm. Clywsom am Laura Ashley ac am effeithiau'r cau. Gellid cael gwell defnydd o lawer iawn o'r arian sydd yn cael ei bwmpio i'r mileniwm drwy hybu lles Cymru.

Edwina Hart: Yr wyf yma i ymateb i fater y trefniadau wrth gefn mewn perthynas â diffyg y mileniwm. Mae talu staff yr NHS yn fater parhaus o gydfargeinio rhwng y gwasanaeth iechyd a'r undebau llafur. Byddaf yn cyfarfod heddiw â'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf oherwydd mae'n holl bwysig bod y gwasanaethau brys yn gallu rhedeg yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae llawer iawn o waith yn digwydd i helpu mentrau bach a chanolig i ymdopi â diffyg y mileniwm. Bu Hyder yn rhedeg cyrsiau i'w helpu. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wedi ymgymryd â gwaith gyda rhai a allai beri llygredd, gan eu cynghori ynghylch sut i ymdrin â materion o'r fath dros y cyfnod. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon ymdrin â materion penodol yn hytrach nag ymroi i drafodaethau ar Amcan 1 a fydd, yr wyf yn sicr, yn digwydd brynhawn heddiw yn ystod y cwestiynau i mi ac i Rhodri Morgan.

Kirsty Williams: Yr wyf yn derbyn eich ateb i ddatganiad Brian ynghylch yr NHS. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o wybodaeth i mi am y camau yr ydych yn eu cymryd ac am unrhyw gynnydd a wnaethpwyd i ddiogolledu staff meddygol fydd yn gweithio dros wyliau'r mileniwm. Rhaid inni sicrhau na fyddant yn fwy ar eu colled na'u cydweithwyr mewn manau eraill yn y DU. A oes modd ichi ddweud wrthyf hefyd faint o arian a ddyrannwyd i gyllideb hyrwyddo i sicrhau y bydd gwybodaeth am eich gwaith ac am waith eich grwp wedi ei lledaenu drwy Gymru, yn enwedig drwy gyfrwng y

Gymraeg?

Edwina Hart: I will deal first with your last point. I do not have a specific figure regarding our budget for promotional work. However, we have started to look at a detailed media strategy campaign and we might consider issuing leaflets as part of a central Government programme. When those figures become available I will inform you.

Edwina Hart: Fe ymdriniaf yn gyntaf â'ch pwynt olaf. Nid oes gennyf ffigur penodol ynglyn â'n cyllideb am waith hyrwyddo. Fodd bynnag, yr ydym wedi dechrau ystyried ymgyrch strategol fanwl mewn cysylltiad â'r cyfryngau ac fe allem ystyried cyhoeddi taflenni fel rhan o raglen gan y Llywodraeth ganolog. Pan fydd y ffigurau hynny ar gael fe roddaf wybod i chi.

Health is only in my portfolio because I deal with the millennium bug issue. There are implications regarding staffing. I understand that an offer has been made to unions although I am not sure whether it has been accepted. However, that is not strictly within my portfolio. I understand the serious concerns of Members that the issue of public services must be resolved so that people are confident that, if they go into hospital, staff will be available. We are addressing the issue seriously. However, I am not responsible as I am not in charge of the negotiations with the trade unions, but I would like to try one day.

Yr unig reswm pam y mae iechyd yn fy mhorthffolio yw am fy mod yn ymdrin â mater diffyg y mileniwm. Mae yna oblygiadau mewn perthynas â staffio. Deallaf fod cynnig wedi ei roi i'r undebau er nad wyf yn sicr a ydyw wedi ei dderbyn. Fodd bynnag, nid yw hynny yn fy mhorthffolio, a bod yn fanwl gywir. Yr wyf yn deall y pryderon difrifol sydd gan Aelodau ynghylch yr angen i ddatrys mater y gwasanaethau cyhoeddus fel y gall pobl fod yn sicr, os ânt i ysbyty, fod staff ar gael. Yr ydym yn ymdrin â'r mater hwnnw o ddifrif. Fodd bynnag, nid fi sydd yn gyfrifol gan nad ydwyf â gofal dros y trafodaethau gyda'r undebau llafur, ond fe hoffwn geisio bod ryw ddiwrnod.

Alun Pugh: Would you accept that large organisations including government organisations and the NHS are well prepared? I am concerned about SMEs and small businesses. There are substantial risks to those businesses in terms of old programmes and embedded software in microchips. Given that north Wales has a phenomenal number of these micro businesses, what further steps are planned between now and 31 December to bring to their attention the potentially enormous problems of the millennium bug?

Alun Pugh: A fydech yn derbyn bod cyrff mawr, gan gynnwys cyrff y llywodraeth a'r NHS, wedi ymbaratoi'n dda? Yr wyf yn bryderus ynghylch mentrau bach a chanolig a busnesau bach. Mae risgiau sylweddol i'r busnesau hynny o ran hen raglenni a meddalwedd a osodwyd mewn microsglodion. O dderbyn bod nifer rhyfeddol o'r mân fusnesau hyn yng ngogledd Cymru, pa gamau pellach y bwriedir eu cymryd o hyn tan 31 Rhagfyr i dynnu eu sylw at y problemau anferth y gallai diffyg y mileniwm eu hachosi?

Edwina Hart: We shared your concerns early on in discussions with the high level group and we have asked our partners, for example Hyder—because this is a partnership arrangement with industry—to arrange courses for us. We also have an Action 2000 mentoring scheme. You will be interested to know that we have been running bug-buster courses, free health checks, diagnostic reviews and special consultancies,

Edwina Hart: Yr oeddem wedi rhannu'ch pryderon yn gynnar yn y trafodaethau gyda'r grwp lefel uchel ac yr ydym wedi gofyn i'n partneriaid, Hyder er enghraifft—oherwydd trefniant ar ffurf partneriaeth yw hwn gyda diwydiant—drefnu cyrsiau ar ein rhan. Mae gennym gynllun monitro Action 2000 hefyd. Bydd o ddiddordeb i chi wybod ein bod wedi cynnal cyrsiau i ymdrin â'r diffyg, gwiriadau iechyd am ddim, arolygon diagnostig ac

targeting SMEs in that sector. Hyder has arranged further courses in that area and people are effectively having one-to-one training. People who did not take an interest before are taking an interest now.

In north Wales, the local authorities, a consortium and the emergency services have been working on the whole issue of the millennium bug and have done an excellent job. I pay tribute to the way they have planned ahead and have distributed literature to council tax payers.

ymgyngoriaethau arbennig, gan dargedu mentrau bach a chanolig yn y sector hwnnw. Fe drefnodd Hyder gyrsgiau pellach yn yr ardal honno ac mae pobl yn derbyn hyfforddiant un i un i bob pwrpas. Mae rhai nad oeddent yn ymddiddori cynt yn ymddiddori'n awr.

Yng ngogledd Cymru, bu'r awdurdodau lleol, consortiwm a'r gwasanaethau brys yn gweithio ar holl fater diffyg y mileniwm ac fe wnaethant waith ardderchog. Talaf deyrnged i'r modd y maent wedi cynllunio ymlaen ac wedi dosbarthu deunydd darllen i dalwyr treth y cyngor.

Y Cyngor Partneriaeth The Partnership Council

The First Secretary: I propose

Y Prif Ysgrifennydd: Cynigiaf

that the Assembly considers and notes the report laid before it on the responses to the consultation on the establishment of the Partnership Council;

fod y Cynulliad yn ystyried ac yn nodi'r adroddiad a osodwyd ger ei fron ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar sefydlu Cyngor Partneriaeth;

in accordance with paragraph 5(3) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998, approves the Standing Orders of the Partnership Council;

yn unol â pharagraff 5(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog ar y Cyngor Partneriaeth;

in accordance with paragraph 1(1) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998, appoints the following persons to be members of the Partnership Council:

yn unol â pharagraff 1(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r bobl ganlynol i fod yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth:

National Assembly for Wales (11 members): Alun Michael; Peter Law; Tom Middlehurst; Sue Essex; Gwenda Thomas; Dafydd Wigley; Janet Ryder; Janet Davies; Nick Bourne; David Davies; Michael German

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (11 aelod): Alun Michael; Peter Law; Tom Middlehurst; Sue Essex; Gwenda Thomas; Dafydd Wigley; Janet Ryder; Janet Davies; Nick Bourne; David Davies; Michael German

County and County Borough Councils (10 members): Cllr Harry Jones (Newport County Borough Council); Cllr Russell Goodway (Cardiff County Council); Cllr Noel Crowley (Neath Port Talbot County Borough Council); Cllr John Hopkins (Blaenau Gwent County Borough Council); Cllr Mike Hedges (City and County of Swansea); Cllr Jeff Jones (Bridgend County Borough Council); Cllr Lindsay Whittle (Caerphilly County Borough Council); Cllr

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol (10 aelod): Y Cyng. Harry Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd); Y Cyng. Russell Goodway (Cyngor Sir Caerdydd); Y Cyng. Noel Crowley (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot); Y Cyng. John Hopkins (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent); Y Cyng. Mike Hedges (Dinas a Sir Abertawe); Y Cyng. Jeff Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr); Y Cyng. Lindsay Whittle (Cyngor

Alun Ffred Jones (Gwynedd Council); Cllr Rhys Webb (Denbighshire County Council); Cllr David Lloyd Evans (Ceredigion County Council)

Bwrdeistref Sirol Caerffili); Y Cyng. Alun Ffred Jones (Cyngor Gwynedd); Y Cyng. Rhys Webb (Cyngor Sir Ddinbych); Y Cyng. David Lloyd Evans (Cyngor Sir Ceredigion)

Community Councils (2 members): *Cllr Richard John Edwards (Prestatyn Town Council) and a nomination from the Wales Association of Community and Town Councils to be submitted to the Assembly at a later date.*

Cynghorau Cymuned (2 aelod): *Y Cyng. Richard John Edwards (Cyngor Tref Prestatyn) ac enwebiad gan Gymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru a gyflwynir i'r Cynulliad ar ddyddiad diweddarach.*

National Park Authorities (1 member): *Cllr Gordon Cawood (Pembrokeshire Coast National Park Authority)*

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (1 aelod): *Y Cyng. Gordon Cawood (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro)*

Police Authorities (1 member): *Cllr Ray Thomas (South Wales Police Authority)*

Awdurdodau'r Heddlu (1 aelod): *Y Cyng. Ray Thomas (Awdurdod Heddlu De Cymru)*

Fire Authorities (1 member): *Cllr Derek Rees (South Wales Fire Authority)*

Yr Awdurdodau Tân (1 aelod): *Y Cyng. Derek Rees (Awdurdod Tân De Cymru)*

Term of office: *Subject to the provisions of paragraph 4 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998, the persons appointed as members of the Partnership Council shall remain members until the end of the day before the next ordinary elections to the National Assembly for Wales.*

Cyfnod y swydd: *Yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 4 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, bydd y bobl a benodir yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth yn parhau'n aelodau tan ddiwedd y diwrnod cyn etholiadau cyffredin nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

This is an important debate, because it sets the standard for how we do things in the future. People have sometimes been slow to understand how much we are doing as an Assembly. I have made the comment and it is appropriate to repeat it when referring to local government. When local government is reorganised and a new local authority set up, some 11 months of period in shadow is provided. I recall as a member of Cardiff City Council in 1973 that when a new authority came into being we needed every minute in that 11 months to prepare for the responsibilities we were taking on in April 1974.

Mae hon yn ddadl bwysig, oherwydd mae'n gosod y safon i'r modd y byddwn yn gwneud pethau yn y dyfodol. Bu pobl yn hwyrfrydig weithiau i ddeall cymaint yr ydym yn ei wneud fel Cynulliad. Yr wyf wedi gwneud y sylw hwn ac mae'n briodol ei ailadrodd wrth gyfeirio at lywodraeth leol. Pan aildrefnir llywodraeth leol a phan fod awdurdod lleol newydd yn cael ei sefydlu, rhoddir tua 11 mis o gyfnod cysgodol. Yr wyf yn cofio fel aelod o Gyngor Dinas Caerdydd yn 1973 fod arnom angen pob munud o'r 11 mis hynny, pryd y daeth yr awdurdod newydd i fod, i baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau y byddem yn ymgymryd â hwy yn Ebrill 1974.

We have not had that luxury as an Assembly. The Assembly elections took place for the first time. All of us are new in this Chamber. It does not matter whether we have had local government experience or experience at Westminster, we are all new boys and girls and we are doing things in different ways.

Ni chawsom y moethusrwydd hwnnw fel Cynulliad. Fe gynhaliwyd etholiadau'r Cynulliad am y tro cyntaf. Yr ydym oll yn newydd i'r Siambr hon. Nid yw o bwys a gawsom brofiad mewn llywodraeth leol neu yn San Steffan, yr ydym i gyd yn newydd i'r gwaith ac yn gwneud pethau mewn ffyrdd

Only a few weeks after that election we have already set in place a series of principles and debated issues such as sustainable development.

9:49 a.m.

During the three weeks when we have full day Plenaries on Thursday we are coming to what I like to describe as the three golden threads of the fibre of the Assembly's being. They are the partnerships with the rest of Wales: with business, with the voluntary sector and with local government. In each of those sectors we do more together than we do alone. If you add together the combined energy of all those sectors and all the regions of Wales then we shall certainly be able, in words which people may have heard quoted elsewhere 'to do together far more than we do alone'. In addition we are putting into practice Labour's clause four commitment to make partnership and co-operation the key strand of governance. As an Assembly it is important that we are taking those words seriously and putting them at the heart of everything which we do. I am pleased that we are putting our principles into practice, particularly in the partnership with local government.

It is significant today that we have the opportunity to spend the whole day debating local government issues. Local government is essential in terms of the services that are provided to people throughout Wales. These issues are among the most important and challenging which face us. Welsh local government is responsible for an annual expenditure of £3.5 billion. That is 40 per cent of the Assembly's total budget. The services it delivers are crucial to our economic, social and environmental well being.

Wales needs a local government system which is efficient, effective and responsive to the needs of the communities it serves. It must be a priority for the Assembly to ensure that the statutory, financial and policy

gwahanol. Er nad oes ond ychydig wythnosau ers yr etholiadau hynny yr ydym eisoes wedi sefydlu cyfres o egwyddorion ac wedi trafod materion fel datblygu cynaliadwy.

Yn ystod y tair wythnos pryd y cawn Sesiynau Llawn drwy'r dydd ar ddydd Iau yr ydym yn dod at yr hyn y carwn ei ddisgrifio'n dair edau aur yng ngwead bodolaeth y Cynulliad. Y rhain yw'r partneriaethau â gweddill Cymru: gyda busnes, gyda'r sector gwirfoddol a chyda llywodraeth leol. Ym mhob un o'r sectorau hynny fe gyflawnwn fwy gyda'n gilydd nag y gwnawn ar ein pennau ein hunain. Os adiwch egni cyfunol yr holl sectorau hynny a holl ranbarthau Cymru at ei gilydd yna byddwn yn sicr o allu, mewn geiriau y bydd pobl hwyrach wedi clywed eu dyfynnu yn rhywle arall, 'gwneud llawer mwy gyda'n gilydd nag y gwnawn ar wahân'. Yn ogystal â hynny yr ydym yn rhoi ar waith yr ymrwymiad yng nghymal pedwar Llafur i wneud partneriaeth a chydweithrediad yn edefyn allweddol mewn llywodraeth. Fel Cynulliad mae'n bwysig inni gymryd y geiriau hynny o ddifrif a'u gosod yn ganolog ym mhopeth a wnawn. Mae'n dda gennyf ein bod yn rhoi ein hegwyddorion ar waith, yn enwedig yn y bartneriaeth â llywodraeth leol.

Mae'n arwyddocaol heddiw fod gennym gyfle i dreulio diwrnod cyfan yn trafod materion llywodraeth leol. Mae llywodraeth leol yn hanfodol o ran y gwasanaethau a ddarperir i bobl ar hyd a lled Cymru. Mae'r materion hyn ymysg y rhai pwysicaf a mwyaf heriol sydd yn ein hwynebu. Mae llywodraeth leol Cymru yn gyfrifol am wariant blynyddol o £3.5 biliwn. Mae hynny'n 40 y cant o gyfanswm cyllideb y Cynulliad. Mae'r gwasanaethau a ddarperir ganddi yn hanfodol i'n lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae ar Gymru angen system llywodraeth leol sydd yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rhaid iddi fod yn flaenoriaeth i'r Cynulliad sicrhau bod y

framework within which local government operates allows and encourages it to develop in the right way.

Constructive partnership with local government is essential if the Assembly is to achieve its objectives. However, we have not always seen that. In my period in local government, particularly during the 1980s, there seemed to be an almost deliberate antagonism between two levels of government. Two levels of government can achieve a great deal together but can stop a lot happening if they spend time in opposition. Therefore, constructive partnership must be the key note.

I am pleased with the response of local government in Wales, both that of colleagues with whom I have worked over the years and people in Welsh local government in general. I have spent some time visiting local authorities to have constructive discussions with leaders and leadership groups. I had the opportunity to do that this week in Flintshire and a few weeks ago in Ynys Môn, Caernarfon and Carmarthenshire. In all of them I found an engagement and a wish to improve how local government operates, the services given to local people and a recognition that things have not always been perfect in the past.

Much of the old arrogance has disappeared and has been replaced by a wish to work with the Assembly. Given that there was fear at one stage on the part of local government that the Assembly would be trying to encroach on local government territory, this new relationship is very important. Like everybody in this Chamber I recognise that we have plenty of work to do the job of the Assembly properly without encroaching on their activities. The new partnership is engendering a new atmosphere of confidence.

This afternoon we shall be taking the first formal steps in the introduction of the new Best Value regime in Wales when we debate the Commencement Order for the relevant

fframwaith statudol, ariannol a pholisi lle y mae llywodraeth leol yn gweithredu yn rhoi rhyddid ac anogaeth iddi ddatblygu yn y modd cywir.

Mae partneriaeth adeiladol â llywodraeth leol yn hanfodol os yw'r Cynulliad i gyflawni ei amcanion. Fodd bynnag, nid ydym bob amser wedi deall hynny. Yn fy nghyfnod i mewn llywodraeth leol, yn enwedig yn ystod y 1980au, yr oedd yn ymddangos bod gelyniaeth fwriadol rhwng dwy lefel o lywodraeth. Fe all dwy lefel o lywodraeth gyflawni llawer iawn gyda'i gilydd ond fe allant atal llawer rhag digwydd os treuliant amser yn gwrthwynebu ei gilydd. Felly, rhaid i bartneriaeth adeiladol fod yn gyweirnod.

Yr wyf wedi fy mhlesio gan ymateb llywodraeth leol yng Nghymru, gan y cydweithwyr y bûm yn gweithio gyda hwy dros y blynyddoedd a'r lliaws mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Treuliais beth amser yn ymweld ag awdurdodau lleol i gael trafodaethau adeiladol gydag arweinwyr a grwpiau arweinyddiaeth. Cefais gyfle i wneud hynny yr wythnos hon yn sir y Fflint ac ychydig wythnosau'n ôl yn Ynys Môn, Caernarfon a sir Gaerfyrddin. Ym mhob un fe welais fod ymrwymiad a dymuniad i wella dull gweithredu llywodraeth leol, y gwasanaethau a roddir i bobl leol a chydabyddiaeth na fu pethau'n berffaith bob amser yn y gorffennol.

Mae llawer o'r hen drahauster wedi diflannu ac yn ei le daeth dymuniad i weithio gyda'r Cynulliad. O dderbyn bod ofn ar un adeg ar ran llywodraeth leol y byddai'r Cynulliad yn ceisio tresmasu ar ei thir, mae'r berthynas newydd hon yn bwysig iawn. Fel pawb yn y Siambr hon, yr wyf yn sylweddoli bod gennym ddigon i'w wneud er mwyn cyflawni gwaith y Cynulliad yn iawn heb dresmasu ar eu gweithgareddau hwy. Mae'r bartneriaeth newydd hon yn creu awyrgylch hyderus newydd.

Brynhawn heddiw byddwn yn cymryd y camau ffurfiol cyntaf wrth gyflwyno'r gyfundrefn Gwerth Gorau newydd yng Nghymru pan fyddwn yn trafod y

provisions of the Local Government Act 1999. I shall not go into detail now but Best Value has enormous potential to produce marked and continuing improvements in the delivery of local authority services.

I am heartened by the fact that many local authorities in Wales have embraced preparations for Best Value with enthusiasm and are well advanced in their planning. In addition, I welcome the initiative by the Welsh Local Government Association in setting up Syniad, the Welsh improvement and development agency which will encourage the spread of good practice drawn from within Wales and further afield.

Best Value is only one strand of the modernisation programme for local government. The others include change to political management structures, a new ethical framework and new powers for local government to promote the well being of their communities. Further primary legislation is needed and is likely in the next session of Parliament. I am pleased to note that Welsh councils have started adopting these changes without legislation. They are doing so because they want to rather than because they are required to, although the requirements are important to ensure that we lift the minimum standards expected from all local authorities. I expect the legislation to contain significant powers to enable the Assembly to shape events in Wales, as is the case with Best Value.

Today, we intend to establish one of the main pillars of partnership with local government, the Partnership Council. The motion before us formally sets up the Partnership Council. The motion invites the Assembly to do three things. First, to consider and note the report on responses to the consultation on the role, structure and membership of the Partnership Council. There was a great deal of consultation before the Assembly elections and since May there has been formal requirements for the Assembly to consult. The framework of the foundations for this

Gorchymyn Dechrau ar ddarpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Leol 1999. Nid af i fanylu yn awr ond mae potensial anferth mewn Gwerth Gorau i gynhyrchu gwelliannau pendant a pharhaus yn y modd y cyflenwir gwasanaethau gan awdurdodau lleol.

Yr wyf wedi fy nghalonogi gan y ffaith bod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi derbyn y paratodau ar gyfer Gwerth Gorau yn frwd a bod eu cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda. Yn ogystal â hynny, croesawaf fenter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth sefydlu Syniad, asiantaeth gwella a datblygu i Gymru a fydd yn hybu lledaeniad arfer da a geir yng Nghymru a'r tu hwnt.

Nid yw Gwerth Gorau ond yn un edefyn yn y rhaglen foderneiddio i lywodraeth leol. Rhai o'r lleill yw newid mewn strwythurau rheoli gwleidyddol, fframwaith moesegol newydd a phwerau newydd i lywodraeth leol hybu lles eu cymunedau. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol bellach ac mae hynny'n debygol yn sesiwn nesaf y Senedd. Yr wyf yn falch o nodi bod cynghorau Cymru wedi dechrau mabwysiadu'r newidiadau hyn heb ddeddfwriaeth. Maent yn gwneud hynny am eu bod yn dymuno gwneud yn hytrach nag am eu bod yn gorfod gwneud, er bod y gofynion yn bwysig er mwyn sicrhau y byddwn yn codi'r safonau isaf a ddisgwylir oddi wrth bob awdurdod lleol. Disgwyliaf y bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys pwerau helaeth i alluogi'r Cynulliad i lywio'r hyn sydd yn digwydd yng Nghymru, fel sydd yn digwydd yn achos Gwerth Gorau.

Heddiw, bwriadwn sefydlu un o'r prif golofnau yn y bartneriaeth â llywodraeth leol, sef y Cyngor Partneriaeth. Mae'r cynnig sydd ger ein bron yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth yn ffurfiol. Mae'r cynnig yn gwahodd y Cynulliad i wneud tri pheth. Yn gyntaf, ystyried a nodi'r adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar rôl, strwythur ac aelodaeth y Cyngor Partneriaeth. Bu llawer iawn o ymgynghori cyn etholiadau'r Cynulliad ac ers mis Mai mae gofynion ffurfiol ar y Cynulliad i ymgynghori. Mae fframwaith y sylfeini i'r Bartneriaeth hon

Partnership has been tested, therefore.

Secondly, the Assembly is invited to approve the Standing Orders for the Partnership Council and thirdly, to appoint the members of the Council. The report and the Standing Orders are separate documents accompanying the motion, and the list of nominations for membership forms part of the motion.

We discussed the principles of partnership between the Assembly and local government in the Plenary session on 8 June, when we considered the paper 'The Partnership Council: Preparing the Ground'. That paper presented proposals on the role, structure and membership of the Council and included draft Standing Orders. Subject to some minor changes it was agreed that the Assembly should consult local government and others on the principles outlined in the paper and the draft Standing Orders.

The consultation ended on 15 August and generated 46 responses. A paper summarising the responses accompanies the motion we are considering. I do not propose to go through it in detail because it is available to Members. The summary paper, which is not very long, speaks for itself. The Standing Orders for approval differ slightly from those seen in draft on 8 June. Four changes have been made. The first and most important change from the Assembly's standpoint reflects points made in that debate. Standing Order No. 1 has been amended to insert the words 'at least', rectifying an error Members identified in the debate on 8 June. The last part now reads:

'together with at least one representative from each political group in the Assembly which is not represented in the Assembly Cabinet'.

Unintentionally, it appeared we were limiting representation to one per group outside the Cabinet. That was not the intention so the wording has therefore been corrected. In a related change we also propose that the

wedi ei brofi, felly.

Yn ail, fe wahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog ar y Cyngor Partneriaeth ac, yn drydydd, i benodi aelodau'r Cyngor. Mae'r adroddiad a'r Rheolau Sefydlog yn ddogfennau ar wahân gyda'r cynnig, ac mae'r rhestr o'r enwebiadau ar gyfer aelodaeth yn rhan o'r cynnig.

Bu inni drafod egwyddorion y bartneriaeth rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mehefin, pryd y rhoesom ystyriaeth i'r ddogfen 'Y Cyngor Partneriaeth: Braenaru'r Tir'. Yr oedd y ddogfen honno'n cyflwyno cynigion ar rôl, strwythur ac aelodaeth y Cyngor ac yn cynnwys Rheolau Sefydlog drafft. Yn amodol ar rai mân newidiadau fe gytunwyd y dylai'r Cynulliad ymgynghori â llywodraeth leol ac eraill ar yr egwyddorion a amlinellwyd yn y ddogfen a'r Rheolau Sefydlog drafft.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Awst a daeth â 46 o ymatebion. Ceir dogfen sydd yn crynhoi'r ymatebion gyda'r cynnig yr ydym yn ei ystyried. Ni fwriadaf fynd drwyddi'n fanwl oherwydd mae ar gael i'r Aelodau. Mae'r ddogfen grynoded, nad yw'n hir iawn, yn ei hegluro ei hun. Mae'r Rheolau Sefydlog sydd i'w cymeradwyo ryw ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd ar ffurf ddrafft ar 8 Mehefin. Fe wnaethpwyd pedwar newid. Mae'r newid cyntaf, a'r pwysicaf o safbwynt y Cynulliad, yn adlewyrchu'r pwyntiau a wnaethpwyd yn y ddafl honno. Newidiwyd Rheol Sefydlog Rhif 1 er mwyn mewnosod y geiriau 'o leiaf', gan gywiro gwall a nodwyd gan Aelodau yn y ddafl ar 8 Mehefin. Bellach mae'r rhan olaf yn darllen:

'ynghyd ag o leiaf un cynrychiolydd o bob grwp gwleidyddol yn y Cynulliad nas cynrychiolir yng Nghabinet y Cynulliad'.

Yn anfwriadol, fe ymddangosai ein bod yn cyfyngu'r gynrychiolaeth i un o bob grwp y tu allan i'r Cabinet. Nid hynny oedd y bwriad felly fe gywirwyd y geiriad. Mewn newid sydd yn gysylltiedg â hynny yr ydym hefyd

Assembly membership of the Council should be increased from 10 to 11 to allow appropriate proportionality in party representation.

Second, Standing Order No. 13 has been changed to eliminate the possibility of duplication between the work of the Partnership Council's task and finish groups, and policy work undertaken by other parts of the Assembly, in particular the Subject Committees. The pressure of Committee work means that we need to avoid duplication. It now requires that any proposal for a task and finish group should specify how it fits in with policy consideration being undertaken elsewhere and what steps have been taken to consult relevant Subject Committees about the proposals. This is a step forward in planning for joined up government.

Third, Standing Order No. 17 has been amended to enable the use of substitutes should designated members of the Council be unable to attend specific meetings. It is a positive move and means that particular groups of interest will be represented if others cannot attend. The same is true for the party political composition and it fits with what we have agreed to do in our own Committees.

Finally, we have amended Standing Order No. 18 to take on board the re-christening of the finance working group as the consultative forum on finance to better reflect its functions. I am sure everyone is delighted to see that exciting amendment. However, it is serious in terms of the way local government wanted us to look at finance in the Partnership Council. I invite the Assembly to note the report of the responses of the consultation exercise and to approve the Standing Orders as presented.

9:59 a.m.

The third part of this motion invites the Assembly to appoint the members of the Partnership Council. There will be 26 members; 11 from the Assembly, 10 from

yn cynnig y dylid cynyddu aelodaeth y Cynulliad ar y Cyngor o 10 i 11 er mwyn caniatáu cyfranoldeb priodol yng nghynrychiolaeth y pleidiau.

Yn ail, fe newidiwyd Rheol Sefydlog Rhif 13 i ddileu'r posibilid o ddyblygu gwaith rhwng gwaith gweithgorau gorchwyl a gorffen y Cyngor Partneriaeth, a gwaith polisi yr ymgymerir ag ef gan rannau eraill o'r Cynulliad, yn enwedig y Pwyllgorau Pwnc. Mae pwysau gwaith y Pwyllgorau yn golygu bod rhaid inni osgoi dyblygu. Mae bellach yn mynnu y bydd unrhyw gynnis am weithgor gorchwyl a gorffen yn nodi sut y bydd yn cydweddu â'r ystyriaeth i bolisi a gyflawnir mewn manau eraill a'r camau a gymerwyd i ymgynghori â'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol ynghylch y cynigion. Mae hyn yn gam ymlaen wrth gynllunio ar gyfer llywodraeth gydgyssylltiol.

Yn drydydd, fe newidiwyd Rheol Sefydlog Rhif 17 fel bod modd defnyddio eilyddion os na fydd aelodau dynodedig y Cyngor yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd penodol. Mae'n gam cadarnhaol ac yn golygu y bydd cynrychiolaeth i grwpiau diddordeb arbennig os nad oes modd i eraill fod yn bresennol. Mae'r un peth yn wir am y cyfansoddiad o bleidiau gwleidyddol ac yn gyson â'r hyn yr ydym wedi cytuno i'w wneud yn ein Pwyllgorau ein hunain.

Yn olaf, yr ydym wedi newid Rheol Sefydlog Rhif 18 i dderbyn ailfeddyddio'r gweithgor cyllid yn fforwm ymgynghorol ar gyllid er mwyn dangos ei swyddogaethau'n well. Yr wyf yn sicr bod pawb wrth ei fodd o weld y newid cyffrous hwnnw. Fodd bynnag, mae'n un sydd o ddifrif o ran y ffordd yr oedd llywodraeth leol am inni ystyried cyllid yn y Cyngor Partneriaeth. Gwahoddaf y Cynulliad i nodi'r adroddiad ar yr ymatebion yn yr ymgynghoriad ac i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog fel y'u cyflwynir.

Mae trydedd ran y cynnis hwn yn gwahodd y Cynulliad i benodi aelodau'r Cyngor Partneriaeth. Bydd 26 o aelodau; 11 o'r Cynulliad, 10 o'r cynghorau sir a'r

county and county borough councils, one to represent the National Parks, one from police authorities, one from fire authorities and two from the community and town councils. The last is important as, because of the number of people involved in those councils, it doubles the number originally suggested.

Each constituent group has been responsible for devising procedures for choosing its nominations. We are therefore not making but endorsing appointments from the groups represented. The 10 nominations from the county and county boroughs were made by the WLGA. We have before us only one of the two expected community and town council nominations from the National Association of Local Councils. The Wales Association of Community and Town Councils will provide the other nomination, when it has completed its selection procedure. We should not hold up the appointments to wait for that nomination. We shall bring the second community council nomination back for endorsement by the Assembly as soon as it has been submitted. In the meantime I invite the Assembly to invite as members of the Partnership Council the 25 people listed on the motion paper.

It is important that we choose representation from outside the Assembly that suits the partner organisation. A different number and combination will be proposed when we come to the representation of business. We will have our 11 proportionate members but business will be represented by a suitable number of people to cover the spread of business. The voluntary sector has carefully examined the different interests in its sector and has come to a different number. We have a number here that reflects the nature of local government and local government related bodies in Wales. This works because it is not a body to debate, argue and then take a vote. It is a body to seek consensus, record agreement and, where appropriate, record disagreement. The attempt to build consensus is an important part of developing the right ethos for the work the Assembly undertakes with its partners.

cynghorau bwrdeistref sirol, un i gynrychioli'r Parciau Cenedlaethol, un o awdurdodau'r heddlu, un o'r awdurdodau tân a dau o'r cynghorau tref a chymuned. Mae'r olaf yn bwysig oherwydd, yng ngolwg y nifer fawr sydd yn gysylltiedig â'r cynghorau hynny, mae'n dyblu'r nifer a awgrymwyd yn wreiddiol.

Bu pob grwp cyfansoddol yn gyfrifol am ddyfeisio gweithdrefnau i ddewis y rhai a enwebir. Yr ydym felly'n cadarnhau yn hytrach na gwneud penodiadau o'r grwpiau a gynrychiolir. Fe wnaethpwyd y 10 enwebiad o'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nid oes gennym ger ein bron ond un o'r ddau enwebiad a ddisgwyllir oddi wrth y cynghorau tref a chymuned sef un a wnaethpwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru fydd yn rhoi'r enwebiad arall, wedi iddi gwblhau ei gweithdrefn dewis. Ni ddylem atal y penodiadau er mwyn disgwyl yr enwebiad hwnnw. Dychwelwn â'r ail enwebiad oddi wrth y cynghorau cymuned i'w gadarnhau gan y Cynulliad cyn gynted ag y caiff ei gyflwyno. Yn y cyfamser gwahoddaf y Cynulliad i wahodd yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth y 25 o bobl a restrir ar bapur y cynnig.

Mae'n bwysig inni ddewis cynrychiolaeth o'r tu allan i'r Cynulliad sydd yn gweddu i'r partner gorff. Cynigir nifer a chyfuniad gwahanol pan ddeuwn at gynrychiolaeth busnes. Bydd gennym ni ein 11 aelod cyfrannol ond fe gynrychiolir busnes gan nifer addas o bobl i gynnwys amrediad busnes. Mae'r sector gwirfoddol wedi edrych yn ofalus ar y gwahanol ddiddordebau yn ei sector ac wedi cyrraedd nifer wahanol. Mae gennym nifer yma sydd yn adlewyrchu natur llywodraeth leol a chyrrff sydd yn gysylltiedig â llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn gweithio oherwydd nid yw'n gorff sydd i drafod, dadlau ac yna pleidleisio. Mae'n gorff sydd i geisio consensws, cofnodi cytundeb a, lle y mae hynny'n briodol, cofnodi anghytundeb. Mae'r ymgais i adeiladu consensws yn rhan bwysig o ddatblygu'r ethos cywir i'r gwaith a gyflawnir gan y Cynulliad gyda'i bartneriaid.

I now look forward to the first meeting of the Partnership Council on 11 October. A preliminary meeting of the Council in shadow form took place on 22 July to consider organisational and time tabling matters. It was a successful meeting which augurs well for the future. The Partnership Council is one of the most important mechanisms available to us to create greater understanding between the Assembly and local government. It will identify and develop new and more effective ways of working for the good of Wales and I am confident of its future role in taking Wales into the new millennium.

If partnership is to be successful it must be based on trust and understanding of others' problems and ways of working. Problems and aspirations vary and we must be flexible in enabling councils to respond to local needs and problems. Local authorities themselves need to be flexible in delivering their policies and services. The statutory regulatory framework set for authorities therefore encourages rather than restrains flexibility. I am announcing two proposals today for change in that statutory framework designed to increase local authorities' ability to meet the needs of their communities. I also want to discuss an issue where local authorities already have the scope to pursue a different approach which could be of major benefit to their communities.

First, I propose we should raise the amount of money that councils can spend under Section 137 of the Local Government Act 1972. This power enables councils to incur expenditure for the benefit of their areas for which they have no other statutory authority. The review of Section 137 is long overdue. They were last increased in 1989 for community councils and in 1993 for principal councils. The current limit is set at £3.80 per head of population. I propose to consult local government immediately on proposals to increase the limit to £5 per head for both principal and community councils. That represents an increase of £1.20 per head for unitary councils and £1.50 per head for

Edrychaf ymlaen yn awr at gyfarfod cyntaf y Cyngor Partneriaeth ar 11 Hydref. Cafwyd cyfarfod rhagarweiniol o'r Cyngor ar ffurf gysgodol ar 22 Gorffennaf er mwyn ystyried materion trefniadol a rhai'n ymwneud ag amserlennu. Yr oedd yn gyfarfod llwyddiannus sydd yn argoeli'n dda i'r dyfodol. Y Cyngor Partneriaeth yw un o'r mecanweithiau pwysicaf sydd ar gael i ni er mwyn creu dealltwriaeth ehangach rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol. Bydd yn dynodi ac yn datblygu dulliau gwaith newydd a mwy effeithiol er budd Cymru ac yr wyf yn ffyddiog o'i rôl yn y dyfodol wrth fynd â Chymru i'r mileniwm newydd.

Os yw partneriaeth i lwyddo rhaid ei seilio ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth o broblemau a dulliau gwaith eraill. Bydd y problemau a'r dyheadau'n amrywio a rhaid inni fod yn hyblyg wrth alluogi cynghorau i ymateb i anghenion a phroblemau lleol. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn hyblyg hefyd wrth gyflenwi eu polisïau a'u gwasanaethau. Felly mae'r fframwaith rheoleiddiol statudol a osodwyd i'r awdurdodau yn annog hyblygrwydd yn hytrach na chyfyngu arno. Yr wyf yn cyhoeddi dau gynnig heddiw ar gyfer newid yn y fframwaith statudol hwnnw gyda'r bwriad o gynyddu gallu awdurdodau lleol i ateb anghenion eu cymunedau. Yr wyf hefyd yn dymuno trafod mater lle y mae gan awdurdodau lleol gyfle eisoes i ddilyn dull gweithredu gwahanol a allai fod o fudd mawr i'w cymunedau.

Yn gyntaf, yr wyf yn cynnig y dylem gynyddu'r swm o arian y gall cynghorau ei wario o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r pŵer hwn yn galluogi cynghorau i gyflawni gwariant er lles eu hardaloedd heb fod ganddynt unrhyw awdurdod statudol arall i wneud hynny. Mae'r adolygiad o Adran 137 yn hirdisgwylidig. Fe'i cynyddwyd ddiwethaf yn 1989 i gynghorau cymuned ac yn 1993 i'r prif gynghorau. Y terfyn cyfredol yw £3.80 y pen o'r boblogaeth. Bwriadaf ymgynghori ar unwaith â llywodraeth leol ynghylch cynigion i godi'r terfyn i £5 y pen yn achos y prif gynghorau a'r cynghorau cymuned. Mae hynny'n golygu cynnydd o £1.20 y pen i

community councils. That will restore the value of the limit to its 1989 level. Depending on the outcome of the consultation exercise, we would be able to implement the changes in April 2000. Section 137 of the Local Government Act 1972 adds an important element of flexibility. The proposed increase will enable councils to support a range of local initiatives if they wish to do so, particularly those undertaken in partnership with others, which they currently may not be able to afford. This initiative will be welcomed by community councils that do not have many specific powers to provide services to their communities, so being able to use the general power is very important.

My second announcement is to launch a review of the long and complex capital finance regulations stemming from the Local Government and Housing Act 1989. Those regulations relate to the years of the cold war between the Conservative Government and local authorities, when the philosophy behind policy was one of restraining the freedom and flexibility of local authorities. I described it as a cold war but it was a pretty hot war on some occasions, as those of us involved in local government would remember.

Nick Bourne: 'Tangential' and 'political' spring to mind.

The First Secretary: The sedentary Nick Bourne should note that relevant and political points are worth making.

David Davies: I ask the First Secretary to join me in remembering Neil Kinnock who, at one of the Labour Party conferences, drew attention to a Labour council where officials ran around handing out redundancy notices in taxis. Does he agree with me that it is a good thing that these councils were restrained?

The First Secretary: It was a good thing that Militant was totally defeated in the Labour Party and I am grateful to David for

gynghorau unedol a £1.50 y pen i gynghorau cymuned. Bydd hynny'n adfer gwerth y terfyn i'w lefel yn 1989. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, byddem yn gallu gweithredu'r newidiadau yn Ebrill 2000. Mae Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ychwanegu elfen bwysig o hyblygrwydd. Bydd y cynnydd arfaethedig yn galluogi cyngorau i gefnogi amrediad o gynlluniau lleol os dymunant wneud hynny, yn enwedig rhai a gyflawnir mewn partneriaeth ag eraill, nad ydynt efallai'n gallu eu fforddio ar hyn o bryd. Bydd croeso i'r cam hwn ymysg y cyngorau cymuned sydd heb lawer o bwerau penodol i ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau, felly mae'r gallu i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol yn bwysig iawn.

Yr ail gyhoeddiad sydd gennyf yw bwriad i lansio adolygiad o'r rheoliadau hir a chymhleth ar gyllid cyfalaf sydd yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'r rheoliadau hynny'n ymwneud â blynyddoedd y rhyfel oer rhwng y Llywodraeth Geidwadol a'r awdurdodau lleol, pryd yr oedd yr athroniaeth oedd yn gefn i bolisi yn golygu cyfyngu ar ryddid a hyblygrwydd awdurdodau lleol. Fe'i gelwais yn rhyfel oer ond yr oedd yn rhyfel eithaf poeth ar brydiau, fel y cofia'r rhai ohonom oedd yn gysylltiedig â llywodraeth leol.

Nick Bourne: Mae'r geiriau 'amherthnasol' a 'gwleidyddol' yn dod i'r meddwl.

Y Prif Ysgrifennydd: Fe ddylai'r Nick Bourne eisteddog nodi bod pwyntiau perthnasol a gwleidyddol yn werth eu gwneud.

David Davies: Gofynnaf i'r Prif Ysgrifennydd ymuno â mi wrth gofio Neil Kinnock a dynnodd sylw, yn un o gynadleddau'r Blaid Lafur, at gyngor Llafur lle'r oedd swyddogion yn mynd o gwmpas mewn tacsis yn rhannu rhybuddion diswyddo. A yw'n cytuno â mi mai peth da oedd cyfyngu ar y cyngorau hyn?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oedd yn beth da i Militant gael ei drechu'n llwyr yn y Blaid Lafur ac yr wyf yn ddiolchgar i David am

recalling that proud moment in the Labour movement's history. We have been willing to tackle problems wherever they arise in the Labour movement and I hope that the Conservative Party will be successful in tackling some of their problems.

Nick Bourne: We have no problems.

The First Secretary: 'I see no ships' is another historic quote and I suspect that 'We have no problems' will be almost as famous in the annals of Welsh politics.

Returning to the work of local government, the intention of our review is to simplify the regulations as far as possible to give councils greater flexibility to respond to local problems. Work on this review will go on over the next few months and my officials are writing today to all local authorities inviting them to submit their views on possible changes to the capital finance regulations. Those are two things that the Assembly will have to return to and on which we will look for the opinions of local government. Assembly Members and local government will welcome the flexibility.

My third issue relates to council housing and the condition of the stock. Council housing was neglected and starved of investment for many years under the previous administration. During my period as Chairman of Finance of Cardiff City Council, I was aware of that neglect and of the constraints placed upon us. Today, much of our council housing is shabby and rundown. As we approach the twenty-first century we still have council houses with no central heating and where the kitchen has not been modernised in 40 or 50 years. In order to look at the history of construction and refurbishment, you do not have to go to the Museum of Welsh Life at St Fagans; you can see it in many streets throughout Wales. We have too many estates where mistakes in design and construction made in the 1960s have yet to be remedied.

ddwyn i gof y funud odidog honno yn hanes y mudiad Llafur. Yr ydym wedi bod yn barod i fynd i'r afael â phroblemau pryd bynnag maent yn codi yn y mudiad Llafur a gobeithio y bydd y Blaid Geidwadol yn llwyddo wrth fynd i'r afael â rhai o'u problemau hwy.

Nick Bourne: Nid oes gennym broblemau.

Y Prif Ysgrifennydd: Dywediad hanesyddol arall yw 'Ni welaf longau' ac yr wyf yn amau y bydd 'Nid oes gennym broblemau' bron mor enwog yng nghronicleu gwleidyddiaeth Cymru.

Gan ddychwelyd at waith llywodraeth leol, bwriad yr adolygiad yw symleiddio'r rheoliadau i'r graddau mwyaf posibl fel y bydd mwy o hyblygrwydd gan y cynghorau i ymateb i broblemau lleol. Bydd gwaith ar yr adolygiad hwn yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf hyn ac mae fy swyddogion yn ysgrifennu heddiw at yr holl awdurdodau lleol gan eu gwahodd i gyflwyno eu sylwadau ar newidiadau posibl i'r rheoliadau cyllid cyfalaf. Mae'r rheini'n ddau beth y bydd rhaid i'r Cynulliad ddod yn ôl atynt ac y byddwn yn gofyn am farn llywodraeth leol yn eu cylch. Bydd Aelodau'r Cynulliad a llywodraeth leol yn croesawu'r hyblygrwydd hwn.

Mae'r trydydd mater sydd gennyf yn ymwneud â thai cyngor a chyflwr y stoc. Cafodd tai cyngor eu hesgeuluso a'u hamddifadu o fuddsoddiad am flynyddoedd lawer o dan y weinyddiaeth flaenorol. Yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd Cyllid Cyngor Dinas Caerdydd, yr oeddwn yn ymwybodol o'r esgeulustod hwnnw ac o'r cyfyngiadau a roddwyd arnom. Heddiw, mae llawer o'n tai cyngor yn ddi-raen ac yn ddirywiedig. A ninnau'n agosáu at yr unfed ganrif ar hugain mae gennym dai cyngor sydd heb wres canolog o hyd ac na foderneiddiwyd eu ceginau ers 40 neu 50 mlynedd. Os ydych am weld hanes adeiladu ac adnewyddu, nid oes raid ichi fynd i Amgueddfa Werin Sain Ffagan; gallwch ei weld ar lawer o strydoedd ar hyd a lled Cymru. Mae gennym ormod o stadau lle y mae camgymeriadau dylunio ac adeiladu a

wnaethpwyd yn y 1960au heb eu cywiro byth.

However, let us accept that our council housing is a great national asset. Anyone who has seen the slum conditions in which people were living in Splott for instance, and in many other parts of Wales, would have understood why they welcomed moving into a new property to ensure a decent home. The problem is that too much of our council housing has entered into the decline of irreversible decay. If that spiral of decay is to be avoided and contained for the future, it is necessary that we, and our local authority partners respond positively to changing circumstances. We cannot go on like Mr Micawber hoping that something will turn up.

We are spending, and will continue to spend, considerably more per capita on housing in Wales than the amount spent in England. I cannot hold out any prospect that the Assembly will be able to increase the share of its budget for housing. I would have loved to have done this when I set the budget last November. However, health and education priorities in Wales meant that there were no additional resources to do so. Local authorities have intense pressures, not only in health and education but also in social services and transport. Therefore, if additional public spending cannot be expected, except with regard to Objective 1 and specific finances coming into Wales, there must be a way of bringing new money into improving conditions for council tenants.

10:09 a.m.

Yesterday, the Environment and Local Government Committee considered the working party's report. It has been looking at ways to attract private finance investment into our council stock. It is important that the working party includes local government and tenant representatives who, in the past, have looked upon new initiatives with suspicion. Therefore, they must be a part of moving forward with new developments. The working party concluded that

Fodd bynnag, gadewch inni dderbyn bod ein tai cyngor yn ased cenedlaethol mawr. Byddai rhywun a welodd gyflwr dirywiedig y tai lle'r oedd pobl yn byw yn y Sblot, er enghraifft, yn deall pam eu bod yn falch o symud i dy newydd er mwyn cael cartref gweddus. Y broblem yw bod gormod o'n tai cyngor wedi dechrau dirywio i'r graddau na ellir eu hadfer. Er mwyn osgoi'r dadfeiliad cynyddol hwnnw a'i atal yn y dyfodol, rhaid i ni, a'n partneriaid mewn llywodraeth leol, ymateb yn gadarnhaol i'r newid mewn amgylchiadau. Ni allwn fynd ymlaen fel Mr Micawber gan obeithio y daw rhywbeth i'r golwg.

Yr ydym yn gwario, ac fe barhawn i wario, swm y pen ar dai yng Nghymru sydd yn sylweddol fwy na'r swm a werir yn Lloegr. Ni allaf gynnig unrhyw obaith y bydd y Cynulliad yn gallu cynyddu'r gyfran o'i gyllideb ar gyfer tai. Byddwn wedi bod wrth fy modd yn gwneud hynny pan osodais y gyllideb fis Tachwedd diwethaf. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau ar iechyd ac addysg yng Nghymru yn golygu nad oedd adnoddau ychwanegol i wneud hynny. Mae awdurdodau lleol yn profi pwysau enfawr, nid yn unig mewn iechyd ac addysg ond mewn gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth hefyd. Felly, os na ellir disgwyl gwariant cyhoeddus ychwanegol, ac eithrio mewn perthynas ag Amcan 1 a chyllid penodol sydd yn dod i Gymru, rhaid cael ffordd i ddod ag arian newydd at wella amodau i denantiaid tai cyngor.

Ddoe, fe roddwyd ystyriaeth gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol i adroddiad y gweithgor. Bu'n ystyried ffyrdd i ddenu buddsoddiad o gyllid preifat i'n stoc tai cyngor. Mae'n bwysig nodi bod y gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r tenantiaid a edrychodd yn amheus ar fentrau newydd yn y gorffennol. Felly, rhaid iddynt fod yn rhan o'r symud ymlaen gyda datblygiadau newydd. Casgliad y gweithgor oedd

'Large scale voluntary stock transfer into community ownership is the only option currently available which would be capable of delivering additional investment in the local authority housing stock on the scale necessary to fully overcome the identified backlog of repair and modernisation'.

Community ownership is not a totally new idea. For instance, there is an increasing groundswell of support for community ownership in Scotland. As the working party's report shows, the time has come in Wales for this. It is time for us and for Welsh local authorities to reconsider this issue with an open mind. Authorities must ask themselves what course of action offers the best prospect for dealing quickly with the pressing problems of housing stock. What gives the best prospect of improving living conditions for tenants? I would be surprised if they found a better way forward than stock transfer.

The Cabinet accepts all of the working party's recommendations addressed to the Assembly. They will be helpful to local authorities, which look to community ownership to improve their tenants' quality of life. It is important that community ownership is seen as enabling tenants not only to have a better quality of life but also to have a say in and control over their way of life and that of their communities.

The two proposals I have announced today illustrate the constructive changes the Assembly can make and which will make a difference locally. They are a start and more significant issues will come forward in due course. For example, the results of the review of the revenue support grant formula will be crucial to the future of local authorities in Wales. It is not an easy issue to deal with. I have grappled with the formula in police and health services as well as local government and there are no easy, swift solutions. Local authorities accept that, and I know that Assembly Members and local authorities will have a close interest in it. The Assembly is formally committed to helping local

'Trosglwyddo stoc ar raddfa fawr ac yn wirfoddol i berchenogaeth gymunedol yw'r unig ddewis sydd ar gael ar hyn o bryd a allai ddarparu buddsoddiad ychwanegol yn stoc tai'r awdurdodau lleol ar y raddfa y mae ei hangen i ymdrin yn llawn â'r gwaith atgyweirio a moderneiddio sydd wrth gefn.'

Nid yw'r syniad o berchnogaeth gymunedol yn un cwbl newydd. Er enghraifft, mae ymchwydd o gefnogaeth i berchnogaeth gymunedol yn yr Alban. Fel y dengys adroddiad y gweithgor, fe ddaeth ei hawr yng Nghymru. Mae'n bryd i ni ac i awdurdodau lleol Cymru ailystyried y mater hwn â meddwl agored. Rhaid i'r awdurdodau ofyn iddynt eu hunain pa gwrs gweithredu sydd yn cynnig y gobaith mwyaf i ymdrin yn gyflym â phroblemau dybryd y stoc dai. Beth sydd yn cynnig y gobaith mwyaf i wella amodau byw i denantiaid? Fe synnwn pe baent yn canfod gwell ffordd ymlaen na throsglwyddo stoc.

Mae'r Cabinet yn derbyn y cwbl o argymhellion y gweithgor a gyfeiriwyd i'r Cynulliad. Byddant o gymorth i awdurdodau lleol, sydd yn disgwyl y bydd perchnogaeth gymunedol yn gwella ansawdd bywyd eu tenantiaid. Mae'n bwysig bod perchnogaeth gymunedol yn cael ei hystyried yn rhywbeth sydd nid yn unig yn galluogi tenantiaid i gael gwell ansawdd bywyd ond hefyd yn eu galluogi i gael llais a rheolaeth dros eu ffordd o fyw a ffordd o fyw eu cymunedau.

Mae'r ddau gynnig a gyhoeddais heddiw yn enghreifftiau o'r newidiadau adeiladol y gall y Cynulliad eu gwneud a fydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol. Maent yn fan cychwyn ac fe ddaw materion pwysicach ymlaen maes o law. Er enghraifft, bydd canlyniadau'r adolygiad o fformwla'r grant cynnal refeniw yn holl bwysig i ddyfodol awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid yw'n fater hawdd ei drin. Yr wyf wedi mynd i'r afael â'r fformwla yng ngwasanaethau'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd yn ogystal â llywodraeth leol ac nid oes atebion rhwydd a chyflym. Mae'r awdurdodau lleol yn derbyn hynny, ac fe wn y bydd gan Aelodau'r Cynulliad a'r awdurdodau lleol ddiddordeb manwl ynddo.

authorities to deliver these services as effectively as possible. We also look to the authorities to be innovative and flexible and they should be more active in stock transfer.

We have a useful, working mechanism in the Partnership Council for identifying and taking forward more ideas to help bring about the continuous improvement in local authority services, which we all want to see. The Partnership Council demonstrates the added value that this Assembly can bring to governance in Wales.

Janet Davies: Plaid Cymru welcomes the establishment of the Partnership Council and we support the motion. It is a new step in UK Government and on this occasion, Wales is leading the way.

This is our opportunity to improve the relationship between central and local government in Wales and to open up discussions that have, in the past, taken place only behind closed doors at the Welsh Office, thus now allowing the public to listen and scrutinise. We can also expose the way decisions are reached, on financing local government for example. I was pleased to hear what Alun said about reviewing the revenue support grant settlement. I hope that the financing of local government will include annual discussion of settlements and an open and accountable look at the factors whereby individual council settlements are decided. I hope they will also cover housing decisions. I was pleased to hear Alun's words on housing and will return to that later. Housing decisions must be based on the overall needs in Wales, seriously considering the issues of homelessness and overcrowding.

As part of a housing consultative body, I was present at discussions between the Welsh Office and the Council of Welsh Districts held in the early 1990s. I was appalled by the arrogant and cavalier way in which the views

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo'n ffurfiol i helpu awdurdodau lleol i gyflenwi'r gwasanaethau hynny mor effeithiol ag y bo modd. Byddwn hefyd yn disgwyl i'r awdurdodau fod yn arloesol ac yn hyblyg ac fe ddylent fod yn fwy gweithgar wrth drosglwyddo stoc.

Mae'r Cyngor Partneriaeth yn rhoi mecanwaith defnyddiol, ymarferol i ni ar gyfer dynodi a datblygu rhagor o syniadau er mwyn ceisio cyflawni'r gwelliant parhaus yng ngwasanaethau awdurodau lleol y mae pawb ohonom am ei weld. Mae'r Cyngor Partneriaeth yn dangos y gwerth ychwanegol y gall y Cynulliad hwn ei roi i lywodraeth yng Nghymru.

Janet Davies: Mae Plaid Cymru'n croesawu sefydlu'r Cyngor Partneriaeth ac yr ydym yn cefnogi'r cynnig. Mae hyn yn gam newydd yn Llywodraeth y DU a'r tro hwn mae Cymru yn arwain y ffordd.

Dyma'r cyfle inni wella'r berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yng Nghymru ac i agor y drws ar drafodaethau na ddigwyddodd, cyn hyn, ond y tu ôl i ddrwsau cae'ddig yn y Swyddfa Gymreig, fel bod modd bellach i'r cyhoedd wrando ac archwilio. Gallwn hefyd ddatgelu'r modd y cyrhaeddir penderfyniadau, ar ariannu llywodraeth leol, er enghraifft. Yr oedd yn dda gennyf glywed yr hyn a ddywedodd Alun am adolygu setliad y grant cynnal refeniw. Gobeithio y bydd yr ariannu ar lywodraeth leol yn cynnwys trafodaeth flynyddol ar y setliadau a golwg agored ac atebol ar y ffactorau sydd yn pennu sut y penderfynir setliadau unigol y cynghorau. Gobeithio y byddant hefyd yn ymdrin â phenderfyniadau ynghylch tai. Yr oedd yn dda gennyf glywed geiriau Alun ar dai ac fe ddychwelaf at hynny'n ddiweddarach. Rhaid seilio penderfyniadau ar dai ar yr anghenion cyffredinol yng Nghymru, gan roi sylw difrifol i faterion digartrefedd a gorboblogi.

Bûm yn bresennol, fel aelod o gorff ymgynghorol ar dai, mewn trafodaethau rhwng y Swyddfa Gymreig a Chyngor Awdurdodau Dosbarth Cymru a gynhaliwyd ddechrau'r 1990au. Arswydais at y modd

of local government representatives who dealt with problems from day to day were treated, and by the secrecy of the system which allowed this to happen. I was also appalled by the fact that people who were crucially affected by the decisions reached in those discussions had no knowledge of how they were reached. The Partnership Council will give all levels of government in Wales a chance to present their views and to gain an understanding of each other's difficulties, weaknesses and strengths. Through meeting in open session, the public will have the opportunity to understand better how decisions are made.

I issue one word of warning. I hope that when those who are in government in the Assembly and in a majority in the WLGA are of the same party, they will not be tempted to continue to make the real decisions behind closed doors and present the Partnership Council with decisions already made. This should not be about rubber-stamping, and should it turn out to be so, it will be to the great detriment of democracy in Wales.

The First Secretary: Our local government colleagues understand the need to be inclusive within the WLGA, as do we in the Assembly. I reflect comments that have been made specifically to me by leading members. Both bodies will be much more constructive than politics in Wales has been in the past, provided everyone wants to make it work.

Janet Davies: I am very glad to hear it. I also appeal to the community council associations to work together to represent this vital level of grass-roots democracy. If they cannot do so, the only losers will be the town and community councils and the people they represent. I also hope that the Partnership Council will take up the themes of sustainable development and equal opportunities that run through this Assembly.

trahaus a di-hid y trafodwyd barn y cynrychiolwyr llywodraeth leol oedd yn ymdrin â phroblemau o ddydd i ddydd, ac at gyfrinacholdeb y system oedd yn caniatáu i hyn ddigwydd. Arswydais hefyd at y ffaith na wyddai'r bobl y byddai'r penderfyniadau yn y trafodaethau hynny yn effeithio'n dyngedfennol arnynt am y modd y gwnaethpwyd y penderfyniadau hynny. Bydd y Cyngor Partneriaeth yn rhoi cyfle i bob lefel o lywodraeth yng Nghymru gyflwyno ei barn a meithrin dealltwriaeth o anawsterau, gwendidau a chryfderau ei gilydd. Drwy gyfarfod mewn sesiynau agored, bydd cyfle i'r cyhoedd ddeall yn well sut y gwneir penderfyniadau.

Mae'r pwynt olaf sydd gennyf yn un a godais o'r blaen, ond mae'n werth ei ailadrodd: ar hyn o bryd mae'r cyhoedd yn ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol. Maent yn ei chael yn anodd canfod y cyfrifoldebau a'r llinellau terfyn. Yr wyf yn sicr y daw'r gwahaniaethau'n eglurach gydag amser.

Bydd gweld y Bartneriaeth ar waith yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn benderfynol o wneud i'r Bartneriaeth hon weithio. Os llwydda, fe fyddwn ar y blaen ac yn dangos sut y gall consensws gweithredol a thrafodaeth roi gwerth ychwanegol i ni, fel y dywedodd Alun.

Val Feld: Gobeithio y bydd fy nghyfraniad

reinforce Sue's views because I wholeheartedly agree with what she said and, like everyone else, I thoroughly endorse the establishment of this council. We should take our relationship with local government more seriously than any other relationship for two reasons. First, they are important deliverers of the services and programmes that the Assembly will adopt. Secondly, they will be seen by the public as the people who put into practice the aspirations and intentions of the Assembly. Therefore, the relationship that we have with them is critical and it is important that we work to the same agenda.

There are two particular aspects of the current proposals and debates that I wish to raise. The first is the equal opportunities agenda. I know we will be talking about this issue in relation to Best Value this afternoon, but local authorities are particularly important in driving forward our programmes to tackle social exclusion across Wales. The programmes and services that they deliver provide lifelines to people in poverty, those who are excluded and those who are in desperate need.

Overwhelmingly, those people are women, black and ethnic minorities, disabled people, elderly people and children. I accept that we are endorsing recommendations made to us by the Welsh Local Government Association about who should be its representatives on this Partnership Council. I am concerned, however, that no woman was nominated by the WLGA. In fact, the only four women currently proposed to sit on the Partnership Council are from the Assembly. Perhaps the community councils will nominate a woman.

I realise that we are not in a position to tell the WLGA who it should nominate at this stage. However, I ask the Secretary responsible for equal opportunities to consider in the Committee on Equality of Opportunity our guidance on representation on any partnership bodies we establish. Our statutory responsibility to have due regard to equal opportunities in carrying out all our functions must be fed through to our partner

yn atgyfnerthu barn Sue oherwydd yr wyf yn cytuno'n gyfan gwbl â'r hyn a ddywedodd ac, fel pawb arall, yr wyf yn llwyr gefnogi sefydlu'r cyngor hwn. Dylem fod yn fwy o ddifrif ynghylch ein perthynas â llywodraeth leol nag ynghylch unrhyw berthynas arall a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, maent yn gyflenwyr pwysig o'r gwasanaethau a'r rhaglenni a fabwysiedir gan y Cynulliad. Yn ail, fe'u gwelir gan y cyhoedd fel y bobl sydd yn rhoi dyheadau a bwriadau'r Cynulliad ar waith. Felly, bydd ein perthynas â hwy yn un dyngedfennol ac mae'n bwysig inni weithio'n ôl yr un agenda.

Mae dwy agwedd benodol ar y cynigion a'r dadleuon presennol yr hoffwn eu codi. Y gyntaf yw'r agenda cyfle cyfartal. Fe wn y byddwn yn trafod y mater hwn mewn perthynas â Gwerth Gorau brynhawn heddiw, ond mae awdurdodau lleol yn arbennig o bwysig wrth hybu'n rhaglenni i ymdrin â dieithrwch cymdeithasol ar hyd a lled Cymru. Mae'r rhaglenni a'r gwasanaethau a gyflenwir ganddynt yn rhaffau achub i bobl sydd mewn tlodi, y rhai sydd wedi eu dieithrio a'r rhai sydd mewn angen dybryd.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl hyn yn fenywod, yn lleiafrifoedd du ac ethnig, yn bobl anabl, yn bobl oedrannus ac yn blant. Derbyniaf ein bod yn cadarnhau argymhellion a roddwyd i ni gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch pwy a ddylai ei chynrychioli ar y Cyngor Partneriaeth hwn. Yr wyf yn bryderus, fodd bynnag, na enwebwyd yr un fenyw gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mewn gwirionedd, mae'r unig bedair benyw a gynigir ar hyn o bryd i eistedd ar y Cyngor Partneriaeth o'r Cynulliad. Efallai y bydd y cyngorau cymuned yn enwebu benyw.

Sylweddolaf nad ydym mewn sefyllfa i ddweud wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pwy y dylai ei enwebu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gofynnaf i'r Ysgrifennydd sydd yn gyfrifol am gyfle cyfartal ystyried yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ein harweiniad ynghylch cynrychiolaeth ar unrhyw gyrrff partneriaeth a sefydlwn. Rhaid i'n cyfrifoldeb statudol i roi sylw dyladwy i gyfle cyfartal wrth gyflawni ein holl

organisations.

My second point relates to stock transfer. During the dark days for council tenants in the 1980s, I was one of those who fought hard alongside the council tenants of Wales against the attempts by the then Tory Government to take their homes from them and sell them to private landlords. Those of us who remember those days when elderly people and people with hardly any income were buying their houses because it was the only way they could feel secure in their homes will understand how important it has been to Welsh council tenants to defend council ownership of their homes. Council ownership provided them with stability, protection and the expectation that they would have a future in their homes.

When we move towards stock transfer, we must be absolutely clear that the tenants' wishes are paramount. We must remember how hard those tenants fought alongside many of us to keep that stock, ensuring that it is intact for us now so that we can look at developing social housing for the future. I want to reinforce Sue's and other people's views on this. This programme should be developed slowly and we should take account of what is working. We now have responsibility for housing associations within the Assembly because we have taken over Tai Cymru's responsibilities. That gives us the opportunity to stock transfer differently from England where whole council housing stocks are no longer under council ownership. We have a housing association movement that is committed to the objectives of housing people on low incomes and providing housing which gives long-term protection and security to people. We can work with them.

10:49 a.m.

An example in my own constituency of Swansea East, which I hope that the Committee will visit, is that of the Swansea Housing Association, which is working in

swyddogaethau gael ei borthi i'n partner gyrrff.

Mae'r ail bwynt sydd gennyf yn ymwneud â throsglwyddo stoc. Yn ystod y dyddiau du i denantiaid cyngor yn y 1980au, yr oeddwn yn un o'r rhai a frwydrodd yn galed ochr yn ochr â thenantiaid cyngor Cymru yn erbyn ymdrechion y Llywodraeth Doriaidd, fel yr oedd bryd hynny, i gymryd eu cartrefi oddi arnynt a'u gwerthu i landlordiaid preifat. Bydd y rhai ohonom sydd yn cofio'r dyddiau hynny pryd yr oedd pobl oedrannus a rhai â bron ddim incwm yn prynu eu tai am mai hynny oedd yr unig ffordd y gallent deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, yn deall mor bwysig gan denantiaid cyngor Cymru oedd amddiffyn perchnogaeth y cyngor ar eu cartrefi. Yr oedd perchnogaeth y cyngor yn rhoi sefydlogrwydd a diogelwch iddynt a'r disgwyliad y byddai ganddynt ddyfodol yn eu cartrefi.

Pan symudwn tuag at drosglwyddo stoc, rhaid inni fod yn gwbl bendant mai dymuniadau'r tenantiaid sydd bwysicaf. Rhaid inni gofio mor galed y brwydrodd y tenantiaid hynny ochr yn ochr â llawer ohonom i gadw'r stoc honno, gan sicrhau ei bod yn gyfan i ni'n awr fel y gallwn ystyried datblygu tai cymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Yr wyf am ategu barn Sue ac eraill ar hyn. Dylid datblygu'r rhaglen hon yn araf a dylem roi sylw i'r hyn sydd yn gweithio. Bellach mae gennym gyfrifoldeb dros gymdeithasau tai o fewn y Cynulliad oherwydd yr ydym wedi ymgymryd â dyletswyddau Tai Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfle inni drosglwyddo stoc mewn modd gwahanol i Loegr lle y ceir stociau tai cyngor cyfan nad ydynt ym mherchnogaeth y cynghorau mwyach. Mae gennym fudiad cymdeithasau tai sydd wedi ymrwymo i'r amcanion o gartrefu pobl ar incwm isel a darparu tai sydd yn rhoi amddiffyniad a diogelwch tymor hir i bobl. Gallwn weithio gyda hwy.

Un enghraifft yn f'etholaeth fy hun, Dwyrain Abertawe, y gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn ymweld â hi, yw Cymdeithas Dai Abertawe sydd yn gweithio mewn partneriaeth â

partnership with tenants in the local authority. They have a programme that works with the tenants and residents. We can find ways of doing that, but I hope that we will take it step by step and make it clear to the local authorities how critical the tenants' views are. Our local authorities have not always been the first to listen to tenants' views. I can remember days when I was turned out of conferences with local authority councillors because they did not want to hear those views. I am delighted to say that that has changed. It is important that in our work with the Partnership Council, the basis and the ethos on which we develop any programme that involves a change of ownership is made absolutely clear.

I hope that the Assembly Secretaries, whom I know will be sympathetic to the issues that I have raised, can proceed with this in the future.

Janet Ryder: We are here today to talk about the Partnership Council. It sounds a little like a debate on the transfer of housing stock. To return to the issue of the Partnership Council, I am concerned that the town and community councils have not yet elected one of their representatives. Peter Law and I attended a meeting of the Denbighshire town and community councils in Ruthin on Saturday where it was the subject of a heated debate in that meeting. At this point I should declare an interest as Mayor of Ruthin Town Council. There has been concern in the consultation documents from town and community councils that their voices will not be heard loudly enough. Some responsibility must rest on their own shoulders to ensure that they use the two seats that they have, and that they adequately represent local town and community councils. The First Secretary made other announcements and, while I welcome a whole day of debating aspects of local government, he did seem to suggest some major new initiative regarding local government.

I would like to refer to housing and housing stock. Dealing with the backlog of repairs

thenantiaid i'r awdurdod lleol. Mae ganddynt raglen sydd yn gweithio gyda'r tenantiaid a'r preswylwyr. Gallwn ganfod ffyrdd i wneud hyn, ond gobeithio yr awn fesul cam ac egluro i'r awdurdodau lleol mor dyngedfennol yw barn y tenantiaid. Nid yr awdurdodau lleol fu'r rhai cyntaf i wrando ar farn y tenantiaid bob tro. Gallaf gofio'r dyddiau pryd y cawn fy anfon allan o gynadleddau gyda chynghorwyr awdurdodau lleol am nad oeddent am glywed y safbwyntiau hynny. Mae'n dda iawn gennyf ddweud bod hynny wedi newid. Mae'n bwysig yn ein gwaith gyda'r Cyngor Partneriaeth ein bod yn rhoi ar ddeall beth yn union yw'r sylfaen a'r ethos i unrhyw raglen a ddatblygwn sydd yn golygu newid perchnogaeth.

Yr wyf yn gobeithio y bydd Ysgrifenyddion y Cynulliad, y gwn eu bod â chydymdeimlad â'r materion a godais, yn gallu bwrw ymlaen â hyn yn y dyfodol.

Janet Ryder: Yr ydym yma heddiw i drafod y Cyngor Partneriaeth. Mae'n swnio braidd fel dadl ar drosglwyddo'r stoc dai. Gan fynd yn ôl at fater y Cyngor Partneriaeth, yr wyf yn bryderus nad yw'r cynghorau tref a chymuned wedi ethol un o'u cynrychiolwyr eto. Yr oedd Peter Law a minnau mewn cyfarfod o gynghorau tref a chymuned sir Ddinbych yn Rhuthun ddydd Sadwrn lle'r oedd dadl boeth ar y mater hwn. Fe ddylwn ddatgan diddordeb yma fel Maer Cyngor Tref Rhuthun. Yr oedd pryder yn y dogfennau ymgynghori oddi wrth gynghorau tref a chymuned na fyddai eu llais yn ddigon uchel i'w glywed. Rhaid i ni ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb i sicrhau y byddant yn defnyddio'r ddwy sedd sydd ganddynt, a'u bod yn cynrychioli'r cynghorau tref a chymuned lleol yn ddigonol. Fe wnaeth y Prif Ysgrifennydd gyhoeddiadau eraill ac, er fy mod yn croesawu diwrnod cyfan i drafod agweddau ar lywodraeth leol, yr oedd yn ymddangos ei fod yn awgrymu rhyw fenter fawr newydd mewn cysylltiad â llywodraeth leol.

Hoffwn gyfeirio at dai ac at y stoc dai. Bydd ymdrin â'r ôl-groniad o atgyweiriadau yn

will be a major issue. The First Secretary referred to the pressures that would arise as a result of money being made available for housing; pressures on health and education which he implied squeezed out money for housing. However, if we provide good quality housing for everybody, that would help cut health budgets and improve standards of education. It would also be a mainstay plank in providing social inclusion. We must come to grips with the backlog of housing repairs and provide everybody with a good home. Stock transfer could be one way of tackling this issue. I do not like the use of the word 'large-scale' and I made that clear in yesterday's Committee meeting. It may be suitable for certain areas, and I echo what Val Feld. There are genuine concerns and worries among tenants. It seems that many of them prefer the devil they know to the one they do not. It is important that they have to vote with the majority in order to transfer their stock out. We will look closely at how these new community companies and initiatives can be set up. I hope much work will be done on that.

We welcome those initiatives and look forward to the Partnership Council working to develop these issues without the barriers referred to earlier and without blocks between local government and central administration. That will enable us to work together to create the better communities Wales needs.

The Presiding Officer: I call Glyn Davies.

Glyn Davies: I rise only to apologise to you, Llywydd, and to explain that I am confused in using my e-mail. I did not intend to ask to speak in this debate.

The Presiding Officer: I am about to send you an e-mail referring to events which may or may not occur this afternoon. I hope you receive it.

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): I am

fater o bwys. Fe gyfeiriodd y Prif Ysgrifennydd at y pwysau a ddeuai o ganlyniad i ddarparu arian ar gyfer tai; pwysau ar iechyd ac addysg yr awgrymai ei fod yn nacáu rhoi arian ar gyfer tai. Fodd bynnag, pe darparem dai o ansawdd da i bawb, byddai o gymorth i dorri ar gyllidebau iechyd a gwella safonau addysg. Byddai hynny hefyd yn ganolog wrth ddarparu cynhwysiant cymdeithasol. Rhaid inni fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio ar dai a darparu cartref da i bawb. Gallai trosglwyddo stoc fod yn un ffordd o ymdrin â'r mater hwn. Nid wyf yn hoff o'r defnydd ar y gair 'graddfa-fawr' a rhoddais hynny ar ddeall yn y cyfarfod Pwyllgor ddoe. Fe allai fod yn addas mewn rhai ardaloedd, ac ategaf yr hyn a ddywedodd Val Feld. Mae pryderon a gofidiau gwirioneddol ymysg tenantiaid. Mae'n ymddangos ei bod yn well gan lawer ohonynt y drwg a wyddant na'r drwg na wyddant. Mae'n bwysig bod yn rhaid iddynt bleidleisio gyda'r mwyafrif er mwyn trosglwyddo eu stoc. Fe edrychwn yn ofalus ar y modd y gellir sefydlu'r cwmnïau a'r mentrau cymunedol newydd hyn. Gobeithio y cyflawnir llawer o waith ar hynny.

Croesawn y camau hynny ac edrychwn ymlaen at weld y Cyngor Partneriaeth yn gweithio i ddatblygu'r materion hyn heb y rhwystrau y cyfeiriwyd atynt gynnu a heb wahanfuriau rhwng llywodraeth leol a'r weinyddiaeth ganolog. Bydd hynny'n ein galluogi i gydweithio er mwyn creu'r cymunedau gwell y mae ar Gymru eu hangen.

Y Llywydd: Galwaf ar Glyn Davies.

Glyn Davies: Nid wyf yn codi ond i ymddiheuro ichi, Lywydd, ac i egluro fy mod mewn dryswch ynglyn â defnyddio'r e-bost. Ni fwriadwn ofyn am gael siarad yn y ddadl hon.

Y Llywydd: Yr wyf ar fin anfon e-bost atoch sydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau posibl brynhawn heddiw. Gobeithio y byddwch yn ei dderbyn.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Yr wyf yn

grateful to Glyn as I was running out of paper to note down all the points made in the debate.

I am pleased to have the opportunity to wind-up this debate on local government. It is an important debate. The theme of the debate, and of the First Secretary's announcements, was partnership, which is key to the Assembly's relationship with local government as well as with business and the voluntary sector.

I will address some of the points made. David Davies—he is not here again, he is always absent when I respond—expressed concern about a lack of Conservative councillors. He answered his own question to an extent. It is a matter for the WLGA. I am assured by the WLGA that they did take into account appropriate proportional representation in their membership, which comprises six Labour, two Plaid Cymru and two Independent members. Peter Black made a similar point about Liberal Democrat representation. Again, it is a matter for the WLGA.

Points were made about beacon services. I can assure Members that beacon services, which remain an important part of our future development plans for local government, will be on the Partnership Council's agenda. It is pleasing to know that beacon service status has been supported by the WLGA throughout the consultation.

The ethical framework is another important matter that will come before the Assembly. I am sure that the framework, which is intended to improve standards and codes of conduct for Members and officers will also go before the Partnership Council at the appropriate time. There will be a working party on that, which will report to me later this year. I am grateful to all those, including the WLGA, who have taken part in that work.

I have noted all the points made. The point

ddiolchgar i Glyn oherwydd yr oeddwn yn mynd yn brin o bapur i nodi'r holl bwyntiau a wnaethpwyd yn y ddadl.

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i ddod â'r ddadl hon ar lywodraeth leol i ben. Mae'n ddadl bwysig. Thema'r ddadl, a thema cyhoeddiadau'r Prif Ysgrifennydd, oedd partneriaeth, sydd yn allweddol i berthynas y Cynulliad â llywodraeth leol yn ogystal â chyda busnes a'r sector gwirfoddol.

Rhoddaf sylw i rai o'r pwyntiau a wnaethpwyd. Mynegwyd pryder gan David Davies—nid yw yma eto, mae bob amser yn absennol pan fyddaf yn ymateb—ynghylch diffyg cynghorwyr Ceidwadol. Fe atebodd ei gwestiwn ei hun i ryw raddau. Mae'n fater i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cefais sicrwydd gan y Gymdeithas eu bod wedi cymryd cynrychiolaeth gyfrannol briodol i ystyriaeth yn eu haelodaeth, sydd yn cynnwys chwe aelod Llafur, dau aelod o Blaid Cymru a dau aelod Annibynnol. Fe wnaeth Peter Black bwynt tebyg ynghylch cynrychiolaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Unwaith eto, mae hyn yn fater i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Fe wnaethpwyd pwyntiau ynghylch gwasanaethau tywys. Gallaf sicrhau'r Aelodau y bydd gwasanaethau tywys, sydd yn rhan bwysig o hyd o'n cynlluniau datblygu ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, yn eitem ar agenda'r Cyngor Partneriaeth. Mae'n dda gwybod bod statws gwasanaeth tywys wedi ei gefnogi gan y WLGA drwy gydol yr ymgynghoriad.

Mae'r fframwaith moesegol yn fater pwysig arall a ddaw gerbron y Cynulliad. Yr wyf yn sicr y bydd y fframwaith hwn, y bwriedir iddo wella safonau a chodau ymddygiad i Aelodau a swyddogion, hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Partneriaeth ar yr adeg briodol. Fe fydd gweithgor ar hynny a fydd yn adrodd i mi yn ddiweddarach eleni. Yr wyf yn ddiolchgar i bawb, gan gynnwys y WLGA, a gymerodd ran yn y gwaith hwnnw.

Fe nodais yr holl bwyntiau a wnaethpwyd. Y

made by Val Feld, who has also left the Chamber—I must have that effect on people, Llywydd—

The Presiding Officer: It is all right, the rest of us are still here.

Peter Law: I am delighted you are here. The fact that there are no women from local government on the council concerns me. I regret it. However, it is a matter for the Welsh Local Government Association and for the other local government organisations to deal with. There is still one appointment to be made from the Wales Association of Community and Town Councils. There may be an opportunity for a lady to join from there. I am glad to say that there are four women from the Assembly representing us on the Partnership Council. I am sure they will make an important contribution.

The Partnership Council is the mechanism for ensuring closer working between the Assembly and local government. It is an innovative body in central-local government relations in the UK. I hope that it will be a stimulus to improve the effectiveness of our policy making and implementation by encouraging greater networking, joint working and the sharing of staff, experience and, more importantly, ideas. I am grateful to Janet Davies for her positive comments earlier. She mentioned openness, ending secrecy and keeping our people informed. That is what it is all about and the reason for our existence. That is what this Government is totally committed to and that is reflected in the debate today. Lorraine Barrett spoke of her concern about community councils and questioned whether they all were in support because some seemed nervous. I can assure Lorraine that the vast majority of community and town councils are not only fully in support but are also delighted to be recognised at long last and given an equal place at the table with the larger county councils. This is a wonderful reflection on the Assembly as we have achieved this in our first few months.

10:59 a.m.

pwynt a wnaethpwyd gan Val Feld, sydd hefyd wedi gadael y Siambr—rhaid fy mod yn cael effaith felly ar bobl, Lywydd—

Y Llywydd: Mae popeth yn iawn, mae'r gweddill ohonom yma o hyd.

Peter Law: Yr wyf yn falch iawn eich bod yma. Mae'r ffaith nad oes benywod o lywodraeth leol ar y cyngor yn peri pryder i mi. Mae hynny'n ofid i mi. Fodd bynnag, mae hyn yn fater i'w drafod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chan y cymdeithasau llywodraeth leol eraill. Mae un penodiad i'w wneud gan Gymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru. Efallai y bydd cyfle i fenyw ymuno o'r fan honno. Mae'n dda gennyf ddweud bod pedair benyw o'r Cynulliad yn ein cynrychioli ar y Cyngor Partneriaeth. Yr wyf yn sicr y bydd eu cyfraniad yn un pwysig.

Y Cyngor Partneriaeth yw'r mecanwaith i sicrhau gweithio agosach rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol. Mae'n gorff arloesol yng nghysylltiadau llywodraeth canolog-lleol yn y DU. Gobeithio y bydd yn symbyliad i wella effeithiolrwydd wrth lunio a gweithredu polisïau drwy hybu rhwydweithio ehangach, gweithio ar y cyd a rhannu staff, profiad ac, yn bwysicach, syniadau. Yr wyf yn ddiolchgar i Janet Davies am ei sylwadau cadarnhaol yn gynharach. Yr oedd yn sôn am fod yn agored, am roi pen ar gyfrinacholdeb a sicrhau bod pobl yn derbyn gwybodaeth. Dyna yw ei holl bwrpas a'r rheswm dros ein bodolaeth. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo'n llwyr i hynny ac fe adlewyrchir hyn yn y ddadl heddiw. Siaradodd Lorraine Barrett am ei phryder ynghylch cynghorau cymuned gan gwestiynu a oeddent i gyd yn cefnogi am fod rhai yn ymddangos yn nerfus. Gallaf sicrhau Lorraine fod mwyafrif helaeth y cynghorau tref a chymuned yn ei lwyr gefnogi a'u bod hefyd yn falch iawn o gael eu cydnabod o'r diwedd ac o gael lle cyfartal wrth y bwrdd gyda'r cynghorau sir mwy. Mae hyn yn glod aruthrol i'r Cynulliad oherwydd yr ydym wedi cyflawni hyn yn ein misoedd cyntaf.

Janet made the point about the importance of the associations coming together. We are trying to do this to ensure that they speak with one voice. They now have the representation that will give them the opportunity to play their part. If we are to make an impact on the problems that Wales faces and make the most of the opportunities available, we need to be innovative in tackling the root causes of our problems, ideally seeking remedies that can contribute to the solution of more than one problem. If we all work together we stand a better chance of dealing with the basic problems that Wales faces, as well as finding and tackling such causal chains.

The First Secretary's announcement today of our intention to consult on two new proposals to increase the flexibility available to councils to respond to local problems, shows that the Assembly can be a good partner for local government. Sue Essex, as Chairman of the Environment and Local Government Committee, underlined the fundamental importance of this during the debate. Our intention in proposing a review of capital finance regulations is that we are anxious to put a new supportive framework in place and to remove the constraints that have hindered councils in getting things done. In the period since 1979, councils' effectiveness has been constrained by restrictive regulations, which curtailed local government's freedom to innovate and respond to local problems and opportunities. We are determined that the system of financial controls for Welsh local government will be biased in favour of facilitating action. Financial regimes need to be prudent, assisting local government rather than deliberately setting out to hinder it.

The changes that we propose to consult on will help councils to finance joint initiatives with other bodies, such as the voluntary sector, through the use of the additional flexibility under Section 137 of the Local Government Act 1972. Those of us who remember the days of Section 137 will know how wonderful it was to have that facility

Fe wnaeth Janet bwynt am y pwysigrwydd o weld y cymdeithasau'n dod at ei gilydd. Yr ydym yn ceisio gwneud hynny er mwyn sicrhau y byddant yn siarad ag un llais. Bellach mae ganddynt y gynrychiolaeth a fydd yn rhoi cyfle iddynt chwarae eu rhan. Os ydym i gael effaith ar y problemau y mae Cymru'n eu hwynebu a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael, rhaid inni arloesi wrth ymdrin ag achosion sylfaenol ein problemau, a gorau oll os gellir canfod atebion sydd yn gallu cyfrannu at ddatrys mwy nag un broblem. Os bydd pawb ohonom yn gweithio gyda'i gilydd byddwn mewn gwell sefyllfa i allu ymdrin â'r problemau sylfaenol sydd yn wynebu Cymru, yn ogystal â chanfod a mynd i'r afael â chadwynau achosol o'r fath.

Mae cyhoeddiad y Prif Ysgrifennydd heddiw am ein bwriad i ymgynghori ynghylch dau gynnig newydd i gynyddu'r hyblygrwydd sydd ar gael i gynghorau i ymateb i broblemau lleol, yn dangos bod modd i'r Cynulliad fod yn bartner da i lywodraeth leol. Fe bwysleisiwyd pwysigrwydd hanfodol hynny gan Sue Essex, fel Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol, yn ystod y ddadl. Ein bwriad wrth gynnig adolygu'r rheoliadau cyllid cyfalaf yw dangos ein bod yn awyddus i sefydlu fframwaith cynhaliol newydd a dileu'r cyfyngiadau a rwystrodd y cynghorau rhag cyflawni pethau. Yn y cyfnod ers 1979, fe gyfyngwyd ar effeithiolrwydd y cynghorau drwy reoliadau caethiwus, a gwtogodd ar ryddid llywodraeth leol i arloesi ac ymateb i broblemau a chyfleoedd lleol. Yr ydym yn benderfynol y bydd y system o gyfyngiadau ariannol ar lywodraeth leol yng Nghymru yn gogwyddo tuag at hwyluso gweithredu. Rhaid i gyfundrefnau ariannol fod yn bwyllog, gan helpu llywodraeth leol yn hytrach na mynd ati i'w llesteirio.

Bydd y newidiadau y bwriadwn ymgynghori yn eu cylch yn helpu cynghorau i ariannu mentrau ar y cyd â chyrff eraill, fel y sector gwirfoddol, drwy ddefnyddio'r hyblygrwydd ychwanegol o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y rhai ohonom sydd yn cofio dyddiau Adran 137 yn cofio mor fendigedig ydoedd i gael y cyfleuster

and how it was long lamented that it was left at the figure it was. Today's move is therefore an excellent one. I hope in particular that community councils will be able to use the additional flexibility to work with county councils, neighbouring community councils and other bodies such as the police, to fund jointly projects that benefit their areas and people. I also hope that the review of capital controls will result in councils being able to spend more on capital projects, leading to more investment in our communities.

These financial initiatives complement those provisions in the Local Government Act 1999 that give councils discretionary powers to engage in partnerships for any purpose that supports their functions and the commitment in the White Paper, 'Local Voices', to give councils the ability to promote the economic, social and environmental well being of their areas and to undertake community planning. I stress the importance of this.

Concern has been voiced about the stock transfer mentioned this morning. I understand the concern because it is a major change for us. If we are to address the problem of decay in our council housing stock, which adds up to at least £750 million, and lift people out of the squalor in which they live and which you have seen in your constituencies, we must consider this a positive way forward. As the Secretary for the Environment and Local Government, I cannot see any alternative. I, and many other Members, have been advised by eminent people in the housing world who were a part of this working party, and to whom I am grateful. We discussed and accepted the document in principle yesterday in the Environment and Local Government Committee and we will consult on it again. I appreciate that there have to be safeguards but this has to be the way forward to lift people out of the difficult situations that have deteriorated since the times to which Val Feld referred. The state of our council housing has got worse and worse.

hwnnw a'r hiraeth mawr ar ei hôl am fod y ffigur wedi ei adael fel yr oedd. Yr oedd y cam a gymerwyd heddiw yn un rhagorol felly. Gobeithiaf yn arbennig y bydd cynghorau cymuned yn gallu defnyddio'r hyblygrwydd ychwanegol i weithio gyda chynghorau sir, cynghorau cymuned cyfagos a chyrff eraill fel yr heddlu, i gydariannu prosiectau a fydd o les i'w hardaloedd a'u pobl. Yr wyf hefyd yn gobeithio y bydd yr adolygiad o'r cyfyngiadau cyfalaf yn golygu y bydd modd i gynghorau wario rhagor ar brosiectau cyfalaf, gan arwain at fwy o fuddsoddi yn ein cymunedau.

Mae'r cynlluniau ariannol hyn yn ategu'r darpariaethau hynny yn Neddff Llywodraeth Leol 1999 sydd yn rhoi pwerau dewisol i gynghorau i gymryd rhan mewn partneriaethau i unrhyw ddiben sydd yn cefnogi eu swyddogaethau a'r ymrwymiad yn y Papur Gwyn, 'Lleisiau Lleol', i roi'r gallu i gynghorau i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd ac i ymgymryd â chynllunio cymunedol. Pwysleisiaf bwysigrwydd hynny.

Mynegwyd pryder ynghylch y trosglwyddo ar stoc y cyfeiriwyd ato fore heddiw. Yr wyf yn deall y pryder hwnnw oherwydd mae'n newid mawr i ni. Os ydym i roi sylw i broblem dadfeiliad yn ein stoc tai cyngor, sydd yn gymaint â £750 miliwn o leiaf, a chodi pobl o'r budreddi y maent yn byw ynddo ac a welsoch yn eich etholaethau, rhaid inni ystyried hyn yn ffordd gadarnhaol ymlaen. Fel Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol, ni welaf ddewis arall. Yr wyf fi, a llawer o Aelodau eraill, wedi derbyn cyngor gan bobl amlwg ym myd tai oedd yn rhan o'r gweithgor hwn, ac yr wyf yn ddiolchgar iddynt. Bu inni drafod y ddogfen ddoe yn y Pwyllgor Amgylchedd a Llywodraeth Leol a'i derbyn mewn egwyddor a byddwn yn ymgynghori yn ei chylch eto. Sylweddolaf y bydd yn rhaid cael canllawiau diogelwch ond mae'n sicr mai hon yw'r ffordd ymlaen i godi pobl o'r sefyllfaoedd anodd sydd wedi dirywio ers y cyfnod yr oedd Val Feld yn cyfeirio ato. Mae cyflwr ein tai cyngor wedi gwaethygu fwyfwy.

I am pleased that we are starting to move forward on community partnership in these community housing corporations. The safeguards are built in, the local authorities will have to be in agreement and the tenants will be balloted. There are positive examples of where this partnership has worked in England, and Scotland is also going down this road. We should not be left out of something which will be in the interests of our tenants in general.

We shall give local authorities as much flexibility as possible to undertake their tasks. However, in order to justify this, authorities will first have to demonstrate that they can work jointly with others to the benefit of their areas. The days when local authorities did everything themselves has long gone. Councils should be facilitators and enablers.

The devolving of powers adds to the capacity of individuals and organisations, to everybody's benefit. The second responsibility is to work effectively and efficiently and to adopt the highest possible standards of probity to gain the public's confidence. If councils wish to be leaders they must act like leaders and earn the respect of the public and others. Failings in management, probity or the efficiency of councils diminishes the public sector as a whole.

Thirdly, councils will have to demonstrate that they can get things done, make the best of the opportunities available and learn from failures. There will inevitably be failures, especially if we aspire to be state of the art. That is why it is symbolic and important to mention Section 137, as Sue Essex did, and the reform of the capital finance regulations. These commitments, which the First Secretary announced today, underline and show our continuous commitment to work with local government and improve its opportunities to serve the communities of which we are all part. Councils must seek to add value to what they and others do.

Yr wyf yn falch ein bod yn dechrau symud ymlaen ynghylch partneriaeth gymunedol yn y corfforaethau tai cymunedol hyn. Mae'r canllawiau diogelwch yn rhan ohonynt, bydd yn rhaid i'r awdurdodau lleol gytuno a chynhelir pleidlais ymysg y tenantiaid. Mae enghreifftiau cadarnhaol o fannau lle y mae'r bartneriaeth hon wedi llwyddo yn Lloegr, ac mae'r Alban yn dilyn y llwybr hwn hefyd. Ni ddylem gael ein gadael allan o rywbeth a fydd er budd ein tenantiaid yn gyffredinol.

Rhown gymaint ag y bo modd o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol i ymgymryd â'u tasgau. Fodd bynnag, er mwyn cyfiawnhau hyn, bydd yn rhaid i'r awdurdodau brofi'n gyntaf eu bod yn gallu gweithio ar y cyd ag eraill er lles eu hardaloedd eu hunain. Mae'r dyddiau pryd y gwnâi awdurdodau lleol bopeth eu hunain wedi hen fynd. Dylai cynghorau fod yn hwyluswyr ac yn alluogwyr.

Mae'r datganoli ar bwerau yn ychwanegu at allu unigolion a chyrrff, er lles pawb. Yr ail gyfrifoldeb yw gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon a mabwysiadu'r safonau uchaf posibl o uniondeb er mwyn ennill hyder y cyhoedd. Os yw cynghorau'n dymuno bod yn arweinwyr rhaid iddynt weithredu fel arweinwyr ac ennill parch y cyhoedd ac eraill. Mae diffygion mewn rheoli, uniondeb neu effeithlonrwydd yn y cynghorau yn dibrisio'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

Yn drydydd, bydd yn rhaid i gynghorau brofi eu bod yn gallu cyflawni pethau, manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael a dysgu o'u methiannau. Bydd methiannau heb os nac oni bai, yn enwedig os anelwn at fod yn gwbl fodern. Dyna pam y mae'n symbolaidd a phwysig i sôn am Adran 137, fel y gwnaeth Sue Essex, a diwygio'r rheoliadau cyllid cyfalaf. Mae'r ymrwymadau hyn, a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd heddiw, yn tanlinellu ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus i weithio gyda llywodraeth leol a gwella'r cyfleoedd sydd ganddi i wasanaethu'r cymunedau yr ydym oll yn rhan ohonynt. Rhaid i'r cynghorau geisio ychwanegu gwerth at yr hyn y byddant hwy ac eraill yn ei wneud.

Local government in Wales is on the threshold of a new era. The Assembly is keen to ensure that it has the freedom and flexibility to grasp the opportunities that exist in all areas of Wales. In the areas with the worst problems, investment by councils enhances confidence and can stimulate further investment by others in the private and voluntary sectors.

The Assembly and the public will be watching closely how councils respond to the challenge. I am confident that local government can deliver and that there will be significant improvements in the years ahead.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

11:09 a.m.

Dadl Fer Short Debate

Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgol The Maintenance of School Buildings

Peter Black: The extent of the problem facing this Assembly on the essential maintenance of school buildings is enormous. The Welsh Local Government Association has estimated a total backlog bill of £325 million. The National Union of Teachers (Cymru) considers that the figure is nearer £500 million. In view of these figures, the sum of £13 million already announced for this year and even the total sum of £65 million promised over the lifetime of Parliament, is completely inadequate.

In terms of tackling the backlog in Wales, we are not even standing still. We are falling behind year on year. This is illustrated perfectly by the situation in Rhondda Cynon Taff, an authority with more Victorian-built schools than any other area in the UK. In July 1998, the Director of Education for Rhondda Cynon Taff estimated that he would

Mae llywodraeth leol yng Nghymru ar drothwy oes newydd. Mae'r Cynulliad yn awyddus i sicrhau y caiff y rhyddid a'r hyblygrwydd i afael yn y cyfleoedd sydd yn bod ym mhob ardal yng Nghymru. Yn yr ardaloedd lle y mae'r problemau gwaethaf, bydd buddsoddi gan gynghorau'n cynyddu hyder ac fe all symbylu buddsoddi pellach gan eraill yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Bydd y Cynulliad a'r cyhoedd yn edrych yn ofalus i weld sut bydd y cynghorau'n ymateb i'r sialens. Yr wyf yn ffyddiog y bydd llywodraeth leol yn gallu mynd â'r maen i'r wal ac y ceir gwelliannau mawr yn y blynyddoedd a ddaw.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Peter Black: Mae problem anferth yn wynebu'r Cynulliad hwn ynghylch gwaith cynnal a chadw hanfodol ar adeiladau ysgol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif mai cyfanswm y bil am yr ôl-groniad yw £325 miliwn. Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru o'r farn bod y ffigur yn agosach i £500 miliwn. Yng ngolwg y ffigurau hyn, mae'r swm o £13 miliwn a gyhoeddwyd eisoes ar gyfer eleni a hyd yn oed y cyfanswm o £65 miliwn a addawyd dros gyfnod y Senedd, yn gwbl annigonol.

O ran ymdrin â'r ôl-groniad yng Nghymru, nid ydym hyd yn oed yn sefyll yn ein hunfan. Yr ydym yn colli tir flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ceir enghraifft berffaith i ddangos hyn yn y sefyllfa yn Rhondda Cynon Taf, awdurdod sydd â mwy o adeiladau ysgol Fictoraidd nag unrhyw ardal arall yn y DU. Yng Ngorffennaf 1998, amcangyfrifodd

need to spend £50 million over the next five years to even begin to address the problems in the schools under his control.

In his view, he needs £5 million a year for the next five years to stop further deterioration. That is the bare minimum to keep his authority just about treading water. That situation is reflected in every local authority in Wales. Many directors of education are not sure how long it will be before they can no longer meet their legal obligations to provide a school place for every child.

As a result of the Government's much vaunted private finance initiative, 10 new schools will be built. The problem is that this is just the tip of the iceberg. The bulk of the backlog of maintenance is in decaying buildings where there is no PFI option. Do not take my word for it. The issue was brought into stark contrast by the annual report of Her Majesty's Chief Inspector of Schools in Wales published in March 1999. In it he states,

'Most primary schools have sufficient accommodation and they generally make good use of it. During 1997-98, the quality of accommodation was reported to be unsatisfactory or poor in 12 per cent of primary schools inspected, and deficient in some important respects in a further 48 per cent. The most common problems continue to be inadequate toilet facilities, leaking roofs, poor external decoration, unsatisfactory demountable classrooms and a lack of sufficient space for storage and practical work.'

He continues,

'In about 20 per cent of secondary schools, new buildings and outdoor facilities, several of them financed through the Popular Schools Initiative, have substantially improved the quality of the teaching accommodation. In the great majority of

Cyfarwyddwr Addysg Rhondda Cynon Taf y byddai angen iddo wario £50 miliwn dros y pum mlynedd nesaf dim ond i ddechrau ymdrin â phroblemau'r ysgolion dan ei reolaeth.

Ei farn ef yw y bydd arno angen £5 miliwn y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i atal dirywiad pellach. Dyna'r lleiafswm sydd yn angenrheidiol fel y gall ei awdurdod sefyll yn ei unfan. Mae'n sefyllfa a welir ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae llawer o gyfarwyddwyr addysg yn ansicr am ba hyd y gallant barhau nes byddant yn methu â chyflawni eu rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu lle mewn ysgol i bob plentyn.

O ganlyniad i fenter cyllid preifat y Llywodraeth, y bu mawr y sôn amdani, mae 10 ysgol newydd i'w codi. Y broblem yw mai ond diferyn yn y môr yw hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn adeiladau adfeiliedig lle nad oes dewis menter cyllid preifat. Peidiwch â dibynnu ar fy ngair i. Fe ddangoswyd difrifoldeb y sefyllfa yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru a gyhoeddwyd ym Mawrth 1999. Yn y fan honno mae'n dweud,

'Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd adeiladau ac ystafelloedd digonol a gwnânt ddefnydd cyffredinol dda ohonynt. Yn ystod 1997-98, cofnodwyd bod ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn anfoddhaol neu'n wael mewn tua 12 y cant o'r ysgolion cynradd a arolygwyd, ac yn ddiffygiol mewn rhai agweddau pwysig mewn 48 y cant arall. Y problemau mwyaf cyffredin o hyd yw cyfleusterau toiled annigonol, toeon sy'n gollwng, cyflwr addurn allanol gwael, ystafelloedd dosbarth symudol anfoddhaol a diffyg gofod digonol ar gyfer storio a gwaith ymarferol.'

Fe â ymlaen,

'Mewn tua 20 y cant o ysgolion uwchradd, mae adeiladau a chyfleusterau awyr agored newydd, llawer ohonynt wedi'u hariannu drwy'r Fenter Ysgolion Poblogaidd, wedi gwella ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd addysgu yn sylweddol. Fodd bynnag, yn y

schools, however, the buildings have some shortcomings that adversely influence the quality of teaching and learning. Leaking roofs and windows are commonly found.... A significant minority of lessons are taught in overcrowded classrooms in which it is difficult for teachers to monitor the progress of individual pupils.'

It is not only the quality of the education provision that suffers in these circumstances. There is a significant impact on the morale of teachers who, day after day, do a superb job in impossible circumstances. What sort of example are we setting? We expect teenagers to respect property yet we sit them down every day in buildings not worthy of that respect.

It is interesting how little detail is held centrally in the Assembly on these buildings' condition and the level of the backlog in individual authorities. I will look at a few local councils in Wales.

Bridgend estimates that it needs £5 million to bring its schools up to a satisfactory state of repair as well as an additional £20 million for refurbishment and remodelling. It has 102 demountables in 38 schools.

Caerphilly's backlog amounts to £20 million. One of its schools has outside toilets and there are 36 demountables over 10 years old. There are 12 schools in Ceredigion with outside toilets while Denbighshire has 50 demountables older than 10 years. I could go on but rather than throw out facts and figures, I would prefer to look at a few specific examples.

The first of these is Rhydypennau primary school in Cardiff. This school has outside toilets forcing children to brave wind and rain to use them. It has three modern demountable classrooms but the junior school, housing 300 pupils, is a pre-fabricated Nissen-style building built 50 years ago to last only 10 years. Cardiff has a backlog of £49 million and, I suspect, little

mwyafrif helaeth o ysgolion, mae gan yr adeiladau rywfaint o ddiffygion sy'n effeithio'n andwyol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae toeon a ffenestri sy'n gollwng yn nodwedd gyffredin.... Addysgir lleiafrif arwyddocaol o wersi mewn ystafelloedd dosbarth sy'n orlawn lle mae'n anodd i'r athrawon fonitro cynnydd disgyblion unigol.'

Nid ansawdd yr addysg a ddarperir yw'r unig beth sydd yn dioddef yn yr amgylchiadau hyn. Ceir effaith sylweddol ar ysbryd yr athrawon sydd yn gwneud gwaith gwych, ddiwrnod ar ôl diwrnod, mewn amgylchiadau amhosibl. Pa fath o esiampl yr ydym ni yn ei rhoi? Yr ydym yn disgwyl i rai yn eu harddegau ddangos parch at eiddo ond yr ydym yn eu rhoi i eistedd bob dydd mewn adeiladau nad ydynt yn teilyngu'r parch hwnnw.

Diddorol yw nodi cyn lleied o fanylion a gedwir yn ganolog yn y Cynulliad am gyflwr yr adeiladau hyn a lefel yr ôl-groniad mewn awdurdodau unigol. Yr wyf am fwrw golwg ar ychydig o gynghorau lleol yng Nghymru.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn amcangyfrif bod arno angen £5 miliwn i adfer ei ysgolion i gyflwr da yn ogystal â £20 miliwn ar ben hynny i adnewyddu ac ailfodelu. Mae ganddo 102 o ystafelloedd symudol mewn 38 ysgol.

Mae ôl-groniad Caerffili yn gymaint â £20 miliwn. Mae toiledau allanol mewn un ysgol ac mae 36 o ystafelloedd symudol sydd dros 10 mlwydd oed. Ceir 12 o ysgolion yng Ngheredigion â thoiledau allanol ac yn sir Ddinbych mae 50 o ystafelloedd symudol sydd dros 10 mlwydd oed. Fe allwn fynd ymlaen ond yn hytrach na thafu ffeithiau a ffigurau, byddai'n well gennyf ystyried ychydig o enghreifftiau penodol.

Y gyntaf o'r rhain yw ysgol gynradd Rhydypennau yng Nghaerdydd. Toiledau allanol sydd yn yr ysgol hon fel bod rhaid i'r plant wynebu gwynt a glaw er mwyn eu defnyddio. Mae ganddi dair ystafell ddosbarth symudol fodern ond mae'r ysgol iau, sydd yn cynnwys 300 o ddisgyblion, yn adeilad parod yn y dull Nissen a godwyd 50 mlynedd yn ôl i barhau ond am 10 mlynedd.

chance of putting things right here.

Ysgol Gyfun Gwyr is Swansea's only Welsh medium comprehensive school. Pupils there face daily health and safety hazards while teachers work in unacceptably cramped conditions. School inspectors earlier this year identified that the condition of playing fields and tennis courts are unsatisfactory and in places dangerous. The canteen is so small that not all the pupils have time to buy and eat their lunch. There are no pupil lockers and ceilings in some classrooms fell in a few months ago.

Crwys primary school in nearby Three Crosses is another school with an unacceptable outside toilet. Manselton primary school, just down the road from where I live, requires substantial ongoing structural work to prevent the re-occurrence of an incident last year when the ceilings fell into a fortunately empty classroom. Swansea has a backlog of £40 million. The examples seem endless. If the Assembly expended half the energy that was put into the campaign for Welsh farmers on securing extra capital from the Treasury, we could potentially see a massive improvement in standards for all our children. That campaign secured an extra £80 million for agriculture in the UK and the go-ahead to fund our own schemes of relief. However, I do not see our Assembly Secretaries seeking meetings with David Blunkett to discuss the crisis in Welsh schools.

The Chancellor of the Exchequer has a budget surplus this year estimated at between £5 billion and £20 billion. He has a clear choice between tax cuts to try to buy votes at the next general election and investment in our public services. He has to make that decision in the context of research that shows that public spending in the UK as a percentage of GDP is at its lowest level since Macmillan, lower even than under Margaret Thatcher and John Major. Our priority and our message as an Assembly must be that

Mae gan Gaerdydd ôl-groniad o £49 miliwn ac yr wyf yn amau mai prin fydd y cyfle i gywiro pethau yn y fan hyn.

Ysgol Gyfun Gwyr yw unig ysgol gyfun Gymraeg Abertawe. Mae'r disgyblion yn y fan honno yn wynebu peryglon i'w hiechyd a'u diogelwch bob diwrnod a'r athrawon yn gweithio dan amodau annerbyniol o gyfyng. Fe nododd arolygwyr ysgolion yn gynharach eleni fod cyflwr y caeau chwarae a'r cyrtiau tennis yn annerbyniol ac yn beryglus mewn rhai mannau. Mae'r ffreutur mor fach fel nad oes amser i'r holl ddisgyblion brynu a bwyta eu cinio. Nid oes cloeriau i'r disgyblion ac fe ddisgynnodd y nenfwd mewn rhai ystafelloedd dosbarth rai misoedd yn ôl.

Mae'r ysgol gynradd yn y Crwys gerllaw yn ysgol arall sydd â thoiled allanol annerbyniol. Yn ysgol gynradd Manselton, sydd yn agos iawn i'm cartref i, mae angen gwaith sylweddol ar yr adeiladwaith i sicrhau na cheir ailadrodd ar ddigwyddiad llynedd pryd y cwmpodd y nenfwd mewn ystafell ddosbarth a oedd, wrth lwc, yn wag. Mae gan Abertawe ôl-groniad o £40 miliwn. Mae'r enghreifftiau'n ymddangos yn ddi-ben-draw. Pe bai'r Cynulliad yn treulio hanner cymaint o egni â'r hyn a roddwyd i'r ymgyrch ar ran ffermwyr Cymru i ennill cyfalaf ychwanegol o'r Trysorlys, mae'n bosibl y gallem weld gwelliant anferth yn y safonau ar gyfer ein holl blant. Fe sicrhodd yr ymgyrch honno £80 miliwn ychwanegol i amaethyddiaeth yn y DU a'r caniatâd i ariannu'n cynlluniau cymorth ein hunain. Fodd bynnag, ni welaf Ysgrifenyddion ein Cynulliad yn gofyn am gyfarfodydd gyda David Blunkett i drafod yr argyfwng yn ysgolion Cymru.

Mae gan Ganghellor y Trysorlys warged cyllideb eleni yr amcangyfrifir ei fod rhwng £5 biliwn a £20 biliwn. Mae ganddo ddewis clir rhwng toriadau ar drethi i geisio prynu pleidleisiau yn yr etholiad cyffredinol nesaf a buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid iddo wneud y penderfyniad hwnnw yng nghyd-destun ymchwil sydd yn dangos bod gwariant cyhoeddus yn y DU fel canran o GDP ar ei lefel isaf ers Macmillan, yn is hyd yn oed nag ydoedd o dan Margaret Thatcher a John Major. Ein blaenoriaeth a'n

public services must win every time. We must ask the Chancellor to invest a significant amount of that money in Welsh schools and Welsh education. We should also ask him to relax Treasury rules on borrowing by local authorities so that they are able to raise more capital to invest in essential repairs and modernisation, money that we should be topping up from Wales's share of the capital modernisation fund.

We need the political will to change things for the better. We are not an adjunct of Westminster. We are here to represent the interests of all of Wales. If that means we must stand up to the Chancellor of the Exchequer and demand extra resources for essential work on school buildings, then that is what we must do. That will be the first real test of this National Assembly for Wales.

Owen John Thomas: I was pleased to hear Peter and see his statement in the newspaper last week echoing points that I made in the last week of July drawing attention to the fact that an extra £30 million a year put aside by the Government to cover the maintenance of school buildings over the next five years is clearly not enough to off-set the combined effect of inflation and further deterioration. With a backlog of £325 million, it is likely to stay exactly the same or in fact grow.

Plaid Cymru is alarmed that parents and children at schools such as Trelái primary school in Cardiff, are leading their own campaigns to force a response from this Assembly. We have heard from Peter of roofs or ceilings falling in. I have experience of this happening in the school in which I recently taught. We have seen jobs not carried out by authorities on roofs and windows resulting in old timbers and window frames having to be repaired and floors replaced at costs of tens of thousands of pounds. If the money had been available in the first place we could have solved those problems, saving the ship for a hap'orth of tar. Her Majesty's Inspectors earmarked 60

neges ni fel Cynulliad yw mai gwasanaethau cyhoeddus sydd i ennill bob tro. Rhaid inni ofyn i'r Canghellor fuddsoddi swm sylweddol o'r arian hwnnw yn ysgolion Cymru ac yn addysg Cymru. Dylem hefyd ofyn iddo lacio rheolau'r Trysorlys ar fenthyca gan awdurdodau lleol fel bod modd iddynt godi mwy o gyfalaf i'w fuddsoddi mewn gwaith atgyweirio a moderneiddio hanfodol, arian y dylem ychwanegu ato o gyfran Cymru o'r gronfa moderneiddio cyfalaf.

Rhaid inni gael yr ewyllys gwleidyddol i newid pethau er gwell. Nid atodiad i San Steffan mohonom. Yr ydym yma i gynrychioli buddiannau Cymru gyfan. Os yw hynny'n golygu bod rhaid inni herio Canghellor y Trysorlys a hawlio adnoddau ychwanegol i waith hanfodol ar adeiladau ysgol, dyna fydd raid. Dyna fydd y prawf gwirioneddol cyntaf ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Owen John Thomas: Yr oeddwn yn falch o glywed Peter ac o weld ei ddatganiad yn y papur newydd yr wythnos diwethaf yn adleisio pwyntiau a wneuthum yn wythnos olaf Gorffennaf yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn amlwg nad oedd y £30 miliwn y flwyddyn a neilltuwyd gan y Llywodraeth i dalu am gynnal a chadw adeiladau ysgol dros y pum mlynedd nesaf yn ddigon i wrthbwysu cyd-fffaith chwyddiant a dirywiad pellach. Gydag ôl-groniad o £325 miliwn, mae'n debygol o aros felly neu gynyddu.

Mae Plaid Cymru yn arswydo wrth weld bod rhieni a phlant mewn ysgolion fel ysgol gynradd Trelái yng Nghaerdydd yn arwain eu hymgyrchoedd eu hunain i orfodi ymateb gan y Cynulliad hwn. Clywsom gan Peter am doeau neu nenfydau'n cwmpo. Mae gennyf brofiad o hynny yn yr ysgol lle y bûm yn dysgu yn ddiweddar. Gwelsom waith ar doeau a ffenestri yn cael ei esgeuluso gan awdurdodau gan arwain at reidrwydd i atgyweirio hen breniau a fframiau ffenestri ac ailosod lloriau ar gost o ddegau o filoedd o bunnau. Byddai modd datrys y problemau hynny pe buasai'r arian ar gael yn y lle cyntaf, gan achub pedol a wnelo hoelen. Fe glustnododd Arolygwyr Ei Mawrhydi 60 y

per cent of schools throughout Wales as being in need of repair. Directors of education have also indicated that the poor condition of school building stock is one of the main challenges facing the provision of an effective, quality service. This raises several questions. Can the Secretary explain the lack of any capital funding for this purpose in the pre-16 education budget? The private finance initiative has also revealed some worrying cracks. Most recently, we had the announcement during the recess that Bridgend and Rhondda Cynon Taf were to have PFI schemes. These authorities are adjacent and one of the schools involved—the Maesteg school—would draw away 70 per cent of the pupils who attend Ysgol Gyfun Llanhari, which is just over the boundary in Rhondda Cynon Taf. Ysgol Gyfun Llanhari will also be affected by the fact that the new PFI school for Ysgol Gyfun Rhydfelen will be brought much closer to Llanhari, thereby taking away some of its pupils.

cant o ysgolion drwy Gymru yn rhai y mae angen eu hatgyweirio. Mae cyfarwyddwyr addysg hefyd wedi nodi mai cyflwr gwael y stoc adeiladau ysgol yw un o'r prif sialensau wrth ddarparu gwasanaeth effeithiol o ansawdd da. Mae hyn yn codi sawl cwestiwn. A oes modd i'r Ysgrifennydd egluro diffyg arian cyfalaf i'r diben hwn yn y gyllideb addysg cyn-16? Mae menter cyllid preifat wedi datgelu rhai craciau sydd yn peri gofid. Yn ddiweddar iawn, cawsom gyhoeddiad yn ystod y gwyliau fod Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf i gael cynlluniau menter cyllid preifat. Mae'r awdurdodau hyn am y ffin â'i gilydd a byddai un o'r ysgolion dan sylw—yr ysgol ym Maesteg—yn tynnu 70 y cant o'r disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Gyfun Llanhari, sydd ychydig dros y ffin yn Rhondda Cynon Taf. Fe effeithir hefyd ar Ysgol Gyfun Llanhari gan y ffaith y bydd yr ysgol menter cyllid preifat newydd i Ysgol Gyfun Rhydfelen yn agosach o lawer i Llanhari, gan dynnu rhai o'i disgyblion oddi wrthi.

11:19 a.m.

There was no consultation with head teachers or school governors. What are the procedures for processing PFI bids? Would the Secretary tell us where the roles of head teachers, governing bodies, local authorities and financing bodies are laid out clearly? At the moment, these discussions about bids seem to be taking place between councillors and private financing bodies, without consultation with the people involved. That is not good enough. Plaid Cymru has serious concerns about PFI because that is exactly what happened in Rhondda Cynon Taf. It will prove more expensive for schools, local education authorities and, ultimately, the taxpayer. I would like to know what arrangements will be put in place to scrutinise the cost-effectiveness of PFI schemes in schools. Finally, what resources will be available for the Assembly to assist the schools that are still desperately in need of maintenance but do not have PFI funding?

Nid oedd unrhyw ymgynghori â phrifathrawon neu llywodraethwyr ysgol. Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer prosesu ceisiadau menter cyllid preifat? A fyddai'r Ysgrifennydd gystal â dweud wrthym ym mhle y mae rolau prifathrawon, cyrff llywodraethol, awdurdodau lleol a chyrff cyllido wedi eu nodi'n eglur? Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod trafodaethau am y ceisiadau hyn yn digwydd rhwng cynghorwyr a chyrff cyllido preifat, heb ymgynghori â'r bobl dan sylw. Nid yw hynny'n ddigon da. Mae Plaid Cymru'n pryderu o ddifrif ynghylch y fenter cyllid preifat oherwydd dyna'r union beth a ddigwyddodd yn Rhondda Cynon Taf. Bydd yn profi'n ddrotach i ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac, yn y pen draw, i'r trethdalwr. Hoffwn wybod pa drefniadau a sefydlir i archwilio cost-effeithiolrwydd cynlluniau menter cyllid preifat mewn ysgolion. Yn olaf, pa adnoddau fydd ar gael i'r Cynulliad i helpu'r ysgolion sydd yn dal mewn dirfawr angen o waith cynnal a chadw ond sydd heb gyllid menter

cyllid preifat?

Jonathan Morgan: The Secretary for Pre-16 Education stated in July that she was firmly committed to bringing our schools up to a fit state for the twenty-first century. Looking at some of the schools, particularly those to which Peter and O.J. referred, it should have read twenty-third century. It will take much longer to get these schools up to scratch.

Jonathan Morgan: Fe ddywedodd yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 yng Ngorffennaf ei bod wedi ymrwymo'n gadarn i adfer ein hysgolion i gyflwr addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. O edrych ar rai o'r ysgolion, yn enwedig y rhai y cyfeiriodd Peter ac O.J. atynt, fe ddylai'r geiriau fod yn drydedd ganrif ar hugain. Fe gymer lawer mwy o amser i adfer yr ysgolion hyn i'r safon ddisgwyliedig.

The schools capital programme is causing great concern in South Wales Central. Peter referred to Rhydypennau school and O.J. referred to Trelái primary school, which was flagged up this week by the *South Wales Echo* under the damning headline, 'Our School is a Wreck'. It went on to note leaking roofs, flaking paint, cold classrooms, cracked and damp walls and buildings that make it look like a prisoner of war camp according to some people. That building is not fit for the twenty-first century and it needs urgent action from the Secretary for Pre-16 Education. Will Rosemary Butler consider meeting the head teacher of Trelái primary school and visiting the school to examine the extent to which repair work is urgently needed? I, along with O.J., would like to request a meeting with Peter Law to establish why on earth this PFI bid for a new school was turned down. It is absolutely scandalous. There are schools in need of desperate repair and Rosemary Butler must act urgently.

Mae'r rhaglen gyfalaf i ysgolion yn peri pryder mawr yng Nghanol De Cymru. Fe gyfeiriodd Peter at ysgol Rhydypennau a chyfeiriodd O.J. at ysgol gynradd Trelái, y tynnwyd sylw ati yr wythnos hon gan y *South Wales Echo* o dan y pennawd damniol, 'Our School is a Wreck'. Fe aeth ymlaen i grybwyll toeau sydd yn gollwng, paent sydd yn pilio, ystafelloedd dosbarth oer, waliau llaith a rhai sydd wedi cracio ac adeiladau sydd yn peri ei bod yn ymddangos fel gwersyll i garcharorion rhyfel yn ôl rhai. Nid yw'r adeilad hwnnw'n addas i'r unfed ganrif ar hugain ac mae arno angen camau brys gan yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16. A wnaiff Rosemary Butler ystyried cyfarfod â phrifathro ysgol gynradd Trelái ac ymweld â'r ysgol i weld y graddau y mae angen gwaith atgyweirio brys? Byddwn i, fel O.J., yn hoffi gwneud cais am gyfarfod â Peter Law i ganfod pam ar y ddaear y gwrthodwyd y cais menter cyllid preifat hwn am ysgol newydd. Mae'n gwbl warthus. Mae yna ysgolion y mae angen dybryd eu hatgyweirio a rhaid i Rosemary Butler weithredu ar frys.

Jenny Randerson: I want to raise one issue—the effect of fair funding. I would be grateful if Rosemary Butler would respond to this. Governing bodies will have to take much more responsibility for school maintenance and they are inheriting schools that are wrecks as a result of 18 years of the Tory Government's lack of funding and a failure by the recent Government to do anything about it.

Jenny Randerson: Yr wyf am godi un mater—effaith ariannu teg. Byddwn yn ddiolchgar pe bai Rosemary Butler yn ymateb i hyn. Bydd yn rhaid i gyrff llywodraethol ymgymryd â llawer mwy o gyfrifoldeb dros gynnal a chadw ysgolion ac maent yn etifeddu ysgolion sydd yn adfeilion o ganlyniad i 18 mlynedd o ddiffyg ariannu gan y Llywodraeth Doriáidd a methiant y Llywodraeth ddiwethaf i wneud dim yn ei gylch.

Rosemary Butler: I am pleased this morning that all the parties are as concerned as we are

Rosemary Butler: Mae'n dda gennyf fod yr holl bleidiau fore heddiw mor bryderus â

about the condition of schools in Wales. The opportunity for us to consider the maintenance of schools and the building of new ones is timely as we are considering the budgets for 2000, 2001 and beyond. Members of the Pre-16 Education Committee have asked about next year's budget. This is an ideal opportunity to make recommendations to the Committees currently looking at the budgets. I am not aware of any suggestions along the same lines as Owen John Thomas's being considered by the Committees. Please take the opportunity to put those forward at the right time.

I recognise and share everyone's concerns about the state of school buildings. Jenny Randerson made a good point: that the failure to invest adequately in maintaining, refurbishing and replacing school buildings is part of our legacy from the last Tory Government. We cannot get away from that.

The WLGA's assessment indicates that the backlog of repairs and maintenance work across Wales stands at £325 million. That figure was quoted this morning. However, I cannot confirm the different figure that was quoted by the National Union of Teachers. We must remember that the £325 million is the backlog for repairing schools. That is before investing in building new schools.

When the Labour Government came into office in 1997, the Chancellor of the Exchequer's first action was to allocate additional resources from the windfall tax to fund capital building programmes for schools. The new deal for schools' capital funding programme has taken place and is very effective, particularly in Wales. Wales's share of that funding is £65 million. Already 1,600 school projects have benefited from this funding and more will do so in the next two financial years. The additional £15 million, not £13 million as Peter Black stated, being provided through the programme this year, is the total for local education authority schools, which I

ninnau ynghylch cyflwr ysgolion yng Nghymru. Mae'r cyfle hwn inni ystyried cynnal a chadw ysgolion ac adeiladu rhai newydd yn un amserol gan ein bod yn ystyried y cyllidebau ar gyfer 2000, 2001 ac ar ôl hynny. Mae aelodau o'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 wedi holi ynghylch cyllideb y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn gyfle delfrydol i roi argymhellion i'r Pwyllgorau sydd yn edrych ar y cyllidebau ar hyn o bryd. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw argymhellion tebyg i rai Owen John Thomas yn cael eu hystyried gan y Pwyllgorau. Byddwch cystal â manteisio ar y cyfle i gyflwyno'r rhain ar yr adeg iawn.

Yr wyf yn cydnabod ac yn rhannu pryderon pawb ynghylch cyflwr adeiladau ysgol. Fe wnaeth Jenny Randerson bwynt da: bod y methiant i fuddsoddi'n ddigonol mewn cynnal a chadw, adnewyddu ac ail-godi adeiladau ysgol yn rhan o'r hyn a etifeddiwyd oddi wrth y Llywodraeth Doriaidd ddiwethaf. Ni allwn osgoi hynny.

Mae asesiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi mai cost yr ôl-groniad o waith atgyweirio a chynnal a chadw ar draws Cymru yw £325 miliwn. Fe ddyfynnwyd y ffigur hwnnw fore heddiw. Fodd bynnag, ni allaf gadarnhau y ffigur gwahanol a ddyfynnwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon. Rhaid inni gofio mai £325 miliwn yw'r ôl-groniad am atgyweirio ysgolion. Mae hynny cyn buddsoddi mewn adeiladu ysgolion newydd.

Pan ddaeth y Llywodraeth Lafur i rym yn 1997, cam cyntaf Canghellor y Trysorlys oedd dyrannu adnoddau ychwanegol o'r dreth ar ffawdelw i ariannu rhaglenni adeiladu cyfalaf i ysgolion. Mae'r fargen newydd ar gyfer rhaglen ariannu cyfalaf yr ysgolion wedi digwydd ac mae'n effeithiol iawn, yn enwedig yng Nghymru. Cyfran Cymru o'r arian hwnnw yw £65 miliwn. Mae 1,600 o brosiectau ysgol wedi elwa eisoes ar yr arian hwn a bydd rhagor yn gwneud yn y ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Y £15 miliwn ychwanegol, nid £13 miliwn fel y dywedodd Peter Black, a ddarperir drwy'r rhaglen eleni, yw'r cyfanswm ar gyfer ysgolion awdurdodau addysg lleol, a gyhoeddais yng

announced in July. There are also elements for voluntary-aided schools that were not referred to. However, this is only part of the funding that has been provided. The total amount for 1999-2000 is £67 million, £59 million for local authority schools and the rest for voluntary-aided schools and remaining costs on projects at former grant maintained schools.

However, Welsh Office Ministers recognise, as I do, that the backlog of problems cannot be resolved as quickly as we would like. The key players are the local authorities. They have the responsibility of funding capital work at community schools—former county schools—and foundation schools. Their decisions are crucial. The WLGA's assessment indicated that, of the backlog of £325 million, £179 million represents work that can be funded from revenue provision. The need for additional revenue funding for schools has been and is being addressed. In 1998-99, local authorities received an additional £50 million for schools in the annual revenue settlement. In 1999-2000, they received an additional £70.2 million for education. The Assembly has inherited plans that include further increases of £75 million and £80 million for education in the next two years.

Later today, I hope to send members of the Pre-16 Education Committee information that shows that authorities have used the resources for 1999-2000 in accordance with expectations. I am hopeful that authorities and schools will be in a good position to spend additional amounts on repairs and maintenance next year.

The WLGA is seeking an additional £146 million for capital works to be spread over the next three or four years. Its capital expenditure report shows authorities are expecting to spend £62 million on capital works for education this year. This includes authorities' use of capital receipts and

Ngorffennaf. Mae elfennau hefyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir na chyfeiriwyd atynt. Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn rhan o'r arian a ddarparwyd. Y cyfanswm ar gyfer 1999-2000 yw £67 miliwn, £59 miliwn i ysgolion awdurdodau lleol a'r gweddill i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a'r costau sydd yn gweddill ar brosiectau mewn ysgolion a arferai gael eu cynnal â grant.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion y Swyddfa Gymreig yn cydnabod, fel yr wyf finnau, na ellir datrys yr ôl-groniad o broblemau mor gyflym ag yr hoffem. Y chwaraewyr allweddol yw'r awdurdodau lleol. Ganddynt hwy y mae'r cyfrifoldeb dros ariannu gwaith cyfalaf mewn ysgolion cymuned—ysgolion sirol cynt—ac ysgolion sylfaen. Mae eu penderfyniadau'n dyngedfennol. Yr oedd asesiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dangos bod £179 miliwn o'r ôl-groniad o £325 miliwn yn waith y gellir ei ariannu o'r ddarpariaeth refeniw. Mae'r angen am gyllid refeniw ychwanegol i ysgolion wedi derbyn sylw ac yn derbyn sylw o hyd. Yn 1998-99, derbyniodd awdurdodau lleol £50 miliwn ychwanegol ar gyfer ysgolion yn y setliad refeniw blynyddol. Yn 1999-2000, bu iddynt dderbyn £70.2 miliwn ychwanegol ar gyfer addysg. Mae'r Cynulliad wedi etifeddu cynlluniau sydd yn cynnwys cynnydd pellach o £75 miliwn a £80 miliwn ar gyfer addysg yn y ddwy flynedd nesaf.

Yn ddiweddarach heddiw, yr wyf yn gobeithio anfon gwybodaeth at aelodau'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 sydd yn dangos bod yr awdurdodau wedi defnyddio'r adnoddau ar gyfer 1999-2000 yn unol â'r disgwyl. Yr wyf yn gobeithio y bydd yr awdurdodau a'r ysgolion mewn sefyllfa da i wario symiau ychwanegol ar atgyweirio a chynnal a chadw y flwyddyn nesaf.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ceisio £146 miliwn ychwanegol ar gyfer gwaith cyfalaf i'w rannu dros y tair neu bedair blynedd nesaf. Mae ei adroddiad ar wariant cyfalaf yn dangos bod yr awdurdodau'n disgwyl gwario £62 miliwn ar waith cyfalaf ar gyfer addysg eleni. Mae hyn

contributions from revenue. Approximately £30 million of the total is accounted for by the use of basic credit approvals, but the indicative BCA allocation for education for this year is almost £43 million. A similar picture is revealed by authorities' plans for 2000-01. The planned spending amounts to £57 million, with £35 million of that accounted for by use of BCAs. The planned indicative BCA allocation for 2000-01 is just over £44 million.

Local authorities have full discretion in their use of BCAs. However, if they are not using the resources they have been allocated to the full, there is difficulty in their argument for additional capital provision for schools. I will be meeting the WLGA shortly to discuss funding and we will explore why our shared priority for education does not appear to be working for capital spending as well as it is for revenue spending.

11:29 a.m.

I am impressed by the work that individual authorities are doing and the amount of work being done to improve the condition of the school stock. The fact that we have been able, in principle, to approve revenue support for PFI schemes involving schools is testament to the innovative thinking of the authorities involved. I was impressed when I visited Wrexham in June to see the emerging results of the authority's partnership with Asda, which will lead to the replacement or improvement of five schools. The partnership and its knock-on benefits to other schools will deal with around another third of Wrexham's capital work. I hope that more authorities will consider ways of resolving their problems through partnership and through the reorganisation of the use of buildings, particularly where there are surplus school places. When I meet the

yn cynnwys defnydd yr awdurdodau o dderbyniadau cyfalaf a chyfraniadau oddi wrth reffeniw. Gellir rhoi cyfrif am tua £30 miliwn o'r cyfanswm drwy ddefnyddio cymeradwyaethau credyd sylfaenol, ond y dyraniad mynegol drwy gymeradwyaethau credyd sylfaenol ar gyfer addysg eleni yw £43 miliwn bron. Ceir darlun tebyg yng nghynlluniau'r awdurdodau ar gyfer 2000-01. Mae'r gwariant arfaethedig yn gymaint â £57 miliwn, a gellir rhoi cyfrif am £35 miliwn o hynny drwy'r defnydd o gymeradwyaethau credyd sylfaenol. Mae'r dyraniad cymeradwyaethau credyd sylfaenol mynegol arfaethedig ar gyfer 2000-01 ychydig dros £44 miliwn.

Mae gan yr awdurdodau lleol ryddid llwyr yn eu defnydd o gymeradwyaethau credyd sylfaenol. Fodd bynnag, os na fyddant yn defnyddio'r adnoddau a ddyrannwyd iddynt i'r eithaf, mae diffyg yn eu dadl dros ddarpariaeth cyfalaf ychwanegol ar gyfer ysgolion. Byddaf yn cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru cyn hir i drafod ariannu a byddwn yn ceisio canfod pam ei bod yn ymddangos nad yw'r flaenoriaeth a rennir gennym ar gyfer addysg yn llwyddo mewn gwariant cyfalaf i'r un graddau ag y mae mewn gwariant reffeniw.

Yr wyf yn llawn edmygedd at waith awdurdodau unigol ac at faint y gwaith a gyflawnir i wella cyflwr y stoc ysgolion. Mae'r ffaith ein bod wedi gallu rhoi cymeradwyaeth, mewn egwyddor, i gymorth reffeniw ar gyfer cynlluniau menter cyllid preifat sydd yn ymwneud ag ysgolion yn dyst i feddylfryd arloesol yr awdurdodau dan sylw. Cefais argraff dda pan ymwelais â Wrecsam ym Mehefin i weld canlyniadau cyntaf partneriaeth yr awdurdod ag Asda, a fydd yn arwain at ailgodi neu wella pump o ysgolion. Bydd y bartneriaeth a'r manteision sydd yn ei dilyn i ysgolion eraill yn cyfrif am un rhan o dair arall o waith cyfalaf Wrecsam. Gobeithio y bydd mwy o awdurdodau yn ystyried ffyrdd o ddatrys eu problemau drwy bartneriaeth a drwy aildrefnu'r defnydd ar adeiladau, yn enwedig pan fydd lleoedd dros ben mewn ysgolion. Pan fyddaf yn cyfarfod â

WLGA we will explore the scope for greater use of such approaches to solve what is a serious and long-standing problem.

A number of points were made this morning about specific PFIs. There is some misunderstanding about what PFIs are. There is a lot of information, which was made available to the Pre-16 Education Committee, and which I will make available to any Member on request. I have a strong commitment to visit as many schools as I possibly can.

Jonathan Morgan: The Inspectors' report on Trelái primary school praised its good teaching practices and standard of education. Bearing that in mind along with the dreadful state of affairs there, I am sure that the head teacher and parents would appreciate it if you could find the time for a visit.

Rosemary Butler: Thank you for the invitation. I already have a number of other invitations and I will visit as many schools in Wales as I possibly can and as soon as I can. I am going to Powys next month and to west Wales after half term. If any of you would like me to visit a certain school, I will try to do so as soon as possible.

Janice Gregory: I am glad that you mentioned the successful PFI bids. It would be remiss of me if I did not speak because my county borough area was successful with its PFI bid. Owen John would have everyone believe that it was a successful bid to the detriment of another school. He failed to tell you that the Llynfi Valley comprehensive school was included in that PFI bid. It is a school that has suffered for many years with a split-site where the upper and lower years are educated on different sites. He would have us believe that the PFI bids from Bridgend County Borough Council were made for the sole purpose of building a new school because it would be nice. That is not the case and perhaps you would confirm that and also confirm that the Rhondda Cynon

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru byddwn yn ymchwilio i'r cyfle i ddefnyddio dulliau gweithredu o'r fath yn helaethach er mwyn datrys problem sydd yn un ddifrifol a hir-sefydlog.

Fe wnaethpwyd sawl pwynt fore heddiw am fentrau cyllid preifat penodol. Mae rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch yr hyn ydyw mentrau cyllid preifat. Mae yna lawer o wybodaeth, a oedd ar gael i'r Pwyllgor Addysg Cyn-16, ac a fydd ar gael gennyf i unrhyw Aelod ar ei gais. Mae gennyf ymwymiad cryf i ymweld â chynifer o ysgolion ag y gallaf.

Jonathan Morgan: Yr oedd canmoliaeth yn adroddiad yr Arolygwyr ar ysgol gynradd Trelái i'w harferion dysgu da a safon yr addysg. O gofio hynny a'r sefyllfa drychinebus sydd yno, yr wyf yn sicr y byddai'r prifathro a'r rhieni'n ddiolchgar pe gallech gael amser i ymweld.

Rosemary Butler: Diolch i chi am y gwahoddiad. Yr wyf eisoes wedi derbyn nifer o wahoddiadau eraill a byddaf yn ymweld â chynifer ag y bo modd o ysgolion yng Nghymru a hynny cyn gynted ag y gallaf. Yr wyf yn mynd i Bowys fis nesaf ac i orllewin Cymru wedi'r hanner tymor. Os oes unrhyw un ohonoch sydd yn dymuno imi ymweld ag ysgol benodol, fe geisïaf wneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

Janice Gregory: Yr wyf yn falch eich bod wedi crybwyll y ceisiadau menter cyllid preifat llwyddiannus. Byddwn ar fai pe na bawn yn siarad oherwydd yr oedd f'ardal bwrdeistref sirol i yn llwyddiannus â'i gais menter cyllid preifat. Byddai Owen John am i bawb gredu ei fod yn gais llwyddiannus ar draul ysgol arall. Ni ddywedodd wrthyf fod ysgol gyfun Cwm Llynfi wedi ei chynnwys yn y cais menter cyllid preifat hwnnw. Mae'n ysgol a ddiodefodd ers blynnyddoedd lawer oherwydd ei safle rhanedig lle y bydd y blynnyddoedd ieuengaf a'r blynnyddoedd hynaf yn cael eu haddysgu ar wahanol safleoedd. Byddai am inni gredu bod y ceisiadau menter cyllid preifat oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi eu gwneud i'r union bwrpas o godi ysgol newydd am y

Taff bid is for a new Welsh medium school in Church Village.

Owen John Thomas: Nid wyf wedi siarad yn erbyn adeiladu ysgol newydd ym Mhen-y-bont. Yr hyn a ddywedais oedd na fu trafodaeth rhwng awdurdodau Pen-y-bont a Rhondda Cynon Taf ar yr effaith y gallai ysgol newydd ym Mhen-y-bont ei chael ar Ysgol Gyfun Llanhari gan fod 70 y cant o blant yr ysgol honno yn dod o ardal Pen-y-bont. Sefydlwyd Ysgol Gyfun Rhydfelen yn agosach fyth at Ysgol Gyfun Llanhari a dylid cofio hynny hefyd wrth ystyried sefydlu ysgol Gymraeg arall yn yr un ardal. Nid oes digon o drafodaeth gyda rhieni, athrawon a llywodraethwyr. Beth yw menter cyllid preifat, a sut mae'n gweithio? Yr wyf wedi gofyn y cwestiwn hwn eisoes, a nid ydych wedi ei ateb.

Rosemary Butler: I was right. He is asking the same question that he asked in the Pre-16 Education Committee. There was a presentation on PFIs in that Committee and it is not my fault if certain Members were unable to attend. The information is available in the library and also from the Committee Clerk. If you have any specific questions, I am sure Peter Law's official could answer them. I am not being facetious, that is the case. The information is there if you wish to read it. You are wrong when you say there was no discussion. I have the information in black and white if you wish to see it. There was a great deal of effort to ensure that each agreed bid was of high quality. Some very good bids reached the criteria, others did not, which is why they were turned down. I am not passing the buck, but if you wish to ask any questions as to why they were not passed, Peter Law is the person to ask.

Val Feld: The decision on the City and County of Swansea bid was not based on competence. Peter Law knows that there was

byddai hynny'n beth braf. Nid felly y mae ac efallai y byddwch crystal â chadarnhau hynny a chadarnhau hefyd bod y cais Rhondda Cynon Taf yn un am ysgol Gymraeg newydd yng Ngartholwg.

Owen John Thomas: I have not spoken against building a new school in Bridgend. What I did say was that the Bridgend and Rhondda Cynon Taf authorities have not discussed the possible effect of a new Welsh medium school on Ysgol Gyfun Llanhari as 70 per cent of the children in that school come from the Bridgend area. Ysgol Gyfun Rhydfelen was established even closer to Ysgol Gyfun Llanhari and that should also be borne in mind when considering the establishment of another Welsh medium school in the same area. There is not enough discussion with parents, teachers and governors. What is a private finance initiative, and how does it work? I have asked this question before, and you have not answered.

Rosemary Butler: Yr oeddwn yn iawn. Mae'n gofyn yr un cwestiwn ag y gofynnodd yn y Pwyllgor Addysg Cyn-16. Cafwyd cyflwyniad ar fenterau cyllid preifat yn y Pwyllgor hwnnw ac nid fy mai i ydyw os nad oedd rhai Aelodau yn gallu bod yn bresennol. Mae'r wybodaeth yn y llyfrgell, ac mae hefyd ar gael oddi wrth Glerc y Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, yr wyf yn siŵr y gallai swyddog Peter Law eu hateb. Nid gwamalu yr ydwyf, dyna'r gwir. Mae'r wybodaeth yno os ydych am ei darllen. Yr ydych yn anghywir wrth ddweud nad oedd trafodaeth. Mae'r wybodaeth gennyf ar ddu a gwyn os ydych yn dymuno ei gweld. Fe wnaethpwyd ymdrech fawr i sicrhau bod pob cais a gytunwyd yn un o ansawdd uchel. Yr oedd rhai ceisiadau da iawn wedi cyflawni'r meini prawf, ac eraill wedi methu, a dyna pam y cawsant eu gwrthod. Nid taflu'r baich yr ydwyf, ond os ydych yn dymuno gofyn unrhyw gwestiynau ynghylch pam y'u gwrthodwyd, Peter Law yw'r un y dylech ofyn iddo.

Val Feld: Nid oedd y penderfyniad ar gais Dinas a Sir Abertawe yn seiliedig ar gymhwysedd. Fe wyr Peter Law fod

a dispute about timescales. I do not wish it to go on record that all bids were accepted or rejected according to criteria that you mentioned.

Rosemary Butler: The rejected bids did not meet the criteria due to reasons that include timescale. There was a good reason for rejecting that bid. It would not have been turned down out of hand. Timescale is one of the criteria.

Y Llywydd: Dyna ddiwedd cyfarfod y bore. Byddwch yn ailymgynnull am ddau o'r gloch y prynhawn yma a bydd y Dirprwy Lywydd yn y Gadair. Yr wyf yn sicr y byddwch yn estyn yr un cwртеisi iddi ag y byddwch bob amser yn ei ddangos i mi.

anghytundeb ynghylch amserlenni. Nid wyf am iddo gael ei gofnodi bod yr holl geisiadau wedi eu derbyn neu eu gwrthod yn ôl y meini prawf a grybwyllwyd gennych.

Rosemary Butler: Nid oedd y ceisiadau a wrthodwyd yn cyflawni'r meini prawf am resymau sydd yn cynnwys yr amserlen. Yr oedd rheswm da dros wrthod y cais hwnnw. Ni fyddai wedi ei wrthod ar ei union. Yr amserlen yw un o'r meini prawf.

The Presiding Officer: That is the end of the morning session. You will reconvene at two o'clock this afternoon and the Deputy Presiding Officer will be in the Chair. I am sure that you will extend to her the same courtesy that you always show me.

*Daeth cyfarfod y bore i ben am 11:37 a.m.
The morning session ended at 11:37 a.m.*